



Ministry  
of Justice

# Papur Gwyn y Strategaeth Carchardai

Rhagfyr 2021

CP 581





Ministry  
of Justice

## **Papur Gwyn y Strategaeth Carchardai**

Cyflwynwyd i'r Senedd

gan y Dirprwy Brif Weinidog, yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol  
dros Gyfiawnder o dan Orchymyn Ei Mawrhydi

Rhagfyr 2021



© **Hawlfraint y Goron 2021**

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio ble nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Ble rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint o dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/official-documents](http://www.gov.uk/official-documents)

Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn [prisonswhitepaper@justice.gov.uk](mailto:prisonswhitepaper@justice.gov.uk).

ISBN 978-1-5286-3095-5

E02699891 12/21

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd ar ran Rheolwr Swyddfa Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys

|  |    |
|--|----|
| Rhagair  | 3  |
| Dirprwy Brif Weinidog, yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder | 4  |
| Diben Carchardai   | 4  |
| Codi'r Gwastad   | 6  |
| Yr Heriau sy'n ein Hwnebu  | 7  |
| Ein Gweledigaeth 10 Mlynedd ar gyfer y System Carchardai                               | 8  |
| Sicrhau Sylfeini ar gyfer y Dyfodol  | 9  |
| Pennod Un – Llwybr i Adeiladu Ystâd Carchardai'r Dyfodol                               | 12 |
| Adeiladu'r Genhedlaeth Nesaf o Garchardai  | 13 |
| Sicrhau bod Carchardai'n cael eu Dylunio i Hybu Adsefydlu a Lleihau Troseddu           | 14 |
| Gwella Ystâd Bresennol ein Carchardai  | 15 |
| Ein Gweledigaeth Dymor Hir ar gyfer Ystâd Carchardai'r Dyfodol                         | 17 |
| Pennod Dau – Mynd i'r Afael â Thrais, Atal Niwed a Hybu Trefn a Disgyblaeth            | 19 |
| Ymyriadau Diogelwch wedi'u Targedu   | 22 |
| Darparu'r Cymorth Cywir  | 23 |
| Ystâd sy'n Ddiogel yn ei Hanfod  | 23 |
| Cyffuriau a Dyledion   | 24 |
| Ailgodi Cyfundrefnau Carchardai'n Gryfach  | 26 |
| Rheoli Ymddygiad   | 28 |
| Ein Gweledigaeth 10 Mlynedd i Greu Carchardai Diogel a Sefydlog y Dyfodol              | 31 |
| Pennod Tri – Rôl Carchardai a Phrawf i Leihau Troseddu ac Amddiffyn y Cyhoedd          | 33 |
| Y Dyddiau Cyntaf yn y Carchar  | 35 |
| Yn ystod Dedfryd Carcharor   | 36 |
| Gadael Carchar gyda Sylfaen Gadarn   | 43 |
| Pasbortau Ailsefydlu   | 50 |
| Yn y Gymuned   | 52 |
| Ein Gweledigaeth 10 Mlynedd i Leihau Troseddu drwy Fynd i'r Afael ag Aildroseddu       | 54 |
| Pennod Pedwar – Ymagwedd Newydd tuag at Garchardai Menywod                             | 55 |

|   |    |
|---|----|
| Ymagwedd Newydd at Gaethiwed Menywod  | 56 |
| Lleoli Carfanau Gwahanol o Fenywod  | 57 |
| Gwella Diogelwch a Lleihad Cydraddau Hunan-niweidio                             | 57 |
| Cynorthwyo Menywod Beichiog mewn Carchardai                                     | 57 |
| Ein Gweledigaeth 10 Mlynedd ar gyfer Carchardai Menywod                         | 58 |
| Pennod Pump – Ein Pobl  | 60 |
| Recriwtio a Chadw   | 62 |
| Proffesiynoldeb a Gwella Galluoedd Staff  | 63 |
| Datblygu Rheolwyr ac Arweinyddion   | 64 |
| Galluogi ein Gweithlu i wneud i Garcharorion Gefnu ar Droseddu                  | 66 |
| Ein Gweledigaeth 10 Mlynedd ar gyfer ein Gweithlu                               | 67 |
| Pennod Chwech – Cyflawni Canlyniadau Gwell mewn Carchardai                      | 69 |
| Pennu Disgwyliadau Pendant a Chyfeiriad er mwyn Cyflawni                        | 70 |
| Cryfhau Annibyniaeth a Rhoi'r Rhyddid sydd ei Angen ar Arweinyddion Gweithredol | 71 |
| Sicrhau Atebolrwydd Clir am Gyflawni  | 73 |
| Adolygiad o'r Ddeddfwriaeth a'r Cefndir Craffu Ehangach                         | 74 |
| Holiadur  | 75 |
| Sut i ymateb  | 76 |
| Cwynion neu sylwadau  | 77 |
| Ymateb y Llywodraeth  | 77 |
| Grwpiau cynrychioliadol   | 77 |
| Cyfrinachedd  | 77 |

# Rhagair



Rydym yn ymgymryd â'r rhaglen adeiladu carchardai fwyaf ers dros 100 mlynedd i ddiwallu'r angen wrth inni gyflwyno theolau dedfrydu mwy llym ac wrth i'r llysoedd glirio'r ôl-groniad a gododd yn sgil COVID-19.

Mae carchardai yn cadw pobl yn ddiogel drwy dynnu troseddwr peryglus oddi ar ein strydoedd, oni ni allant leihau troseddu a chadw'r cyhoedd yn fwy diogel yn y tymor hir oni bai eu bod yn diwygio ac yn adsefydlu troseddwr. Yn y Papur Gwyn hwn rydym yn cyflwyno ein strategaeth newydd i helpu carchardai i wneud y ddau beth yn fwy effeithiol.

Byddwn yn creu 20,000 o lefydd newydd mewn carchardai i amddiffyn y cyhoedd drwy gosbi a chaethiwo troseddwr. Bydd yr ystâd yn fwy modern a diogel, i gadw ein staff yn ddiogel ac i gynnig yr amgylchedd mwyaf cynhyrchiol i ddiwygio troseddwr.

Bydd cosbau effeithiol i garcharorion sy'n camymddwyn a dim goddefgarwch tuag at arfau, cyffuriau a nwyddau gwaharddedig i alluogi carchardai i gadw trefn, fel y bydd troseddwr yn gallu canolbwyntio ar weithgareddau buddiol.

Bydd Gwasanaeth Addysg Carcharorion yn gwneud yn siŵr bod troseddwr yn gwella eu llythrennedd a'u rhifedd sylfaenol, yn ogystal â chael rhagor o gymwysterau galwedigaethol, fel adeiladu a chyfrifiadura, i'w gwneud yn fwy cyflogadwy pan fyddant yn gadael carchar.

Byddwn yn trawsnewid gwaith mewn carchardai ac wrth Ryddhau ar Drwydded Dros Dro i wella rhagolygon troseddwr i gael gwaith. Byddwn yn dwyn Llywodraethwyr i gyfrif am y cyfleoedd a chanlyniadau cymryd rhan mewn gweithgarwch seiliedig ar waith maent yn ei greu i garcharorion.

Byddwn yn cyflwyno asesiadau cynharach a'r ystod lawn o driniaethau iechyd meddwl a chyffuriau, gan gynnwys dulliau seiliedig ar ymwrthod, i helpu mwy o garcharorion i roi sylw i'w caethiwed a rhwystrau clinigol eraill rhag adsefydlu.

Byddwn yn cyflwyno pasbortau ailsefydlu i ddwyn ynghyd yr hanfodion sydd eu hangen ar droseddwr i fyw bywyd heb droseddu ar ôl cael eu rhyddhau – manylion adnabod, CV, a chyfrif banc – mewn un lle i wneud yn siŵr eu bod yn hygyrch iddynt.

Er mwyn bwrw ymlaen â'r strategaeth uchelgeisiol hon, byddwn yn buddsoddi £200m y flwyddyn erbyn 2024-25 i drawsnewid ein hagwedd at adsefydlu, gan gynnwys gwella mynediad rhai sy'n gadael carchar at lety. Byddwn hefyd yn gosod disgwyliadau pendant

ar garchardai ac yn grymuso'r rhai sy'n perfformio orau i hybu arloesi ac i ledaenu arferion gorau.

Byddwn yn cyhoeddi dangosyddion perfformiad allweddol, targedau a chynghreiriau'n rheolaidd i wneud perfformiad carchardai yn fwy tryloyw, gan amlygu'r ffordd fwyaf effeithiol o adsefydlu carcharorion.

Bydd y Llywodraethwyr carchardai sy'n perfformio orau'n cael eu grymuso gan fwy o annibyniaeth i arloesi ar gyfer poblogaethau eu carchar, gan barhau i gael eu hasesu yn erbyn canlyniadau penodol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r llywodraeth.

Gwyddom na ellir cyflawni nodau'r strategaeth heb ein gweithlu ymroddedig, Felly, byddwn yn recriwtio 5,000 o swyddogion carchardai ychwanegol ac yn uwchsgilio ein staff presennol drwy wella hyfforddiant, goruchwyliaeth, a chymwysterau. Byddwn yn recriwtio'r genhedlaeth nesaf o lywodraethwyr drwy gynllun carlam HMPPS.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth a ddisgrifir yn y Papur Gwyn hwn, byddwn yn manteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf i wella perfformiad, ac i leihau'r baich biwrocraidd ar staff.

Mae'r Papur Gwyn yn disgrifio ein strategaeth ar gyfer carchardai am y ddwy flynedd nesaf, yn ogystal â'n gweledigaeth fwy tymor hir am y 10 mlynedd nesaf. Mae'n gwahodd sylwadau ar sut y gall y cynigion ostwng cyfraddau aildroseddu sydd mor gyndyn o ostwng, lleihau troseddu ac amddiffyn y cyhoedd rhag niwed.

Mae'n rhan o gynllun y llywodraeth i ailadeiladu'n well, yn gryfach ac yn decach.



**Y Gwir Anrhydeddus Dominic Raab AS**

Dirprwy Brif Weinidog, yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

## **Diben Carchardai**

1. Rhaid i'n carchardai a chyfundrefn y carchardai amddiffyn y cyhoedd: mae hyn yn golygu cadw carcharorion yn ddiogel pan fyddant yn gwasanaethu'r gosb a roddwyd iddynt gan y llysoedd, ac amharu ar weithgarwch troseddol o fewn muriau'r carchar. Mae'n hanfodol eu bod yn cynnal trefn a disgyblaeth, yn gweithio i atal dioddefwyr troseddau'r dyfodol drwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu, a hybu adsefydlu a diwygio i leihau aildroseddu.



2. Rydym wedi gwneud cynnydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ddiwygio ein carchardai, ond mae'r heriau a'r cyfleoedd mewn carchardai'n newid. Mae'r pandemig COVID wedi amharu mewn ffordd nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen ar y system carchardai; ac mae swyddogion carchardai ledled Cymru a Lloegr, rhai o arwyr cudd y system cyfiawnder, o dan arweiniad ein Llywodraethwyr gweithgar a medrus, wedi wynebu'r her i achub bywydau.
3. Gyda'r buddsoddiad y cytunwyd arno yn yr Adolygiad o Wariant i adeiladu llefydd mewn carchardai modern ac i ddiwygio troseddwyr, mae gennym gyfle i ailgodi'n gryfach ar ôl y pandemig, ac i greu system carchardai sy'n mynd ymhellach i chwarae ei rhan yng nghanhadaeth y Llywodraeth hon i drechu troseddu.
4. Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r hyn y byddwn yn ei gyflawni yn y ddwy flynedd nesaf yn ogystal â'n hamcanion strategol mwy tymor hir. Mae'n gwahodd sylwadau'r unigolion ymroddedig hynny sy'n gweithio yn y system cyfiawnder, a'n partneriaid mewn llawer o fudiadau elusennol sy'n gweithio dydd ar ôl dydd i gadw'r cyhoedd yn ddiogel ac i helpu carcharorion i gefnu ar droseddu. Mae gennym uchelgeisiau mawr ar gyfer y system carchardai. Rydym yn bwriadu dechrau gweddnewid ein dull gweithredu drwy:
  - Dylunio ac adeiladu'r lleoedd modern, diogel mewn carchardai sydd eu hangen arnom i gadw troseddwyr oddi ar y strydoedd a hefyd i greu'r amgylchedd mwyaf cynhyrchiol i ddiwygio carcharorion;
  - Sicrhau bod amgylchedd carchardai yn ddiogel, saff a sefydlog i'n swyddogion carchardai a charcharorion fel y gallwn ganolbwyntio'n briodol ar helpu pobl i gefnu ar droseddu;
  - Sicrhau bod trefn a disgyblaeth yn cael eu cynnal yn ein carchardai drwy gosbi effeithiol am gamymddwyn gan garcharorion, ac ymrwmo i ddull dim goddefgarwch tuag at gyffuriau mewn carchardai;
  - Lleihau troseddu drwy ddefnyddio'r amser mae carcharorion yn ei dreulio mewn carchar drwy wneud newidiadau sylfaenol mewn addysg, sgiliau sy'n canolbwyntio ar waith, hyfforddiant a chyflogaeth a ddarperir mewn carchardai, a chysylltiadau teuluol cryfach fel y bydd pob carcharor yn cael y cyfle gorau i gefnu ar eu bywyd blaenorol o droseddu;
  - Gweithio'n galetach i fynd i'r afael â cham-drin sylweddau a phroblemau iechyd meddwl sy'n rhwystr i ormod o garcharorion rhag adsefydlu a diwygio drwy ddefnyddio'r ystod lawn o driniaethau, gan gynnwys triniaethau sy'n seiliedig ar ymwrthod, i'w helpu i wella o'u dibyniaeth ar gyffuriau;
  - Pennu disgwyliadau pendant ar Lywodraethwyr drwy ddangosyddion perfformiad allweddol a thargedau tryloyw a mesuradwy; yn ogystal â chynyddu tryloywder drwy gyhoeddi data lefelau perfformiad carchardai;

- Rhoi annibyniaeth i Lywodraethwyr a gwella atebolrwydd alinio a thargedu ymyriadau adsefydlu'n well ar gyfer pob carcharor unigol, fel y byddant yn ymwybodol o'r cyfleoedd a'r disgwyliadau arnynt, a bod gan asiantaethau partner gyfrifoldebau pendant; a
  - Grymuso Llywodraethwyr i arloesi'n lleol, gan barhau i weithredu o fewn mesurau canlyniadau clir sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Llywodraeth.
5. Mae cyflawni'r uchelgeisiau hyn yn dibynnu ar ein pobl. Mae ein cynlluniau'n seiliedig ar rymuso Llywodraethwyr ein carchardai a'u staff i ddefnyddio eu sgiliau proffesiynol i wneud yr hyn sy'n gweithio, pennu targedau ac atebolrwydd pendant ar draws y system carchardai a pharhau ag ymdrechion i ddenu a chadw unigolion talentog.
6. Wrth gyflawni system carchardai effeithiol byddwn yn cael ein harwain gan ein gwerthoedd:
- Rydym yn trin carcharorion yn deg, yn ddiogel ac yn barchus pan fyddant yn gwasanaethu eu dedfrydau o garchar; cynnig y cyfle iddynt i wyrddroi eu bywydau a thrwy sicrhau bod carcharorion sy'n amharu ar drefn a disgyblaeth ein cyfundrefnau yn wynebu canlyniadau cyflym a phriodol;
  - Rydym yn cynorthwyo carcharorion i roi sylw i achosion eu hymddygiad, gan eu hannog i fanteisio ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael iddynt gan bwysleisio beth yw canlyniadau methiant i beidio â chymryd cyfrifoldeb am eu hadsefydludi-drosedd;
  - Rydym yn cynnig gyrfaoedd gwerth chweil i'n staff, yn eu trin â pharch, ac yn cynnig iddynt y cymorth sydd ei angen arnynt i wneud eu gwaith yn ddiogel ac effeithiol;
  - Rydym yn chwilio'n barhaus am arferion gorau a thystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i lywio popeth a wnawn.

## Codi'r Gwastad

7. Mae system garchardai effeithiol yn ganolog i genhadaeth y Llywodraeth i godi'r gwastad. Gwyddom fod gwahaniaethau daearyddol o ran lefelau aildroseddu ledled y wlad a bydd ailsefydlu effeithiol yn ein helpu yn ein gwaith i 'godi'r gwastad' ym mhob rhan o'r wlad drwy leihau aildroseddu. Rydym yn canolbwyntio ar ddefnyddio ymyriadau sy'n rhoi sylw i'r ffactorau y gwyddom sy'n gweithio: cael swydd, rhywle i fyw, a mynediad at ofal iechyd a thriniaethau i rai sy'n camddefnyddio sylweddau. Bydd llai o garcharorion yn dychwelyd i gymunedau ag anghenion tai a gofal iechyd heb eu diwallu, a bydd rhaglenni sgiliau o safon uchel mewn carchardai yn eu tro yn hybu economïau lleol.

## Yr Heriau sy'n ein Hwytnebu

8. Dylai carchardai fod yn fannau lle'r ydym yn diwygio troseddwr ac yn eu helpu i gefnu ar droseddu. Ond mae cyfraddau aildroseddu'n gyndyn o ostwng, ac mae hynny'n costio £18 biliwn y flwyddyn i gymdeithas.<sup>1</sup>
9. Yn sgil ein diwygiadau i ddedfrydu a recriwtio 20,000 o heddlu ychwanegol, rydym yn gwneud y newidiadau sydd eu hangen i amddiffyn y cyhoedd yn well. Mae angen rhagor o lefydd yn ein carchardai i gadw'r rhai hynny sy'n cael eu hanfon atom gan y llysoedd ac i amddiffyn y cyhoedd rhag troseddwr peryglus a mynych. Rydym yn dal i brofi pwysau o ran gofod, ac mae hynny'n amharu ar ein hamcanion. Bydd adeiladu rhagor o garchardai gwell yn ein galluogi i wneud mwy i wneud yr hanfodion yn iawn, i redeg cyfundrefnau mwy diogel a saff, a gwneud y gorau o'n cyfleusterau i ddysgu sgiliau.
10. Ni all carchardai adsefydlu carcharorion oni bai eu bod yn ddiogel, sefydlog a saff. Rydym yn cadw rhai o'r troseddwr cyfundrefnol mwyaf peryglus yn y wlad, sy'n wrthi'n barhaus yn ceisio tansellio ein mesurau diogelwch a chreu diwylliant o drais a braw yn ein carchardai, yn ogystal â pharhau i redeg eu busnesau troseddol o'r carchar. Rhaid inni leihau trais, mynd i'r afael â bwlio a chreu amodau gwaith mwy diogel i'n staff, i'w galluogi i ganolbwyntio ar waith adsefydlu ystyrllon.
11. Mae angen i'r seilwaith hwn ddiwallu anghenion poblogaeth carchardai wrth iddi gynyddu ac amrywio. Mae gan gyfran sylweddol o droseddwr sy'n cyrraedd y carchar anabledau a/neu anghenion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, a gwyddom fod gan nifer sylweddol o fenywod mewn carchar hanes o gam-drin domestig a thrawma.<sup>2</sup>
12. Mae gormod o garchardai heb seilwaith digidol sylfaenol o hyd, fel cysylltedd Wi-Fi a systemau data modern, ac oherwydd hynny maent yn dal i ddefnyddio prosesau henffasiwn sy'n dibynnu ar bapur. Mae hyn yn atal carchardai rhag gweithio'n effeithiol, a heb gael yr hanfodion hyn yn iawn, ni fyddwn yn gallu cyflwyno datblygiadau digidol yn y dyfodol. Gallwn wneud defnydd gwell o offer, data a thechnolegau digidol i helpu staff a charcharorion, yn ogystal â defnyddio'r datblygiadau mwyaf arloesol i wella ein perfformiad yn yr ystâd.
13. Mae angen inni wella gwasanaethau y tu allan i'r carchar, i helpu cyn-droseddwr a ryddhawyd o garchar i gefnu ar droseddu. Rydym wedi dechrau rhoi sylw i hyn gyda'n Model Gweithredu Targed ar gyfer Gwasanaethau Prawf, sy'n creu llwybr i garchardai a phrawf i weithio'n ddi-dor â'i gilydd fel un gwasanaeth. Ond mae angen inni fynd gam ymhellach drwy fabwysiadu dull traws-lywodraethol, gan gynnwys

---

<sup>1</sup> Economic and social costs of reoffending (publishing.service.gov.uk)

<sup>2</sup> Prison Reform Trust *Bromley Briefings Prison Factfile: Winter 2021* (2021)

gweithio ag asiantaethau partner ym maes gorfodi'r gyfraith a rhai a all helpu â llety, triniaethau, swyddi a sgiliau.

---

## **Ein Gweledigaeth 10 Mlynedd ar gyfer y System Carchardai**

14. Wrth inni wella ar ôl y pandemig, mae gennym gyfle gwerthfawr i fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r materion hyn ac i sicrhau newid sylfaenol yn y ffordd rydym yn amddiffyn y cyhoedd ac yn lleihau troseddau a gyflawnir gan rai sy'n gadael carchar. Bydd ein gweledigaeth dymor hir ar gyfer y system carchardai yn canolbwyntio ar:

### **Adeiladu'r genhedlaeth nesaf o garchardai**

15. Rydym am gael ystâd fwy cydnerth, gyda'r gallu i ateb gofynion y system cyflawnder troseddol yn yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, gyda phwyslais ar gadw carcharorion yn ddiogel a saff. Rydym eisoes yn gosod y sylfeini'r gwaith hwn drwy sicrhau 20,000 o lefydd ychwanegol mewn carchardai erbyn canol y 2020au. Bydd ein carchardai newydd yn barod at ddatblygiadau'r dyfodol, yn ateb y galw ac yn gynaliadwy.

### **Gwasanaethau carchardai a phrawf sy'n lleihau troseddu ac yn amddiffyn y cyhoedd**

16. Dylai carchardai a phrawf weithio'n ddi-dor â'i gilydd: i gryfhau goruchwyliaeth cyn-droseddwr yn y gymuned a'u monitro'n fwy manwl ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar i gadw'r cyhoedd yn ddiogel ac i atal dioddefwyr newydd yn y dyfodol; rhoi i'r rhai sy'n gadael carchar y sgiliau i gael gwaith ar ôl eu rhyddhau; darparu gweithgarwch ystyrlon i garcharorion fel addysg a'u paratoi ar gyfer cyflogaeth yn ystod eu caethiwed; a darparu cymorth ailsefydlu wedi'i dargedu cyn eu rhyddhau ac wrth i unigolion symud yn ôl i'r gymuned bydd ganddynt yr hanfodion i'w galluogi i gefnu ar droseddu.

### **Ystâd carchardai sy'n ddiogel a saff i staff a charcharorion**

17. Byddwn yn gwneud carchardai yn ddiogel, yn addas i'r diben ac yn saff i garcharorion, staff a'r gymuned ehangach; drwy ein buddsoddiad diweddar o £100 miliwn yn ein Rhaglen Buddsoddiad mewn Diogelwch bwysig byddwn yn parhau i weithredu dull dim goddefgarwch tuag at lif cyffuriau a nwyddau gwaharddedig eraill i garchardai a sicrhau na fydd carcharorion yn gallu parhau â gweithgarwch troseddol pan fyddant yn y carchar; ac rydym am newid sut mae staff, yr amgylchedd adeiledig a chyfundrefn y gweithgarwch dyddiol yn gweithio â'i gilydd i sicrhau'r amodau cywir i atal problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, fel na fydd diogelwch yn rhwystr rhag cael amgylchedd sefydlog ac i adsefydlu carcharorion yn y carchar.

18. Byddwn yn cyflwyno bwrdd perfformiad carchardai gweinidogol newydd a fydd yn dwyn y system a llywodraethwyr i gyfrif am sicrhau bod carcharorion a staff yn ddiogel.

## **Sicrhau Sylfeini ar gyfer y Dyfodol**

19. Bydd y ddwy flynedd nesaf yn allweddol i gyflawni'r weledigaeth dymor hir hon. Yn ystod y tymor Seneddol hwn, byddwn yn cyflawni:

### **Camau nesaf ein llwybr i adeiladu carchardai:**

- Parhau â'r rhaglen i greu 18,000 o leoedd mewn carchardai sydd eisoes ar waith, yn ogystal â hyd at 2,000 o leoedd dros dro mewn carchardai, sy'n cyfrif am fuddsoddiad o bron i £4 biliwn;
- Carchardai newydd sydd wedi'u dylunio i fod yn ddiogel, saff a sefydlog ac sy'n fwy addas ar gyfer ein poblogaeth amrywiol;
- Cynydd yn awr i osod y sylfeini ar gyfer rhaglen adeiladu uchelgeisiol yn y dyfodol;
- Uwchraddio safonau diogelwch 35,000 o gelloedd;
- Cynyddu ein defnyddio o ddigidol, data a thechnoleg i greu amgylchedd gweithio mwy effeithlon i staff, a grymuso carcharorion i gymryd cyfrifoldeb personol yn ystod eu hamser mewn caethiwed gan gynnwys defnydd o dechnoleg ddiogel a saff mewn celloedd;
- Gwasanaeth wedi'i deilwra sy'n ymateb i drawma ar gyfer menywod mewn carchardai, gan gynnwys cymorth penodol i garcharorion beichiog.

### **Sicrhau bod gennym y bobl gywir gyda'r cymorth a'r hyfforddiant sydd ei angen arnynt i weithio'n ddiogel ac effeithiol drwy:**

- Lansio rhaglen recriwtio fawr i gael hyd at 5,000 o swyddogion carchar ychwanegol mewn carchardai cyhoeddus a phreifat erbyn canol y 2020au, a chyflwyno fframwaith cadw staff;
- Gwella sgiliau proffesiynol drwy hyfforddiant, goruchwyliaeth a chymwysterau gwell, a chynllun carlam traws-HMPPS newydd.

### **Helpu carcharorion i myndroi eu bywydau a byw bywydau di-drosedd ar ôl eu rhyddhau:**

- Eu helpu i drin eu dibyniaeth ar gyffuriau fel y gallant ganolbwyntio ar wella eu sgiliau, eu rhagolygon cyflogaeth a'u cysylltiadau teuluol;
- Darparu Gwasanaeth Addysg Carcharorion gwell, sy'n rhoi i garcharorion sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol, a gwella eu sgiliau i gael gwaith pan gânt eu rhyddhau;

- Creu rhagdybiaeth o blaid galluogi carcharorion priodol ac wedi'u fetio; a throseddwyr a ryddhawyd ar drwydded, i fanteisio ar gyfleoedd gwaith o fewn a thu allan i ystâd y carchar, yn ddibynnol ar eu cam o'u dedfryd;
- Cyflwyno Pasbortau Ailsefydlu newydd, sy'n dwyn ynghyd yr hanfodion sydd eu hangen mewn un lle ar rai sy'n gadael carchar i fyw bywydau di-drosedd ar ôl eu rhyddhau;
- Cynyddu rolau arbenigol a brofwyd yn ein prosiect Carchardai Carlam i helpu gwaith i leihau aildroseddu;
- Buddsoddi £200 miliwn y flwyddyn 2024-25 i wella mynediad at lety i rai sy'n gadael carchar, cymorth cyflogaeth a thriniaeth i gamddefnyddwyr sylweddau, a chyflwyno rhagor o fesurau ar gyfer ymyriadau cynnar i fynd i'r afael â throeddau ieuenctid;
- Cefnogi ein gwaith mewn carchardai gyda £155 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth prawf unedig newydd, i helpu i adsefydlu a gwella diogelwch y cyhoedd, cynnydd o 15% ar gyllid 2019-20, a buddsoddi £75 miliwn y flwyddyn erbyn 24/25 i ehangu'r defnydd o dagio electronig i fonitro ymwrthod ag alcohol sy'n defnyddio GPS i helpu troseddwyd i beidio yfed alcohol.

### **Gwell diogelwch drwy:**

- Buddsoddi mewn celloedd lle na ellir defnyddio rhwymau i warchod carcharorion agored i niwed ar adegau o argyfyngau aciwt;
- Sefydlu tasglu arloesi, i ystyried yr ymyriadau gorau ar gyfer carcharorion sy'n dreisgar neu sy'n hunan niweidio;
- Darparu Camerâu Fideo a Wisgir ar y Corff i'r holl staff sydd eu hangen.

### **Gwella ymddygiad, trefn a disgyblaeth:**

- Cyflwyno dyfarniadau llwybr cyflym a fydd yn rhoi blaenoriaeth i gosbau cyflym am dorri rheolau lefel isel;
- Adeiladu ar y cytundeb atgyfeirio Troseddau mewn Carchardai i sicrhau bod troseddau difrifol yn arwain at erlyniadau;
- Parhau â'n hymrwymiad i greu diwylliant o ddim goddefgarwch tuag at gyffuriau, arfau a nwyddau gwaharddedig;
- Ymwreiddio ein polisi cymhellion a rhoi annibyniaeth i Lywodraethwyr i ddatblygu cynlluniau gwobrwyo a fydd yn hybu trefn a disgyblaeth well.

### **Cyfundrefnau, rhyddid ac atebolrwydd diwygiedig:**

- Cynllun dwy flynedd uchelgeisiol i ailadeiladu cyfundrefnau carchardai, a fydd yn cynorthwyo ac yn grymuso Llywodraethwyr i ddatblygu eu cyfundrefn i gyd-fynd â gwahanol anghenion y carcharorion yn eu gofal;
  - Rhoi mwy o annibyniaeth Llywodraethu i'n harweinyddion mwyaf disglair;
  - Ystadegau clir, cyhoeddus a thryloyw ar berfformiad carchardai gyda Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) yn cael eu cyhoeddi ar gyfer carchardai, a thablau cynghrair priodol, gan sicrhau bod llwyddiant yn cael ei fesur yn erbyn ein blaenoriaethau: diogelwch a sefydlogrwydd; camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl, ac adsefydlu a chysylltiadau teuluol.
20. Rydym yn gwahodd sylwadau gan ein partneriaid a'n rhanddeiliaid ar y ffordd orau i weithredu a ffurfio rhai o'n prif gynigion, ac rydym wedi gofyn cwestiynau yn y papur hwn a gwahoddir ymatebion iddynt. Anfonwch eich ymatebion i [prisonswhitepaper@justice.gov.uk](mailto:prisonswhitepaper@justice.gov.uk) erbyn 4 Chwefror 2022.

# Pennod Un – Llwybr i Adeiladu Ystâd Carchardai'r Dyfodol

Byddwn yn adeiladu'r genhedlaeth nesaf o garchardai sydd wedi'u dylunio er mwyn diogelwch, sicrwydd, sefydlogrwydd ac adsefydlu.

Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn:

- Parhau â'n cynllun i greu 18,000 o lefydd ychwanegol mewn carchardai modern erbyn canol y 2020au a chreu hyd at 2,000 o lefydd dros dro newydd;
- Dechrau gosod sylfeini ar gyfer y genhedlaeth nesaf o garchardai;
- Uwchraddio 35,000 o gelloedd i gyrraedd safonau tân modern;
- Uwchraddio digidol mewn 11 o garchardai eraill.

Yn ystod y 10 mlynedd nesaf a thu hwnt, rydym yn bwriadu parhau i adeiladu ystâd fodern, weddus ac effeithlon: adeiladu lleoedd ychwanegol mewn carchardai i gwblhau ein hymrwymiad i 18,000 o lefydd parhaol; sicrhau carchardai newydd a modern sy'n ddiogel, sefydlog a gwella canlyniadau i garcharorion a staff; a hwyluso gwaith adnewyddu ac adfer wedi'i dargedu.

21. Sicrhau bod gennym ddigon o lefydd defnyddiadwy mewn carchardai sy'n hanfodol i gyflawni ein dyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd: mae'r gallu i gadw'r sawl a anfonir i garchar fel cosb gan y llysoedd yn ddiogel yn golygu bod troseddwyr yn cael eu cymryd oddi ar y strydoedd, ac na fyddant yn gallu parhau i droseddu yn eu cymunedau lleol.
22. Cafodd rhannau helaeth o'n hystâd ei hadeiladu ar adeg pan nad oedd llawer o'r heriau sy'n ein hwynebu heddiw yn bod. Mae chwarter ein carchardai yn dyddio o oes Victoria, gyda rhai wedi'u hadeiladu dros 200 mlynedd yn ôl. Mae'r bygythiadau i ddiogelwch yn wahanol iawn erbyn hyn gyda Throseddau Difrifol a Chyfundrefnol (SOC) yn risg wirioneddol i'r DU ac mae troseddu gan y grwpiau hyn yn costio oddeutu £37 biliwn y flwyddyn.<sup>3</sup> Mae'r grwpiau hyn yn ymdrechu'n barhaus i danseilio ein mesurau diogelwch, yn ceisio parhau â'u gweithgarwch troseddol o'r carchar ac o dan oruchwyliaeth yn ein cymunedau, ac ar adegau maent yn ehangu eu rhwydweithiau a'u galluoedd drwy recriwtio eraill i gyflawni gweithredoedd troseddol ar eu rhan.
23. Rydym am adeiladu ar lwyddiannau buddsoddiad y Llywodraeth o £100 miliwn yn Rhaglen Buddsoddiad Diogelwch y carchardai, sydd wedi gweld 74 o sganwyr corff

<sup>3</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus *Serious and Organised Crime* (2019)



pelydr-x yn cael eu cyflwyno ar draws yr holl ystâd gaeedig dynion ac sydd wedi arwain at fwy na 10,000 o sganiau positif, ac atal eitemau sydd wedi'u gosod yn y corff fel ffonau a chyffuriau rhag cyrraedd carchardai; a Diogelwch Uwch y Giatiau, sy'n debyg i gyfarpar sgrinio meysydd awyr, sydd wedi arwain at osod pyrth canfod metelau, cŵn canfod cyffuriau a thechnolegau eraill.

24. Ar hyn o bryd, mae llawer o garcharorion ag anableddau a phroblemau symudedd yn cael eu cadw mewn amodau sy'n golygu na allant gyfranogi'n llawn yn nhrefn ddyddiol y carchar na manteisio ar waith adsefydlu a fydd yn lleihau'r perygl o aildroseddu, gan nad oes digon o lefydd ar gael sy'n ateb eu gofynion. Mae ein hystâd hefyd yn wynebu heriau na allai dylunwyr carchardai'r gorffennol fod wedi'u rhagweld, fel yr angen am dechnoleg fodern, cysylltedd rhyngrwyd, cynaliadwyedd amgylcheddol a'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd.
25. Er mwyn amddiffyn y cyhoedd, rhaid inni roi sylw i'r materion hyn a datblygu ystâd y carchardai i helpu i wneud carchardai'n llefydd sy'n lleihau troseddu ond, i wneud hyn rhaid inni ddechrau drwy sicrhau ein bod yn cael llefydd mewn carchardai yn y manau cywir i ateb gofynion y system cyfiawnder troseddol.

## Adeiladu'r Genhedlaeth Nesaf o Garchardai

26. Rhaid inni sicrhau bod digon o ofod mewn carchardai i gadw troseddwr a gafwyd yn euog oddi ar ein strydoedd ond hefyd i adsefydlu'r rhai hynny sydd am wyrdroi eu bywydau. **Rydym eisoes wedi dechrau gosod y sylfeini i wneud hyn ac rydym wedi ymrwymo £3.5 biliwn am y tair blynedd nesaf i greu 18,000 o leoedd ychwanegol mewn carchardai modern, gyda £250 miliwn arall i ariannu 2,000 o leoedd dros dro newydd.** Dyma'r rhaglen adeiladu carchardai fwyaf uchelgeisiol mewn dros ganrif, ac mae'r cynnydd hyd yma fel a ganlyn:

- Erbyn diwedd 2021, byddwn wedi creu tua 1,000 o lefydd ychwanegol mewn carchardai drwy gyfuniad o adnewyddu, creu llety dros dro a throi Canolfan Waredu Mewnfydwyr Morton Hall yn ôl yn garchar;
- Mae'r gwaith adeiladu wedi'i gwblhau yn HMP Five Wells, carchar Categori C newydd ar gyfer 1,700 o garcharorion yn Swydd Northampton, a fydd yn agor yn gynnar yn 2022;
- Mae'r gwaith adeiladu'n mynd yn ei flaen yn HMP Glen Parva, Swydd Gaerlŷr, lle byddwn yn agor carchar Categori C arall ar gyfer tua 1,700 o garcharorion yng Ngwanwyn 2023;
- Ym mis Mehefin 2021, penodwyd pedwar cwmni adeiladu i godi'r pedwar carchar newydd nesaf, gan ddechrau gyda safle yn Full Sutton ger Efrog;

- Cafodd y carchardai newydd hyn eu dylunio gyda seilwaith a fydd yn caniatáu technoleg ddigidol yn y celloedd, fel y gall carcharorion fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant.
27. Mae gan y sector preifat rôl bwysig i'w chwarae yn nyfodol yr ystâd carchardai ac i adeiladu carchardai'r genhedlaeth nesaf. Rydym yn credu mewn mabwysiadu ymagwedd gytbwys sy'n cynnwys cymysgedd o'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat. Gwelwyd fod hyn yn gweithio, gan ddarparu gwasanaethau rhagorol i'r cyhoedd a gwerth am arian i drethdalwyr.

## Sicrhau bod Carchardai'n cael eu Dylunio i Hybu Adsefydlu a Lleihau Troseddu

28. Wrth inni ehangu'r ystâd, ac adeiladu chwe charchar newydd yn ystod y pum mlynedd nesaf, rydym wedi manteisio ar y cyfle i foderneiddio sut mae carchardai'n edrych ac yn teimlo, gwella ein seilwaith diogelwch a gwneud yn siŵr bod lleihau troseddu'n ganolog i ddyluniad carchardai newydd. Rydym wedi cychwyn eisoes ar y broses hon yn eich carchardai newydd HMP Five Wells a Glen Parva.
29. Byddwn yn defnyddio'r cyfoeth o dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i sicrhau ein bod yn dylunio ac adeiladu carchardai modern sy'n diwallu anghenion ein poblogaeth charchar amrywiol, sydd wedi'u galluogi'n ddigidol ac sy'n fwy cynaliadwy'n amgylcheddol – rhoi adnoddau ychwanegol i arweinyddion carchardai i wella perfformiad. Yn ymarferol mae hyn yn golygu adeiladu carchardai wedi'u dylunio'n ofalus sydd:
- **Yn cynnwys diogelwch fel egwyddorion sylfaenol i atgyfnerthu ein dull dim goddefgarwch tuag at gyffuriau, arfau a deunyddiau gwaharddedig eraill:** mae pob charchar newydd yn cynnwys mesurau diogelwch sy'n gwneud lleihau troseddu'n safonol. Bydd hyn yn cynnwys Diogelwch Uwch y Giatiau, Sganwyr Cyrff pelydr-x a system fiometreg i adnabod ymwelwyr;
  - **Wedi'u dylunio i hwyluso addysg a chyflogaeth, adsefydlu, gofal iechyd a gweithgarwch buddiol** drwy: greu gofod ar gyfer addysg a datblygu sgiliau un i un ac mewn grwpiau; cynnal gweithdai ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth; cael TG mewn celloedd i hwyluso mynediad at adnoddau, canolfannau ymwelwyr croesawgar ar gyfer teuluoedd, cymorth gan gymheiriaid a gweithgarwch therapiwtig, sy'n cynnwys rhoi sylw i gamdefnyddio sylweddau; a chynnwys gofod cymdeithasu a manau tawel, ynghyd â gofod digonol ar gyfer gwaith;
  - **Cynnwys cyfleusterau hygyrch ar gyfer ein poblogaeth sy'n tyfu o** garcharorion hŷn neu rai ag anghenion iechyd penodol sy'n effeithio ar eu gallu i gymryd rhan yn y gyfundrefn o ddydd i ddydd – er enghraifft, bydd hygyrchedd yn

egwyddor arweiniol ym mhob carchar newydd sy'n cael ei adeiladu, gyda 7% o'r holl gelloedd â mynediad i gadeiriau olwyn;

- **Defnyddio nodweddion dylunio i helpu carcharorion** sydd â chyflyrau fel anableddau dysgu, awtistiaeth ac ADHD neu anaf a gafwyd i'r ymennydd<sup>4,5</sup> er mwyn ein galluogi i ddiwallu anghenion y carcharorion hyn yn well wrth ystyried dyluniadau ar gyfer y dyfodol;
- **Yn fwy cynaliadwy** – bydd yr holl garchardai a adeiladir gennym yn y dyfodol yn ddi-garbon o'r cychwyn cyntaf.

30. Fel adran, rydym yn sicrhau bod ein cadwynau cyflenwi'n dod â buddsoddiad a chyfleoedd i bob rhan o'r wlad. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r ail adran fwyaf yn Whitehall o ran seilwaith yn ôl cyfanswm costau oes gyfan, gyda'n rhaglen adeiladu carchardai yn werth tua £67 biliwn mewn termau enwol. Gydag oddeutu 70% o'r adeiladu'n cael ei wneud oddi ar y safle, mae'r gadwyn gyflenwi wedi'i gwasgaru ar draws Gogledd a Chanolbarth Lloegr, sy'n golygu ein bod yn buddsoddi'n uniongyrchol mewn cymunedau lleol ar draws rhanbarthau'n genedlaethol.

## Gwella Ystâd Bresennol ein Carchardai

31. Ochr yn ochr â chreu llefydd newydd mewn carchardai, rhaid inni hefyd edrych o'r newydd ar anghenion yr ystâd bresennol, yn enwedig sut y gallwn wella'r seilwaith, y safonau a'r amodau presennol i leihau troseddu.

### Cynnal a chadw ac adnewyddu

32. Rhaid inni ddechrau drwy wneud yr hanfodion yn gywir: mae cynnal a chadw carchardai'n briodol yn hanfodol i atal celloedd rhag cael eu tynnu o ddefnydd, darparu amgylcheddau glân a derbyniol i garcharorion a staff, a sicrhau iechyd a diogelwch. Mae hyn yn cynnwys popeth o archwilio'r ystâd o ddydd i ddydd a gwneud mân waith trwsio, i atgyweirio ac adnewyddu ar raddfa fawr.
33. Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, **byddwn felly'n rhoi blaenoriaeth gwariant cynnal a chadw i brosiectau sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau tân ar gyfer tua 35,000 o lefydd, sy'n cyfrif am dros draean o'r ystâd carchardai. Byddwn hefyd yn dechrau gweithio ar strategaeth newydd ar gynnal ac adnewyddu'r ystâd carchardai.** Ar ôl ei chwblhau, bydd y strategaeth yn dwyn ynghyd mewn un man drosolwg manwl o anghenion yr ystâd ac effeithiau cysylltiedig tanfuddsoddi.

---

<sup>4</sup> Chan *Neurodivergent Themed Neighbourhoods as A Strategy to Enhance the Liveability of Cities: The Blueprint of an Autism Village, Its Benefits to Neurotypical Environments* Urban Science 2(2) (2018)

<sup>5</sup> Waller & Masterson *Designing dementia-friendly hospital environments* Future Hospital Journal 2(1) (2015)

## Hygyrchedd

Ni allwn ddibynnu'n gyfan gwbl ar garchardai newydd i gyflawni ein her hygyrchedd a'n nod tymor hir yw cael digon o lety hygyrch ar gyfer pob carcharor anabl.

### **Byddwn felly'n cynnal archwiliadau hygyrchedd o'r ystâd carchardai i ddeall yn well lle gellir gwneud gwaith ôl-osod yn fwyaf effeithiol.**

34. Mae tua hanner poblogaethau'r carchardai wedi dioddef anaf trawmatig i'r ymennydd, mae gan 36% o garcharorion gwrywaidd anabled neu her dysgu (39% yn achos menywod), ac amcangyfrifir fod gan tua 16% 'nodweddion' awtistig. Mae'r adolygiad diweddar o dystiolaeth 'Neurodiversity in the Criminal Justice System'<sup>6</sup> a gynhaliwyd gan y cyd-arolygiaethau cyfiawnder troseddol yn gwella ein dealltwriaeth o sut y gall yr ystâd helpu pobl ag anabledau dysgu, awtistiaeth, ADHD neu gyflyrau eraill. Byddwn yn defnyddio hyn ac arferion da o garchardai y dyfarnwyd Achrediad Awtistiaeth iddynt gan y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth i lywio sut yr ydym yn addasu amgylchedd carchardai i ymateb yn well i anghenion pobl ag awtistiaeth a byddwn yn parhau i annog mwy o garchardai i ddilyn y broses achredu.

### **Helpu gyda phroses bontio ddiogel a sefydlog i ddynion ifanc sy'n symud i'r ystâd oedolion**

36. Mae dynion ifanc (18–25) yn aml ymhlith y rhai mwyaf treisgar a thrafferthus yn yr ystâd,<sup>7</sup> a gwyddom fod ganddynt fel grŵp rai o anghenion mwyaf cymhleth a heriol ein poblogaeth. Gall y pontio o'r ystâd ieuencid i'r ystâd oedolion fod yn arbennig o anodd,<sup>8</sup> ac **rydym am hyn o bryd yn treialu uned bontio oedolion ifanc yn HMP Deerbolt**. Mae'r uned hon yn defnyddio dull pwrpasol i reoli a chefnogi anghenion cymhleth dynion ifanc a byddwn yn cofnodi'r hyn a ddysgir drwy'r peilot hwn, gyda'r bwriad o gyflwyno unedau tebyg ar draws yr ystâd os bydd y canlyniadau'n bositif.

### **Arloesi digidol**

37. Yn ogystal â moderneiddio ystâd ffisegol ein carchardai, rhaid inni hefyd wella ein defnyddi o ddigidol, data a thechnoleg drwy foderneiddio'r seilwaith technegol mewn carchardai a thrawsnewid ein systemau etifeddol. Gall technoleg fod yn drawsnewidiol i garcharorion: mae gliniaduron mewn celloedd a chabanau'n galluogi carcharorion i astudio ar gyfer cymwysterau a dysgu sgiliau, cwblhau gwasanaethau trafodiadau ar-lein gan gynnwys gweld bwydlenni ac archebu bwyd, gwirio credyd pin-ffôn a faint o arian sydd yn eu cyfrif, a defnyddio gwasanaethau e-bost ar gyfer carcharorion.

---

<sup>6</sup> *Neurodiversity in the criminal justice system: a review of evidence* (justiceinspectorates.gov.uk) (2021)

<sup>7</sup> HMIP *Outcomes for young adults in custody: A thematic review* (2021) <sup>8</sup>

ibid

38. Gall data a thechnoleg well mewn celloedd fod yn effeithiol i gynnal cysylltiadau teuluol, a chreu amgylchedd diogel a saff i fyw a gweithio ynddo. Mae hyn yn lleihau'r baich gweinyddol ar ein staff prysur, gan eu rhyddhau i dreulio amser mwy buddiol gyda'r carcharorion a hefyd rhoi mwy o ymdeimlad o annibyniaeth dros eu materion eu hunain i garcharorion.
39. Dim ond pedwar carchar i oedolion (gan gynnwys un carchar sy'n cael ei reoli'n breifat) ac un Sefydliad Troseddau Ieuenctid (YOI) yng Nghymru a Lloegr sydd â defnydd o dechnoleg mewn celloedd, gyda'r seilwaith priodol ar gael ar gyfer gwasanaethau digidol ar gyfer staff a charcharorion. **Byddwn yn ehangu hyn i 11 carchar arall erbyn Haf 2022 gan gynnwys Sefydliadau Troseddau Ieuenctid a dau garchar Menywod.**
40. Rhaid inni ddefnyddio digidol a thechnoleg i drawsnewid sut mae pobl yn byw ac yn gweithio mewn carchardai gan sicrhau bod unrhyw wasanaeth digidol neu dechnoleg a gyflwynir gennym yn gwbl ddiogel a saff i'w defnyddio. Mae hyn yn golygu y bydd gan bob technoleg, gan gynnwys gliniaduron mewn celloedd fesurau diogelwch ar waith a'u bod yn addas ar gyfer ystâd ddiogel i sicrhau mai dim ond fel y'u bwriadwyd y gellir eu defnyddio.

## Ein Gweledigaeth Dymor Hir ar gyfer Ystâd Carchardai'r Dyfodol

41. Bydd ein rhaglen gyfredol i sicrhau 20,000 o lefydd mewn carchardai yn helpu i ateb y galw yn y tymor canolig, i alluogi cosbi a chaethiwo troseddwr mynych a pheryglus, a gosod y cywair ar gyfer diwygio ein hystâd carchardai am y tymor hwy. Yn ystod y deng mlynedd nesaf, rydym am greu ystâd fwy modern sy'n hybu ac yn hwyluso ein chwe blaenoriaeth strategol dymor hir:
  - **Dim lle i gyffuriau, arfau, nac eitemau anghyfreithlon ar yr ystâd:** bydd ein carchardai newydd yn manteisio ar ddatblygiadau technolegol a'r mesurau diogelwch diweddaraf gan gynnwys Diogelwch Uwch y Giatiau, sganwyr corff pelydr-x a chyfarpar canfod olion cyffuriau i atal cyffuriau ac eitemau anghyfreithlon rhag dod i mewn, a defnyddio trefniadau i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd ar unwaith;
  - **Ailadeiladu bywydau heb gyffuriau:** byddwn yn defnyddio'r amgylcheddau a'r cyfleusterau i helpu rhai â phroblemau camddefnyddio sylweddau i wella o'u caethiwed ac i'w helpu i ymwrthod llwyr;
  - **Cynlluniau wedi'u dylunio ar gyfer:**
    - **Llythrennedd a rhifedd,** fel y bydd carcharorion yn gadael gyda'r hanfodion sydd eu hangen arnynt;

- **Sgiliau**, i roi i bobl y sylfeini pellach a'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwaith, gan gynnwys ar gyfer yr oes ddigidol;
- **Cyflogaeth**, i roi pwrpas a chyfleoedd mewn bywyd ar ôl eu rhyddhau, agor yr ystâd i gyflogwyr a chwilio am gyfleoedd y tu allan i furiau'r carchar;
- **Pasbortau i ailsefydlu**: yr amgylchedd adeiledig, y gyfundrefn, a'r personél i gyd yn gweithio i helpu i baratoi carcharorion i adael amgylchedd y carchar i lety newydd, a pharatoi am fywyd ar ôl eu rhyddhau a symud yn ôl i gymunedau.

42. I gyflawni'r weledigaeth hon, mae gennym gynllun uchelgeisiol am y degawd nesaf a thu hwnt ar gyfer dyfodol ystâd y carchar:

- Rydym eisoes wedi meithrin cysylltiadau â diwydiant ac rydym yn arweinwyr rhyngwladol mewn Dulliau Adeiladu Modern. **Byddwn yn mireinio dyluniadau ein carchardai fel y gellir adeiladu'r genhedlaeth nesaf o garchardai'n gyflym, gyda chostau oes gyfan is.**
- I atal y llif o gyffuriau, arfau ac eitemau anghyfreithlon i'r ystâd, **byddwn yn parhau â'n rhaglen gynnal a chadw ac adnewyddu, ochr yn ochr â charchardai newydd, i sicrhau newid sylfaenol yn safonau cyffredinol yr ystâd.**
- I gyflawni ein nodau ar sgiliau a chyflogaeth, **rydym am i'r ystâd fod wedi'i galluogi'n ddigidol ar gyfer carcharorion a staff, yn ddiodyn**, ac i staff gael eu helpu i wneud eu gwaith yn ddidrafferth, yn effeithlon ac yn ddefnyddiol – drwy gael gwared ar rwystrau biwrocraidd a galluogi swyddogion i dreulio mwy o amser yn gweithio â charcharorion ar yr hyn sy'n bwysig.
- **Rhaid inni hefyd drawsnewid hen systemau data, fel NOMIS** (Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr), ein cronfa ddata weithredol a ddefnyddir mewn carchardai i reoli carcharorion. Bydd hyn yn ein galluogi i gydlynu a gwella ein data ar draws systemau ac asiantaethau i helpu i hwyluso gweithio mewn partneriaeth yn fwy effeithiol a chael dull system gyfan. Mae hyn hefyd yn allweddol i redeg ein carchardai'n fwy effeithiol ac effeithlon. **Bydd yn golygu bod staff yn gallu gweld y data cywir ar yr adeg gywir ac yn y fformat cywir fel y gallant wneud penderfyniadau gwell ar sail gwybodaeth ynglŷn â diogelwch a chynllunio cyfundrefn y carchar.**
- **Ein nod mwy tymor yw cynyddu ein cydnerthedd yn y system.** I wneud hyn, bydd angen dilyniant mewn llety y tu hwnt i'n rhaglen adeiladu gyfredol, a bydd gwaith paratoadol yn dechrau (er enghraifft, chwilio am safleoedd, cael caniatâd cynllunio a gwaith dylunio) i fod yn barod ar gyfer ehangu yn y dyfodol. Byddai rhaglen adeiladu carchardai yn y dyfodol yn golygu nifer o fuddiannau: mae dilyniant hwy'n golygu y gallwn fanteisio ar ddarvoudion maint, gyda'r potensial i arbed 5-10 y cant; **gallwn osgoi colli rhagor o gapasiti a gwneud gwaith adfer**

**ac adnewyddu ar raddfa fawr mewn carchardai presennol lle gallwn sicrhau seilwaith modern sy'n cyrraedd safon debyg i garchardai newydd.**

- Rhaid i ystâd carchardai modern, sy'n ateb y gofynion hefyd leihau effeithiau ar yr amgylchedd, lleihau costau gweithredu a sicrhau gwerth am arian. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwmo i gefnogi ymrwymiadau dim carbon y DU, ac i baratoi i addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd.

#### **Cwestiwn o'r Ymgynghoriad:**

1. A ydych chi'n cytuno mai dyma'r uchelgeisiau tymor hir priodol ar gyfer yr ystâd carchardai?

## **Pennod Dau – Mynd i'r Afael â Thrais, Atal Niwed a Hybu Trefn a Disgyblaeth**

Nid oes lle i ymddygiad treisgar mewn carchardai, a ddylai fod yn fannau diogel, trefnus a gweddus i garcharorion ac i staff. Dylai carchardai fod yn sefydlog, ennyn gobaith a chreu cyfleoedd i garcharorion i wyrdroi eu bywydau, gyda chyfundrefn sy'n sicrhau bod amser yn cael ei dreulio'n fuddiol. A, phan fydd diogelwch yn cael ei danseilio, rhaid delio â hyn yn gyflym ac yn effeithiol. Yn ystod ddwy flynedd nesaf, byddwn yn:

- Gwneud cynnydd pwysig yn erbyn cynlluniau i gael 290 o gelloedd lle na ellir defnyddio rhwymau i amddiffyn carcharorion bregus yn ystod cyfnodau o argyfwng aciwt;
- Cyflwyno Gwasanaeth Cymorth Uwch, sy'n cynnig help i unigolion gan swyddog carchar, nyrs iechyd meddwl a seicolegydd, mewn carchardai lle mae trais ar ei waethaf;
- Drwy dasglu arloesi, ystyried yr ymyriadau gorau ar gyfer carcharorion treisgar neu rai sy'n hunan niweidio;
- Darparu Camerâu Fideo a Wisgir ar y Corff i'r holl staff sydd eu hangen;
- Treialu technoleg sydd â'r potensial i fonitro iechyd carcharorion agored i niwed ar adegau o argyfwng, ategu'r gofal a roddir gan swyddogion carchar i atal hunanladdiad a hunan-niweidio.

Yn ystod y 10 mlynedd nesaf, a thu hwnt, rydym yn bwriadu:

- Sicrhau bod carchardai mor ddiogel a gweddus â phosibl ar gyfer carcharorion a staff, gan ddefnyddio canfyddiadau astudiaethau a chynlluniau peilot i roi sylw i broblemau a datblygu ein sylfaen dystiolaeth;
- Cryfhau ein perthnasoedd traws-lywodraethol i fynd i'r afael â throseddu mewn carchardai;
- Datblygu dull cydlynus tuag at ddiogelwch ar gyfer yr holl system carchardai sy'n cynnig gobaith, rhoi cymorth, ac sy'n atal niwed: rydym am foderneiddio technoleg fel y bydd gan staff well dealltwriaeth o anghenion carcharorion; a datblygu hyfforddiant seicolegol ar gyfer staff a hyfforddiant mewn cymorth gan gymheiriaid i garcharorion.

43. Mae achosion trais a hunan niweidio mewn carchardai'n gymhleth, ac maent yn deillio o amgylchedd y carchar a ffactorau unigol y mae carcharorion yn dod gyda hwy i'r carchar (fel camddefnyddio sylweddau neu anghenion iechyd meddwl). I gael carchardai mwy diogel, nid yn unig y bydd yn rhaid inni roi sylw i agweddau sefyllfaol ac amgylcheddol amgylchedd y carchar sydd o fewn ein rheolaeth, ond rhaid inni hefyd gymryd ymagwedd ragweithiol i roi sylw i'r anghenion unigol sy'n rhoi rhai carcharorion mewn mwy o berygl o drais hunan-niweidio neu hunanladdiad.
44. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld gwelliant o ran diogelwch, ac mae cyfradd y marwolaethau a achoswyd drwy hunanladdiad wedi gostwng ers yr uchafbwynt yn y flwyddyn hyd fis Mawrth 2017.<sup>8</sup> Mae cyfradd yr ymosodiadau hefyd wedi gostwng ers yr uchafbwynt yn y flwyddyn hyd fis Mawrth 2019. Fodd bynnag, gwelwyd llai o welliant yn achos hunan-niweidio, gyda'r gyfradd yn gostwng yn yr ystâd wrywaidd yn unig yn y flwyddyn hyd fis Mawrth 2021 (wedi'i effeithio o bosibl gan ymateb carcharorion i'r pandemig) ar ôl cynnydd di-dor ers y flwyddyn hyd fis Mawrth 2011, ac mae wedi parhau i godi yn yr ystâd fenywaidd ers y flwyddyn hyd fis Mawrth 2013.<sup>9</sup>
45. I wella diogelwch mewn carchardai rhaid wrth ddull ataliol i ganfod ac i ymateb yn well cyn i ddigwyddiadau ddigwydd, Gellir gwneud hyn drwy:

---

<sup>8</sup> Ers mis Mawrth 2020, cafodd y ffigurau ar gyfer ymosodiadau a hunan-niweidio eu heffeithio o bosibl gan yr ymateb i'r pandemig gan garchardai. Felly, er mwyn ynysu dylanwad y pandemig i un flwyddyn o adrodd, mae'r tueddadau a nodir yma yn seiliedig ar *Safety in Custody: updates to March 2021*, ar gyfer hunan-niweidio ac ymosodiadau, a diweddariadau hyd fis Rhagfyr 2020 ar gyfer hunan-laddiadau, yn hytrach nag ar y diweddariad diweddaraf hyd Fehefin 2021

<sup>9</sup> Mae cyfraddau ymosod (ar gyfer pob 1,000 carcharor) wedi gostwng o uchafbwynt o 415 o ddigwyddiadau yn y flwyddyn hyd Fawrth 2019 i 239 o ddigwyddiadau yn y flwyddyn hyd Fawrth 2021, gyda cyfraddau hunan-niweidio wedi gostwng o uchafbwynt o 777 yn y flwyddyn hyd Fawrth 2020 i 662 yn y 12 mis hyd Fawrth 2021: O dablau 3 (hunan-niweidio) a 4 (ymosodiadau) o'r tablau crynhoi ar gyfer *Safety in custody: quarterly update to March 2021* -

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/1006476/Safety-in-custody-summary-q1-2021-final-tables.xlsm](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1006476/Safety-in-custody-summary-q1-2021-final-tables.xlsm)



- Cael swyddogion carchar medrus a chydnerth, sy'n fwy galluogi i feithrin perthnasoedd positif rhwng staff a charcharorion;
  - Amgylchedd ffisegol sy'n diwallu anghenion ein poblogaeth gymhleth;
  - Cyfundrefnau sy'n annog gobaith ac ymgysylltiad drwy weithgarwch wedi'i gynllunio a'i strwythuro'n dda, ac sy'n gwneud y defnydd gorau o ddatblygiadau technolegol i annog carchardai mwy diogel;
  - Mae technoleg sy'n rhoi hyblygrwydd ac amser i staff i feithrin perthnasoedd positif â charcharorion, yn galluogi charcharorion i gymryd perchnogaeth o'u gofal a'u llesiant eu hunain, ac mae'n gwella sut mae swyddogion carchar yn monitro ac yn gwarchod charcharorion rhag hunan-niwed a hunanladdiad.
46. Ni wnawn oddef unrhyw drais yn erbyn swyddogion carchar – dylai staff allu disgwyl amgylchedd gwaith diogel a gweddus. Mae diogelwch ein staff yn holl bwysig, ac ni allwn ddisgwyl y bydd staff carchardai'n gallu gwneud eu gwaith hyd eithaf eu gallu nac aros gyda'r gwasanaeth carchardai oni bai eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu gwaith. Bydd charcharorion sy'n dreisgar tuag at staff yn gorfod wynebu canlyniadau eu gweithredoedd, ac ymdrinnir yn gyflym ac effeithiol â hwy
47. Mae gweithgarwch troseddol sy'n parhau o fewn carchardai yn mynd yn groes i ymdeimlad y cyhoedd o gyfiawnder, mae'n mynd yn groes hefyd i'n prif swyddogaeth o amddiffyn y cyhoedd ac mae'n peryglu staff gweithgar y gwasanaethau carchardai a phrawf. Er gwaethaf buddsoddiadau a chynnydd mewn mesurau diogelwch, gwyddom fod troseddwy'r yn parhau i geisio tansellio ein mesurau diogelwch ac yn rhedeg rhwydweithiau troseddol o'r tu ôl i furiau'r carchar; a rhaid inni ddal ati i addasu ar gyfer y bygythiadau hyn i ddiogelwch.
48. Fel y nodwyd eisoes, mae ein Rhaglen Buddsoddi mewn Diogelwch eisoes wedi gwneud cynnydd pwysig i dorri rhwydweithiau troseddol sy'n ceisio tansellio ein mesurau diogelwch ac i fynd i'r afael â'r cyffuriau a'r fasnach mewn cyffuriau ac eitemau gwaharddedig eraill mewn carchardai sy'n creu diwylliant o drais a bygwth.
49. Mae 74 o sganwyr corff pelydr-x wedi eu gosod; sy'n gallu delio â 100% o'r ystâd wrywaidd gaeedig. Defnyddir y sganwyr hyn mewn ffordd sy'n cael ei harwain gan wybodaeth am garcharorion gwrywaidd sy'n ceisio cael y gorau o'n mesurau diogelwch, i ganfod eitemau sydd wedi'u cuddio o fewn y corff. Ers dechrau eu gosod fis Gorffennaf 2020 cafodd dros 10,000 o sganiau positif eu cofnodi gan ddod o hyd i eitemau fel ffonau a chyffuriau a thrwy hynny eu rhwystro rhag mynd i mewn i'r carchar, gan eu gwneud yn fwy diogel a saff.
50. Mae 35 o'r 42 safle â'r risg uchaf wedi cael system Diogelwch Uwch y Giatiau, ac rydym yn chwilio staff ac ymwelwyr yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys 594 o staff, 154 o gŵn cyffuriau a dros 200 darn o gyfarpar (synwryddion metelau bwa a llaw). Mae trefniadau i bob un o'r 42 safle i ddefnyddio EGS erbyn diwedd mis Mawrth 2022.

51. Mae 90 o unedau synhwyro olion cyffuriau eisoes mewn defnydd i allu profi papur sydd â chyffuriau fel sylweddol seicoweithredol ynddo sy'n cyrraedd yr ystafell bost, gan amharu ar ymdrechion troseddwr i smyglo cyffuriau i garchardai.
52. Roedd SIP hefyd yn cynnwys buddsoddiad o £8.5 miliwn i ddal y rhai hynny sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch llwgr, a lansiwyd yr Uned Atal Llygredd (CCU) ym mis Ebrill 2019, ochr yn ochr â fframwaith polisi newydd a chanllawiau staff gyda'r nod o gael diwylliant proffesiynol cryf o sy'n annog ymddygiad positif ac sy'n cael gwared ar stigma chwythu'r chwiban.

## Ymyriadau Diogelwch wedi'u Targeddu

53. Yn ystod y ddwy flynedd nesaf byddwn yn:

- **Cwblhau ein Rhaglen Buddsoddiad mewn Diogelwch arloesol erbyn mis Mawrth 2022**, a fydd yn cyflenwi cyfarpar arloesol i'n helpu i ganfod eitemau anghyfreithlon a'u hatal rhag cyrraedd carchardai, ac amharu ar weithgarwch troseddol sy'n cael ei drefnu o fewn carchardai;
- **Sefydlu tasglu arloesi gydag arbenigwyr o'r rheng flaen, iechyd, seicoleg, o'r byd academiaidd a mudiadau trydydd sector** i gyfuno meddwl arloesol ac arferion gorau i roi sylw i'r ffactorau sy'n achosi trais a hunan-niweidio mewn carchardai, treialu ymyriadau newydd i fynd i'r afael ag ymddygiadau treisgar, a materion diogelwch eraill;
- **Cyflwyno cenhedlaeth newydd o Gamerâu Fideo sy'n cael eu Gwisgo ar y Corff ar draws y gwasanaeth, gyda chamerâu mwy newydd â thechnoleg fwy datblygedig** a fydd ar gael i bob swyddog carchar sydd eu hangen, gan sicrhau bod gan ein staff y cyfarpar gorau i'w diogelu eu hunain a charcharorion;
- **Edrych ar amrywiaeth o fesurau ffisegol a seiliedig ar wybodaeth i'w hatal, gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio ein sganwyr cyrff pelydr-x arloesol, i amddiffyn staff agored i niwed ac i sicrhau diogelwch ein carchardai;** fel rhan o'n hymagwedd ehangach at ddiogelwch, byddwn hefyd yn ystyried yn ofalus rinweddau treialu profion cyffuriau i staff;
- **Profi'r defnydd o systemau digidol newydd i fonitro arwyddion hanfodol i ddeall sut y gallant gynnig help i achub bywydau cleifion sydd yn y risg mwyaf o hunanladdiad a hunan-niwed;**
- **Sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â charcharorion y mae eu hymddygiad treisgar yn fygythiad i ddiogelwch pobl eraill.**

## Darparu'r Cymorth Cywir

54. Mae angen cymorth arbenigol i atal y carcharorion sydd yn y perygl mwyaf neu'r rhai mwyaf heriol rhag niweidio eu hunain neu eraill. Dyna pam y byddwn, yn ystod y ddwy flynedd nesaf, **yn cyflwyno 'Gwasanaeth Cymorth Uwch' i garchardai lleol**, lle byddwn yn canfod yr ymddygiad mwyaf cymhleth. Mae hyn yn cynnwys tîm symudol, sy'n cynnwys nyrs iechyd meddwl, seicolegydd a swyddog carchar, a fydd yn gweithio â'r carcharor, a'r staff sy'n gweithio â hwy, i roi sylw i'w ffactorau risg.
55. Rydym wedi datblygu gwasanaeth cymorth ychwanegol mewn cydweithrediad â'r Samariaid ar gyfer carchardai yn dilyn cyfnod lle mae rhywun wedi lladd eu hunain, gyda'r nod o leihau'r risg o ragor o hunanladdiadau (yn unol â'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Gofal ac Iechyd a'r Swyddfa Gwella ac Anghydraddoldebau Iechyd). Mae hyn yn cynnwys rhagor o hyfforddiant i Wrandawyr (carcharorion sydd wedi'u hyfforddi gan y Samariaid i gynig cymorth emosiynol a llesiant i garcharorion eraill), canllawiau i Lywodraethwyr a thimau diogelwch, deunydd sy'n cynnwys gwybodaeth i staff a charcharorion, a defnyddio cynghorwyr y Samariaid os bydd rhywun wedi lladd eu hunain. **Byddwn yn parhau i ariannu'r gwasanaeth hwn am y ddwy flynedd nesaf**, fel y bydd help ar gael i staff a charcharorion pan fydd ei angen yn yr amgylchiadau mwyaf trychinebus.
56. Gall diffyg dealltwriaeth o'r anhysbys neu anobaith wrth edrych i'r dyfodol roi carcharorion mewn perygl o hunan-niwed neu drais. I helpu i roi sylw i hyn, **byddwn yn cyflwyno model cymorth gan gymheiriaid mewn carchardai dethol yn ystod y ddwy flynedd nesaf**, a fydd yn cynnwys cyflogi cyn-droseddwyr i roi cymorth i garcharorion yn ystod dyddiau cynnar eu dedfryd, a hyfforddi carcharorion i ddarparu cymorth gan gymheiriaid fel 'llywyr llesiant', i'w cyd-garcharorion wrth iddynt gwblhau eu dedfryd.

## Ystâd sy'n Ddiogel yn ei Hanfod

57. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod yr amgylchedd adeiledig yn cael effaith sylweddol ar ganlyniadau diogelwch. Mae pob cell a adeiladwyd ers 2005 yn cyrraedd safon sy'n golygu nad oes unman lle gellid gosod rhwymyn, i amddiffyn carcharorion mewn perygl, a chyfleusterau fel ysbytai diogel sydd wedi llwyddo i leihau'n sylweddol y niferoedd sy'n lladd eu hunain ers cyflwyno'r datblygiadau hyn. Nid oes gan rai o'n celloedd hyn y cyfleuster achub bywyd hwn ac mae'n hanfodol bod celloedd lle na ellir gosod rhwymyn yn cyrraedd y safon uchel sydd ei hangen i sicrhau eu heffeithiolrwydd. Crogi yw'r dull mwyaf cyffredin o gyflawni hunanladdiad o hyd yn 2020, ac mae'n cyfrif am 82% o achosion.
58. Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, **rydym wedi ymrwymo i werthuso'r defnydd o'r celloedd hyn yn ein carchardai i ddeall sut i wella eu heffeithiolrwydd i**

**amddiffyn y rhai mewn mwyaf o berygl, ac i wneud cynnydd sylweddol i sicrhau bod y celloedd hyn ar gael ble mae angen amdanynt.**

59. Gall raseli eillio gwlyb traddodiadol cael eu defnyddio gan garcharorion fel arfau i ymosod ac i hunan-niweidio. **Byddwn yn treialu defnydd o opsiynau eraill** yn ystod y ddwy flynedd nesaf i leihau'r perygl hwn. Os bydd tystiolaeth yn awgrymu bod hyn yn llwyddo i leihau niwed a thrais, rydym wedi ymrwymo i gyflwyno dewisiadau amgen ar draws yr ystâd.
60. Gall cynnau tân mewn celloedd, boed yn fwriadol neu ddamweiniol, fod yn berygl mawr i garcharorion a staff, a gall e-sigarennau gael ei defnyddio fel cyfrwng i'w cynnau - yn 2019/20, dywedodd carchardai fod 2,363 o danau wedi cynnau, gyda 1,036 ohonynt wedi'u priodoli i e-sigarennau.<sup>14</sup> **I roi sylw i hyn, ac i leihau nifer y tanau, byddwn yn rhoi prawf ar gynnyrch rhoi'r gorau i ysmegu mwy diogel mewn carchardai dethol cyn eu cyflwyno'n genedlaethol.**

## Cyffuriau a Dyledion

61. Mae diogelwch mewn carchardai'n cael ei danseilio'n barhaus gan bresenoldeb cyffuriau, masnach mewn meddyginiaethau presgripsiwn ac agweddau eraill ar yr economi anghyfreithlon, sy'n gwthio carcharorion i ddyled. Mae'r system hon yn aml yn cael ei hunan-blismona, sy'n cynnwys defnyddio trais i dalu dyledion, a brwydrau i reoli marchnadoedd gwerthfawr, sy'n arwain at ymosodiadau ar staff ac sy'n creu pwysau a all arwain at hunan-niweidio neu hyd yn oed hunanladdiadau.
62. Mae'r economi anghyfreithlon hefyd yn golygu bod perygl y gall staff llwgr smyglo eitemau anghyfreithlon, yn ogystal ag ymdrechion i lygru staff. Mae hyn yn tanseilio trefn a disgyblaeth, mae'n tanseilio adsefydlu ac mae'n niweidio hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol. Mae buddsoddiad y llywodraeth o £8.5 miliwn i ddal y sawl sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch llwgr wedi arwain at lansio'r Uned Atal Llygredd yn 2019 a fframwaith newydd sy'n annog ymddygiad positif a hyfforddiant sy'n gwarchod staff gweithgar ac sy'n hybu eu gallu i wrthsefyll ymdrechion i'w llygru.
63. Mae'n hanfodol ein bod yn rhwystro pob cyfle posibl i ddod â chyffuriau i mewn i'n carchardai er mwyn cynnal sefydlogrwydd, trefn ac ymdrechion i adsefydlu. Rydym wedi buddsoddi mwy nag erioed o'r blaen yn y dechnoleg ddiweddaraf a staff ychwanegol i chwalo rhwydweithiau troseddol ac i atal ymdrechion i gyflenwi cyffuriau. Mae amddiffyn ein staff rheng flaen gweithgar yn flaenoriaeth allweddol ac, fel rhan o hynny, dylem edrych ar bob dull i wella eu diogelwch.

64. Yn y cyd-destun hwn, **byddwn yn edrych ar ystod o fesurau ffisegol a seiliedig ar wybodaeth i'w hatal, gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio ein sganwyr cyrff pelydr-x arloesol, i amddiffyn staff sydd mewn perygl ac i sicrhau diogelwch ein carchardai.** Hoffem hefyd ystyried yn ofalus gyda Llywodraethwyr, undebau llafur cydnabyddedig a rhanddeiliaid ehangach beth yw rhinweddau (neu wendidau) ac ymarferoldeb treialu profion cyffuriau i staff fel rhan o'n hymagwedd ehangach at ddiogelwch, sy'n cynnwys rhai sydd mewn perygl o fygythiadau a gorfodaeth.
65. Ein staff yw ein hased mwyaf, a byddwn yn sicrhau bod ein staff presennol, a'r miloedd y byddwn yn eu recriwtio yn y dyfodol yn fedrus, yn barod i addasu, yn ddiogel ac yn hyderus. Byddwn yn eu paratoi ar gyfer heriau heddiw a'r dyfodol drwy roi iddynt y sgiliau a'r dulliau diogelwch gorau posibl i gynnal amgylchedd sefydlog y carchar ac i helpu carcharorion i adsefydlu, yn awr ac am y degawdau nesaf.
66. Gall carcharorion gael eu gorfodi i ofyn i'w teuluoedd neu eu ffrindiau i dalu eu dyledion, neu gall benthycwyr neu eu cysylltiadau gysylltu neu fygwth teuluoedd yn uniongyrchol, gan adael i'r drosedd sy'n deillio o ddyled rhwng carcharorion i ymestyn y tu hwnt i furiau'r carchar.
67. Mae deall ac atal llif yr arian hwn yn hanfodol i leihau troseddu yn y gymuned yn ogystal â sicrhau diogelwch carcharorion a staff y carchar. Mae ein gwaith ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac eraill yn allweddol i leihau troseddu mewn carchardai. Mae'n holl bwysig bod y gwaith hwn yn rhan o gynllunio ehangach gan yr asiantaethau hyn a gall gyfrannu at ganlyniadau traws-lywodraethol o ran amddiffyn y cyhoedd.
68. **Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn gwella ein dealltwriaeth o ddyledion drwy gynnal astudiaeth bwysig,** i ddeall sut mae dyledion yn ymledu ar draws yr ystâd carchardai, i ddeall graddfa'r broblem dyledion o fewn yr ystâd carchardai ac i ddeall y trais – yn erbyn carcharorion, swyddogion carchar a chyfeillion a theuluoedd yn y gymuned – sy'n digwydd o ganlyniad i ddyledion mewn carchardai. Byddwn yn defnyddio hyn hefyd i helpu i atal manteisio ar farchnad lewyrchus mewn cyffuriau mewn carchardai, yn ogystal â mynd i'r afael ag erledigaeth a bwlio sy'n gysylltiedig â dyledion mewn carchardai.
69. Rydym wedi ymrwmo i agwedd dim goddefgarwch tuag at droseddu mewn carchardai a dyna pam y byddwn yn dwysau ein hymateb drwy greu Tasglu Troseddu mewn Carchardai, a fydd yn canfod ac yn amlygu methiannau yn y system sy'n galluogi i droseddu barhau mewn carchardai, byddwn yn gwella ein ffordd o amharu ar droseddu a sicrhau bod ein tystiolaeth a'n hymchwiliadau'n arwain at ragor o ganlyniadau cyfiawnder troseddol. Byddwn hefyd yn ehangu ein Huned Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol, i sicrhau mwy o gymorth arbenigol i reoli bygythiad gangiau a rhwydweithiau throseddu cyfundrefnol ac i gryfhau ein gwaith mewn partneriaeth ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith.

## Ailgodi Cyfundrefnau Carchardai'n Gryfach

70. Drwy gadarnhau ystâd carchardai saff a diogel, gallwn redeg cyfundrefnau sy'n hwyluso'r canlyniadau rydym am eu gweld i garcharorion. Rhaid i gyfundrefnau sicrhau bod y drefn ddyddiol wedi'i threfnu fel bod amser yn cael ei dreulio'n fuddiol a bod y diwrnod yn cael ei drefnu'n well i sicrhau bod anghenion sylfaenol carcharorion yn cael eu diwallu. Dylai alluogi carcharorion i fynd i'r afael ag achosion eu troseddu, boed hynny drwy wella eu hiechyd, dysgu i reoli eu hymddygiad yn well, neu drwy fynediad cyson at hyfforddiant, profiadau a gwasanaethau a fydd yn eu helpu i ailsefydlu'n llwyddiannus.
71. Ni ddylai dim o'n cynlluniau gefnu ar y dasg o wneud hanfodion diwrnod mewn carchar yn gywir. Mae'n hanfodol bod cyfundrefnau carchardai yn darparu gwasanaethau craidd fel cawodydd a mynediad at ofal iechyd, amser i gasglu meddyginiaethau, prydau bwyd, ymarfer corff ac amser yn yr awyr agored. Gyda'i gilydd, mae'r agweddau hyn ar y gyfundrefn yn rhan hanfodol o helpu i gadw carcharorion yn iach yn feddylol.
72. **Rydym yn cyflwyno rhaglen dwy flynedd uchelgeisiol Dylunio Cyfundrefn y Dyfodol, a fydd yn cynorthwyo ac yn grymuso Llywodraethwyr (fel y nodwyd ym Mhennod 6) i ddatblygu eu cyfundrefn eu hunain i gyflawni amcanion strategol y Papur Gwyn hwn.** Bydd yn pennu targedau a fydd yn gwneud i garchardai roi pwyslais ar nodau ac anghenion gwahanol y carcharorion yn eu sefydliadau fel y bydd y diwrnod yn cael ei gynllunio mewn ffordd a fydd yn sicrhau bod amser pob carcharor yn cael ei dreulio mewn ffordd fwy ystyrlon. Bydd y rhaglen yn grymuso carchardai wrth iddynt wella o'r pandemig i ailgodi cyfundrefnau'n gryfach.
73. Mae'r pandemig COVID-19 wedi amharu ar gyfundrefnau carchardai mewn ffordd nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen. Bu'n rhaid cyflwyno cyfyngiadau fel rhan o'r drefn, gan newid y patrwm arferol o symud rhwng carchardai, lleihau cysylltiadau corfforol ac arbed bywydau. Mae'r gwersi a ddysgwyd drwy brofiadau staff a charcharorion yn ystod y pandemig yn golygu mai dyma'r amser i feddwl sut yr ydym yn trefnu bywyd yn y carchar.
74. Mae COVID-19 wedi dangos y gall carchardai wella canlyniadau diogelwch drwy edrych eto ar drefn y diwrnod. Un o'r gwersi hyn yw, mewn rhannau o'r ystâd, bod amser cymdeithasol heb ei strwythuro yn gallu gwneud i rai carcharorion deimlo nad ydynt yn ddiogel a gall hynny effeithio ar allu staff i reoli'r perygl o drais a bwlio. Byddwn yn rhannu'r hyn a ddysgwyd ac yn y flwyddyn nesaf, byddwn yn grymuso Llywodraethwyr i feddwl sut y gallant strwythuro'r amser sy'n cael ei dreulio ar adain y carchar mewn ffordd fuddiol ac i gymdeithasu, a chael carcharorion i ddychwelyd at y gweithgareddau sy'n helpu eu datblygiad.

75. Mae effaith COVID-19 wedi cyflymu'r broses o gyflwyno galwadau fideo diogel â theuluoedd a theleffoni mewn celloedd ac mae wedi dangos gwerth technoleg a gwasanaethau digidol i gynnal cysylltiadau teuluol. Profwyd fod cyswllt â'r teulu'n ffordd dda o dreulio amser gan ei fod yn hybu llesiant ar y pryd a chanlyniadau mwy tymor hir carcharorion. Nid oes bwriad i'r gwasanaethau hyn gymryd lle gwasanaethau wyneb yn wyneb na chyswllt uniongyrchol â'r teulu, ond maent yn adnodd ategol sy'n helpu i gynnal cysylltiadau teuluol, sy'n rhan allweddol o weithgarwch buddiol. **Rydym wedi ymrwmo i barhau i gynnig galwadau teuluol diogel am y 12 mis nesaf, byddwn yn ymdrechu i weithredu opsiynau tymor hir yn unol ag argymhellion adolygiad yr Arglwydd Farmer ar gynnal cysylltiadau teuluol a gwersi a ddysgwyd yn sgil cyflwyno'r gwasanaeth yn ystod y pandemig.**
76. Wrth gwrs nid yw ein dealltwriaeth o bwysigrwydd cyfundrefn carchardai'n ganlyniad i'r ymateb i'r argyfwng yn unig. **Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn gofyn i Lywodraethwyr ddatblygu cyfundrefn strwythuredig yn seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn hybu gweithgarwch adsefydlu ac sy'n rhoi pwyslais ar dair thema allweddol:**

### **Dull wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion amrywiol**

- Mae ymchwil wedi dangos y byddai dull mwy personol, strwythuredig o ran sut mae carcharorion yn treulio eu diwrnod yn fwy effeithiol i helpu carcharorion i gymryd cyfrifoldeb am achosion eu hymddygiad troseddol.<sup>10</sup> Bydd cyflwyno Pasbortau Ailsefydlu, fel y gwelwyd ym Mhennod Tri, yn sicrhau bod carcharorion yn meddu ar yr hanfodion cyn iddynt adael carchar i fyw bywydau heb droseddu ar ôl eu rhyddhau;
  - Rhaid i gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau buddiol fod yn agored i bawb, gan gynnwys rhai ag awtistiaeth ac ADHD, anghenion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Mae angen cyfundrefn gwbl hygyrch i gyflawni ein huchelgeisiau i helpu pobl ag awtistiaeth ac ADHD, anabledau a phroblemau iechyd, a byddwn yn dysgu yn sgil cyhoeddi 'Neurodiversity in the Criminal Justice System: A review of evidence' yn ddiweddar i ddatblygu ein cyfundrefn ac i'w gwneud yn hygyrch i garcharorion ag awtistiaeth ac ADHD.

### **Cyfundrefn sy'n hybu diogelwch**

- Drwy ailddiffinio sut mae carcharorion yn treulio'u hamser a rhoi mwy o bwrpas a strwythur i'r diwrnod, bydd Llywodraethwyr yn galluogi staff i gadw trefn a sylwi ar fygythiadau i ddiogelwch, a gallant hefyd greu'r amodau priodol i alluogi carcharorion i gynnal eu hiechyd meddwl. Byddwn hefyd yn hybu datblygiad cyfundrefn sy'n gwella rhyngweithio rhwng staff a charcharorion, sy'n eu galluogi i

---

<sup>10</sup> *What Works to Reduce Reoffending: A Summary of the Evidence* (www.gov.scot) (2015)

ddatblygu perthnasoedd sy'n gwneud y carchar yn un mwy diogel ac sy'n helpu i leihau lefelau trais, hunan-niweidio a hunanladdiadau.<sup>11,12,13</sup>

### **Mabwysiadu technoleg i gynnal cyfundrefn ddiwygiedig**

- Mae angen inni gyflwyno technoleg a fydd yn galluogi swyddogion carchar i ddefnyddio eu hamser mor effeithiol â phosibl, i sicrhau bod carcharorion yn defnyddio eu hamser yn gynhyrchiol, ac yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am dasgau gweinyddol fel trefnu eu hapwyntiadau eu hunain. Bydd moderneiddio'r dechnoleg mewn carchardai ac adnewyddu systemau data hen-ffasiwn yn allweddol i helpu staff a charcharorion i wneud y gorau o'u hamser;
- Mewn gofal iechyd, er enghraifft, gwyddom fod mwy i'w wneud i alluogi carcharorion i gael gafael ar ofal iechyd yn brydlon gan fod methu apwyntiadau'n gallu amharu ar y drefn ac mae'n gostus i'r GIG.<sup>14</sup> Rydym yn edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio technoleg i hysbysu carcharorion o apwyntiadau arfaethedig a'u hatgoffa bod angen iddynt eu cadw.

#### **Cwestiynau o'r Ymgynghoriad:**

2. A ydych chi'n cytuno mai'r rhain yw'r egwyddorion arweiniol a ddylai fod yn sail i ddylunio cyfundrefn y dyfodol?
3. Sut ddylem ni ddatblygu fframweithiau canlyniadau i sicrhau bod ein huchelgais ar gyfer Dyluniad Cyfundrefn y Dyfodol yn cael ei gwireddu?

## **Rheoli Ymddygiad**

77. Mae carcharorion sy'n dreisgar, sy'n aflonyddgar neu sy'n gwrthod parchu'r rheolau yn tansilio'r drefn i bawb. Mae mynd i'r afael ag ymddygiad gwael, sydd weithiau'n droseddol hefyd, mewn carchardai'n hanfodol i gynnal sefydlogrwydd yr ystâd, i ddiogelu staff gweithgar a charcharorion, a chadw hyder y cyhoedd yn y system

<sup>11</sup> Liebling & Arnold *Social relationships between prisoners in a maximum-security prison: Violence, faith, and the declining nature of trust* Journal of Criminal Justice 40 (2012)

<sup>12</sup> Liebling *The Role of the Prison Environment in Prisoner Suicide and Prisoner Distress* in Dear (ed) *Preventing Suicide and Other Self-Harm in Prison* (2006) pp.16–28

<sup>13</sup> Liebling *Why Prison Staff Culture Matters* in Byrne, Hummer & Taxman (eds) *The Culture of Prison Violence* (2008) pp.105–122

<sup>14</sup> Canfu dadansoddiad gan y Nuffield Trust o 110,000 o gofnodion ysbyty o 112 o garchardai yn Lloegr fod pedwar o bob 10 apwyntiad ysbyty a wnaed ar gyfer carcharorion wedi'i canslo neu eu methu yn 2017-2018, a bod hynny wedi costio oddeutu £2 miliwn i NHS England. Nuffield Trust *Locked out? Prisoners' use of hospital care: Research Summary* (2020)



cyfiawnder troseddol. Rydym am i staff fod yn hyderus yr ymdrinnir yn gyflym ac yn effeithiol ag unrhyw weithredoedd treisgar yn eu herbyn.

78. Rhaid inni sicrhau bod y rheolau'n dryloyw, eu bod yn cael eu gweithredu'n gyson a theg, a bod gweithdrefnau i ddelio'n deg â thorri rheolau. Mae hyn yn bwysig gan fod tystiolaeth yn dangos pan fydd carcharorion yn teimlo bod prosesau'n cael eu gweithredu'n deg, maent yn fwy tebygol o ymddiried mewn awdurdod a pharchu rheolau mewn ffordd sy'n helpu i'w hadsefydlu.<sup>15</sup> Mae'r rhain yn gweithio orau os defnyddir gweithwyr allweddol sy'n ymdrechu i ddatblygu perthnasoedd adeiladol, cymhellol â charcharorion, i'w helpu i wneud dewisiadau priodol.

79. Mae dyfarniadau'n penderfynu sut yr ymdrinnir â throseddau disgyblu difrifol mewn carchardai. Mae Rheolau Carchardai 1999 (Rheolau Carchardai) a Rheolau Sefydliadu Troseddwy'r Ifanc 2000 yn disgrifio'r rheolau, y gweithdrefnau a'r cosbau sy'n caniatáu i Lywodraethwyr glywed tystiolaeth ac wedyn i gosbi carcharorion pan fyddant yn torri'r rheolau. Mae llawer sydd wedi cael dyfarniad yn y gorffennol yn mynd ymlaen i droseddu eto ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod hyn yn rhannol oherwydd natur aneffeithiol y gosb.<sup>16</sup> Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cosbau a dyfarniadau'n gweithio orau pan fyddant yn gyflym, tryloyw, a theg a phan gânt eu defnyddio ochr yn ochr â gwobrwyo am ymddygiad da ac ymdrechion i ddiwygio.<sup>17</sup> Gellid gwneud mwy i wella'r system dyfarniadau.

80. Byddwn yn ystyried cyflwyno is-ddeddfwriaeth i annog cosbau cyflym sy'n hybu newid ymddygiadol positif drwy gyflwyno 'dyfarniadau llwybr carlam'. Pan fydd carcharor yn derbyn cyfrifoldeb yn gynnar, bydd y broses ddyfarnu'n cael ei chwto, a bydd yr achos yn symud ar unwaith i'r cam cosbi'n gyflymach. Yn ogystal â rhoi'r cosbau presennol, byddai'r is-ddeddfwriaeth hon yn caniatáu cosbau newydd, fel trwsio cell fel cosb am ddifrodi'r gell honno. Mae hyn yn gyflymach, ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall yr elfen cosbau adsefydlu newydd fod yn fwy effeithiol i annog carcharorion i dderbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd.<sup>18</sup>

---

<sup>15</sup> Bierie *Procedural justice and prison violence: Examining complaints among federal inmates (2000-2007)* Psychology, Public Policy, and Law 19(1) (2013) 15-29. Day, Brauer & Butler *Coercion and social support behind bars. Testing an integrated theory of misconduct and resistance in US prisons* Criminal Justice and Behavior, 42(2) (2015) 133-155. Fitzalan Howard & Wakeling *People in Prisons' Perceptions of Procedural Justice in England and Wales* Criminal Justice & Behavior 47(12) (2020) 1654-1676.

<sup>16</sup> Fortescue, Fitzalan Howard, Howard, Kelly and Elwan *Examining the impact of sanctions on custodial misconduct following disciplinary adjudications* MoJ and HMPPS (2021); Bierie *Is tougher better? The impact of physical prison conditions on inmate violence* Int'l Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology 56(3) (2012) 338-355

<sup>17</sup> Beijersbergen et al (2015a); Bierie *Procedural justice and prison violence: examining complaints among federal inmates (2000 – 2007)* Psychology, Public Policy and Law (19)1 (2013) 15-29; Butler & Maruna *The impact of disrespect on prisoners' aggression: outcomes of experimentally inducing violence-supportive cognitions* Psychology, Crime and Law 15(2-3) (2009) 235-250

<sup>18</sup> Fitzalan Howard & Wakeling *Evaluating 'rehabilitative adjudications' in four English prisons* Ministry of Justice Analytical Series (2020)

81. Byddwn hefyd yn gwneud gwelliannau i'r ffordd mae'r system ddyfarnu'n gweithio, gan gynnwys diweddarau canllawiau polisi, adolygu modiwlau hyfforddi i staff a digido rhannau o'r broses ddyfarnu i wella effeithlonrwydd y gwaith papur a thasgau gweinyddol. Byddwn yn datblygu DPA cadarn i olrhain gwelliant carchardai yn hyn o beth.
82. Mae ein Polisi Cymhellion diwygiedig a lanswyd yn 2020 yn galluogi Llywodraethwyr i ddatblygu cynllun gwobrwyo sy'n gweithio i'w carcharorion hwy.<sup>19</sup> Mae'r polisi newydd, a gyflwynwyd yn fuan cyn dyfodiad cyfyngiadau COVID-19, yn galluogi Llywodraethwyr i wneud y gorau o'r cyfleusterau sydd ar gael yn lleol i greu systemau gwobrau lleol sy'n gymhelliad gwirioneddol i garcharorion.
83. Byddwn yn gweithio i ymgorffori'r cynllun wrth i garchardai gefnu ar gyfyngiadau'r pandemig COVID-19 ac yn edrych pa hyblygrwydd ychwanegol y gellir ei roi i Lywodraethwyr i symud oddi wrth baramedrau'r cynllun cymhellion mewn ffordd sy'n rhoi sylw i angen Llywodraethwyr i fod yn fwy annibynnol yn y ffordd maent yn rheoli ymddygiad yn eu carchar.
84. Ni wnawn oddef ymosodiadau ar ein staff. Yn achos y troseddau mwyaf difrifol, fel ymosod ar staff neu eu trywanu, byddwn yn parhau i'w cyfeirio at yr heddlu yn unol â'r Cytundeb Atgyfeirio Troseddau mewn Carchardai rhwng HMPPS, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu.<sup>20</sup> Gwyddom fod mwy y gellid ei wneud i wella erlyniad troseddau mewn carchardai. O ganlyniad, byddwn yn cychwyn ar raglen waith i sicrhau bod yr asiantaethau a'r sefydliadau hynny'n rhoi blaenoriaeth i droseddau difrifol fel y bydd canlyniadau troseddol pendant pan fyddant yn digwydd.

---

<sup>19</sup> *Guidance overview: Incentives Policy Framework* - GOV.UK ([www.gov.uk](http://www.gov.uk))

<sup>20</sup> *Handling crimes in prison: agreement* - GOV.UK ([www.gov.uk](http://www.gov.uk))

## Ein Gweledigaeth 10 Mlynedd i Greu Carchardai Diogel a Sefydlog y Dyfodol

85. Bydd yr ymrwymadau hyn yn sylfaen i amgylchedd mwy diogel yn ein carchardai, ac yn un lle byddwn yn defnyddio'r holl dechnoleg a'r dulliau sydd ar gael inni i sicrhau bod gennym system garchardai heb gyffuriau, arfau ac eitemau anghyfreithlon. Yn ystod y deng mlynedd nesaf, byddwn yn:

- **Mabwysiadu dull dim goddefgarwch at gyffuriau yn ein carchardai, ac yn mynd i'r afael â smyglo cyffuriau, arfau neu eitemau anghyfreithlon eraill.** Byddwn yn defnyddio'r holl dechnegau a'r offer sydd ar gael inni i ddal carcharorion sy'n smyglo cyffuriau ac yn sicrhau bod y lleiafrif o blith y staff sy'n agored i lygredd yn cael eu canfod a'u hatal rhag smyglo cyffuriau ac eitemau eraill. Rydym am adeiladu ar lwyddiannau buddsoddiad y Llywodraeth o £100 miliwn yn Rhaglen Fuddsoddi Diogelwch Carchardai, sydd wedi cyflwyno sganwyr corff pelydr-x i'r holl ystâd wrywaidd gaeedig ac sydd wedi arwain at 10,000 o sganiau positif i atal cyffuriau ac eitemau gwaharddedig eraill rhag cyrraedd y carchar; ac a fydd yn gweld Diogelwch Giatiau Uwch, sy'n debyg i sgrinio mewn meysydd awyr, yn cael ei ddefnyddio mewn 42 safle risg uchel erbyn diwedd mis Mawrth 2022;
- **Gwella ein gwell dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n annog trais a hunan-niweidio** mewn carchardai, fel cyffuriau a dyledion, i ddatblygu ymatebion polisi a gweithredol a fydd yn mynd at wraidd y broblem, ac yn gwella diogelwch i garcharorion a staff;
- **Adeiladu ar ein gwaith i leihau'r niwed a achosir wrth i garcharorion gynnu tanau,** gyda'r nod o osod larymau tân awtomatig ym mhob cell;
- **Annog newid mewn diwylliant ymhlith staff i wella dealltwriaeth o achosion sylfaenol trais a hunan-niweidio,** gan ddarparu hyfforddiant seiliedig ar drawma i'n staff, a defnyddio'r berthynas rhwng staff a charcharorion fel cyfrwng i wella diogelwch yn ein carchardai;
- **Cael dealltwriaeth drylwyr o bob carcharor.** Rydym am weld staff yn ymyrryd cyn i broblem godi, nid ar ôl y digwyddiad. Mae pobl yn cyrraedd carchar gyda phob math o brofiadau o fywyd ac mi all y rhain achosi ymddygiad anniogel, ac nid oes gennym ar hyn o bryd wybodaeth fanwl am yr holl nodweddion mae carcharorion yn dod gyda hwy fel: cam-drin neu esgeulustod yn ystod plentyndod, profiadau trawmatig, awtistiaeth neu ADHD, anafiadau i'r pen/ymennydd a/neu ddiffyg addysg ffurfiol, a all olygu eu bod yn agored i anawsterau seicolegol;
- **Gwella'r defnydd o ddata wrth asesu risgiau diogelwch.** Bydd gwybodaeth carcharorion, sy'n aml ag anghenion niferus a chymhleth, yn cael ei chofnodi a'i storio ar sawl system wahanol, papur a digidol, sy'n creu rhwystrau sy'n atal llif gwybodaeth drwy system y carchar. Mae systemau ar wahân i reoli achosion

carcharorion mewn perygl yn arwain at ymateb tameidiog i drais neu hunan-niweidio, nad yw'n gallu rhoi sylw na chanfod beth yn union yw achosion sylfaenol ymddygiad y carcharor. Er enghraifft, canfu astudiaeth ddiweddar fod 60% o ddynion a oedd yn niweidio eu hunain hefyd yn dreisgar mewn caethiwed, ac roedd 32% o ddynion a oedd yn dreisgar wedi hunan-niweidio hefyd,<sup>21</sup> ond mewn carchardai, mae'r agweddau hyn yn cael eu rheoli drwy systemau ar wahân o ganlyniad i hen dechnoleg. Ein huchelgais dymor hir yw creu un cofnod digidol o bob carcharor, a fydd yn cael ei alluogi drwy welliannau i'n seilwaith digidol a thechnolegol, gan ddod â gwybodaeth am garcharor i un lle i wneud carchardai'n fwy diogel. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am reoleiddio emosiynau'n aneffeithiol, problemau camddefnyddio sylweddau neu ddiffyg goddefgarwch i straen a rhwystredigaeth, a all amlygu ei hun mewn ffordd beryglus yn y carchar drwy weithredoedd fel ymgais i ladd eu hunain neu ymosod ar eraill. Rydym yn gobeithio ymestyn hyn i gynnwys gofal iechyd yn y dyfodol.

- Ein huchelgais yn y dyfodol wrth ddiwygio'r gyfundrefn yw y bydd pob carchar yn deall anghenion pob un o'u carcharorion, a'u bod yn cael eu grymuso i greu cyfundrefnau sy'n gweithio i bawb. **Byddwn yn rhoi pwyslais ar dreulio amser mewn ffordd fuddiol, gyda Llywodraethwyr yn cael eu grymuso i arloesi'n lleol a phenderfynu beth sydd orau i'w carchar ac i'r carcharorion sydd yn eu gofal.** Rydym yn anelu at gael amgylchedd diogel a sefydlog ym mhob carchar, gan roi cyfle i garcharorion i ganolbwyntio ar adsefydlu, ac i staff gael yr amser a'r dulliau i weithio â charcharorion i gyflawni newid ystyrlon.

#### Cwestiynau o'r Ymgynghoriad:

4. A ydych chi'n cytuno â'n blaenoriaethau tymor hir i wneud carchardai'n fwy diogel?

---

<sup>21</sup> Slade et al *Co-existing Violence and Self-Harm* Legal and Criminal Psychology v25(2) (2020)

## 5. Sut allan ni fynd ymhellach?

---

# Pennod Tri – Rôl Carchardai a Phrawf i Leihau Troseddu ac Amddiffyn y Cyhoedd

I fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n arwain at ymddygiad troseddol, rydym yn gwella'r ddarpariaeth adsefydlu ac ailsefydlu yn y carchar ac ar ôl rhyddhau, a chryfhau'r oruchwyliaeth i rai sy'n gadael carchar ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gymuned, i amddiffyn y cyhoedd. Byddwn yn:

- Gwella'r trefniadau profi am gyffuriau ac yn cynnig mynediad at ystod lawn o driniaethau i broblemau cyffuriau ac iechyd meddwl, gan gynnwys yr opsiwn o driniaethau sy'n seiliedig ar ymwrthod;
- Cryfhau parhad triniaethau cyffuriau ar ôl rhyddhau, fel y bydd carcharorion â phroblemau camddefnyddio cyffuriau'n parhau i wneud cynnydd i wella;
- Cynnig Gwasanaeth Addysg Carcharorion sy'n gwella llythrennedd a rhifedd carcharorion, a'r sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i gael swyddi neu brentisiaethau ar ôl iddynt adael carchar;
- Gweddnewid y cyfleoedd i weithio mewn carchardai ac ar Ryddhad ar Drwydded Dros Dro (ROTL) i wella'r rhagolygon o gael gwaith ar ôl eu rhyddhau;
- Cynyddu'r rolau arbenigol a brofir yn ein prosiect Accelerator Prisons i annog gwaith i leihau aildroseddu;

- Cyflwyno Pasbortau Ailsefydlu newydd, sy'n dod â'r hanfodion sydd eu hangen mewn un lle i rai sy'n gadael carchar i fyw bywydau heb droseddu ar ôl cael eu rhyddhau;

Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu hategu gan fuddsoddiad sylweddol yn ystod y tair blynedd nesaf:

- Gan adeiladu ar y buddsoddiad o £70m i adsefydlu carcharorion a lleihau aildroseddu a gyhoeddwyd fis Ionawr 2021, bydd y Llywodraeth yn buddsoddi £200 miliwn y flwyddyn erbyn 2024/25 i wella mynediad rhai sy'n gadael carchar at lety, cymorth cyflogaeth a thriniaeth camddefnyddio sylweddau, a chyflwyno mesurau pellach ar gyfer ymyriadau cynnar i fynd i'r afael â throsteddu ieuenctid;
- Gwneud y £155 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol a ddarperir at SR19 a SR20 ar gyfer y gwasanaeth prawf unedig newydd yn barhaol, i wella adsefydlu a gwella amddiffyn y cyhoedd, sy'n gynydd o 15% ar gyllid 2019-20;
- Buddsoddi £75 miliwn y flwyddyn erbyn 24/25 i ehangu'r defnydd o dagio electronig i fonitro ymwrthod ag alcohol sy'n defnyddio GPS.

Mae'r buddsoddiad hwn yn gosod y sylfeini ar gyfer ein gweledigaeth dymor hir: llai o droseddau'n cael eu cyflawni gan rai sy'n gadael carchar a mwy o hyder ymhlith y cyhoedd; pob troseddwr, o'r diwrnod cyntaf, yn cael cyfle gwirioneddol i gymryd rhan mewn gweithgarwch adsefydlu; a galluogi carcharorion oedran gweithio i adael carchar i lety a swydd, addysg neu hyfforddiant.

86. Rhaid i'r system carchardai amddiffyn y cyhoedd a lleihau troseddu. Rhan allweddol o hyn yw mynd i'r afael â'r ail-droseddu sy'n endemig yn y system: yn 2020, roedd gan 80% o droseddwr a oedd wedi cael rhybuddiad neu euogfarn o leiaf un rhybuddiad neu euogfarn yn barod, ac ar gyfradd bron i 42%, mae'r gyfradd aildroseddu ar gyfer oedolion sy'n cael eu rhyddhau o garchar yn annerbyniol o uchel. Rhaid inni fynd i'r afael â hyn a sicrhau bod carcharorion yn derbyn cyfrifoldeb am fyw bywydau o fewn y gyfraith ar ôl cael eu rhyddhau.
87. Bydd y bennod hon yn disgrifio ein cynllun i sicrhau bod carchardai yn fannau i adsefydlu. Byddwn yn sicrhau mynediad at driniaeth o safon uchel at gamddefnyddio cyffuriau, gan gynnwys triniaeth seiliedig ar ymwrthod, i sicrhau gwellhad parhaol, a phwyslais ar iechyd meddwl. Ac am fod cyflogaeth yn gallu cynnig llwybr i fywyd heb droseddu, byddwn yn sicrhau bod carchardai'n hwyluso gwaith sy'n talu, yng ngweithdy'r carchar a thrwy ryddhau ar drwydded dros dro pan yn briodol.
88. Mae angen inni wneud mwy hefyd i baratoi carcharorion i lwyddo pan fyddant yn cael eu rhyddhau, a bydd y bennod hon yn disgrifio sut y bydd ein Pasbort Ailsefydlu newydd yn paratoi carcharorion i ailymuno â chymdeithas gyda'r holl elfennau sydd eu hangen arnynt i gadw o fewn y gyfraith, gan gynnwys parhau â thriniaethau ar

gyfer caethiwed i gyffuriau, yr hanfodion (fel prawf adnabod a chyfrif banc) a llety sefydlog. Byddwn yn gweithio hefyd â chyflogwyr i sicrhau eu bod yn gallu dod o hyd i garcharorion â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt yn eu busnesau.

89. I gyflawni hyn, rhaid inni weithredu yn ystod pob cam o siwrnai'r carcharor drwy'r system carchardai i leihau aildroseddu – bydd y bennod hon felly'n canolbwyntio ar y camau y byddwn yn eu cymryd o'r dyddiau cyntaf yn y carchar, drwy gydol dedfryd y carcharor, eu paratoi ar gyfer ryddhau ac ar ôl eu dedfryd. Mae ein hymyriadau'n canolbwyntio ar y ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad troseddwr: cyflogaeth ac addysg, gofal iechyd a llety.

---

## Y Dyddiau Cyntaf yn y Carchar

90. O'r diwrnod cyntaf yn y carchar, a thrwy gydol eu dyddiau cynnar mewn caethiwed, bydd pwyslais pendant ar ddehongli problemau'r carcharor, a llunio cynllun i roi sylw iddynt gan roi i'r troseddwr y sgiliau a'r cymorth ehangach y bydd eu hangen arnynt erbyn iddynt gael eu rhyddhau ar ddiwedd eu dedfryd. Mae adsefydlu llwyddiannus yn cychwyn gyda derbyn y carcharor - byddwn yn cofnodi: a oes gan newydd-ddyfodiaid broblemau camddefnyddio sylweddau, anawsterau neu anabledau dysgu, neu broblemau iechyd eraill; eu cymwysterau; eu lefelau llythrennedd a rhifedd; a'r hanfodion, fel manylion adnabod a chyfrif banc, fel y bydd y rhain yn barod erbyn iddynt gael eu rhyddhau.
91. Bydd carcharorion yn cael cyfle yn gynnar hefyd i weld Hyfforddwr Gwaith Carchar y DWP, neu Gynghorydd Cymru'n Gweithio, i sicrhau bod unrhyw broblemau sy'n ymwneud â budd-daliadau'n cael eu datrys yn syth ar ôl cyrraedd y carchar, a chael sgysiau cynnar am gyflogaeth neu hyfforddiant pellach ar ôl rhyddhau, wedi'u hategu gan gynlluniau dysgu personol y carcharor.

### Gofal Iechyd

92. Gwyddom fod gan garcharorion anghenion iechyd mwy cymhleth yn aml na'r boblogaeth yn gyffredinol. Yn 2018, nodwyd fod gan gymaint â 45% o garcharorion angen am driniaeth at gam-drin sylweddau, ac roedd gan 17% angen am driniaeth at gamddefnyddio alcohol.<sup>22</sup> Yn ôl Arolygiaeth Carchardai EM, dywedwyd fod gan 47% o garcharorion gwrywaidd a 71% o garcharorion benywaidd broblem iechyd meddwl

---

<sup>22</sup> O'r rhai mewn carchar ym Mehefin 2018 a oedd wedi cael asesiad llawn, dywedodd 45% o bobl bod ganddynt angen camddefnyddio sylweddau, a bod gan 17% angen camddefnyddio alcohol. Gweler MoJ *Identified needs of offenders in custody and the community from OASys* (2018) Tabl 1a

yn 2019/20.<sup>23</sup> Gall carchardai gynnig amgylchedd priodol i droseddwy'r anghenion hyn i ddechrau gwella, ac mewn rhai achosion dyma fydd eu cyfle cyntaf i ddefnyddio gwasanaethau iechyd.

93. Er mwyn galluogi pob carcharor i wneud y gorau o'r cyfle hwn, byddwn yn gweithio â NHS England and Improvement, DHSC a Llywodraeth Cymru i sicrhau diagnosis cynnar a mynediad cyflymach at driniaeth sy'n diwallu eu hanghenion. Bydd hyn yn dechrau drwy helpu pob carcharor i gael asesiad iechyd cychwynnol yn ystod eu 24 awr cyntaf yn y carchar, a dilynir hynny gan sgrinio cynhwysfawr o fewn eu hwythnos gyntaf i helpu i sicrhau eu bod yn cael eu hatgyfeirio at y driniaeth gywir os bydd angen.
94. Gwyddom fod syrffed a diffyg pwrpas yn denu carcharorion at ddefnyddio sylweddau, a bydd y mesurau rydym yn eu rhoi ar waith i wella cyfundrefn carchardai, i sicrhau gweithgareddau mwy buddiol a gwaith allweddol, yn arwain at yr amodau angenrheidiol i hybu gwell iechyd corfforol a meddyliol ymhlith carcharorion.

---

## Llety

95. Drwy ail-uno'r Gwasanaeth Prawf, bydd timau cyn-rhyddhau'n cael eu lleoli ym mhob carchar gyda swyddogaeth Ailsefydlu. Yn ystod y dyddiau cynnar mewn caethiwed, bydd eu cymorth yn cynnwys canfod anghenion ailsefydlu brys, atgyfeiriadau i helpu i reoli tenantiaethau cyfredol i osgoi ôl-ddyledion rhent neu golli llety, ac atgyfeiriadau'n unol â'r Ddeddf Lleihau Digartrefedd yn Lloegr a'r Llwybr Troseddwy'r yng Nghymru. Byddant yn gweithio hefyd i helpu i gynllunio ar gyfer rhyddhau rhag iddynt gael eu rhyddhau gan y llys ar unwaith neu ddedfryd fer o garchar.

## Yn ystod Dedfryd Carcharor

96. Drwy gydol amser carcharor mewn caethiwed, byddwn yn sicrhau bod gweithgarwch adsefydlu'n adeiladu ar anghenion a ganfuwyd yn y cam cynnar a'i fod yn cynnig yr ymyriad gwir ar yr adeg gywir. Bydd ein buddsoddiad yn ystod y ddwy flynedd nesaf yn gosod y sylfeini i alluogi llawer mwy o garcharorion sy'n gadael carchar i ddod o hyd i waith, gan sicrhau bod rhwystrau rhag adsefydlu fel camddefnyddio cyffuriau, problemau iechyd meddwl ac ynysu cymdeithasol yn cael sylw.

---

<sup>23</sup> Gweler HMIP *HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales, Annual Report 2019–20* (2020) Appendix 6, Q11.3



## Cyffuriau

97. Mae triniaeth amserol ac effeithiol i fynd i'r afael â phroblemau camddefnyddio sylweddau'n ffactor holl bwysig i helpu troseddwr i gefnu ar droseddu.<sup>24</sup> **Ein nod yw sicrhau bod gan garchardai ddiwylliant dim goddefgarwch at gyffuriau a'u bod yn mynd ati i helpu adferiad ystyrllon a pharhaol i bob carcharor. Bydd gan bob carcharor fynediad at ystod lawn o driniaethau o safon uchel, gan gynnwys opsiynau trin sy'n seiliedig ar ymwrthod, yn syth ar ôl cyrraedd y carchar.** Byddwn yn pennu DPA i fonitro cynnydd pob carcharor i sicrhau bod y pwyslais ar wella, a rhannu arferion da lleol â gweddill yr ystâd.
98. Drwy gyfrwng y Strategaeth Gyffuriau Draws-lywodraethol 10 mlynedd a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno cynllun uchelgeisiol i dorri'r cadwynau cyflenwi, darparu gwasanaethau trin a gwella o safon ryngwladol, a chyflawni newid rhwng y cenedlaethau yn y galw am gyffuriau hamdden. Byddwn yn sicrhau bod pob carcharor yn cael cynllun triniaeth, yn defnyddio'r ystod lawn o opsiynau ar gyfer triniaethau, gan gynnwys triniaeth sy'n seiliedig ar ymwrthod, sy'n eu galluogi i wella o'u caethiwed cyn gynted â phosibl. **Byddwn yn gwella ein cyfundrefn profi am gyffuriau mewn carchardai ac yn y gymuned,** gyda'r nod o brofi am ystod ehangach o sylweddau, ac rydym yn **buddsoddi mewn hyfforddiant i swyddogion carchar i wella dealltwriaeth staff i'w helpu i gefnogi carcharorion ag anghenion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.** Rydym hefyd yn **ehangu unedau Byw Heb Sylweddau â Chymhellion** lle gall carcharorion fyw heb gyffuriau, gyda chymorth gan gymheiriaid a phrofion gwirfoddol i hybu gwelliant. Yng Nghymru, mae cynlluniau ar waith i gyflwyno Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau mewn carchardai, yn unol â'r blaenoriaethau a geir yn y Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd Carchardai. Rydym yn asesu buddiannau caniatáu i buprenorphine sy'n gweithio am gyfnod hir i fod ar gael i garcharorion sy'n cael triniaeth am broblem opiadau, i weld pa effaith a gaiff hyn ar driniaeth a llithro'n ôl ar ôl rhyddhau.

### Iechyd Meddwl

99. Mae cryn dystiolaeth y gall triniaeth iechyd meddwl hefyd leihau'r tebygrwydd o aildroseddu.<sup>25</sup> Mae gormod o droseddwr â phroblemau iechyd meddwl yn diweddu yn y carchar, ac mae problemau gormod ohonynt yn gwaethygu. I atal troseddwr na ddylai fod yno rhag cael eu llusgo i'r carchar, byddwn yn parhau i weithio i gyfeirio

---

<sup>24</sup> PHE, MoJ *The impact of community based drug and alcohol treatment on re-offending* (2017); Gweler hefyd De Andrade et al *Substance Use and Recidivism Outcomes for Prison-Based Drug and Alcohol Interventions* Epidemiological Reviews Vol 4 (2018) 121-133. Mae peth tystiolaeth hefyd i awgrymu bod triniaeth i rai problemau iechyd meddwl yn gallu lleihau'r tebygrwydd o aildroseddu Weatherburn et al *Does mental health treatment reduce recidivism among offenders with a psychotic illness?* (2021)

<sup>25</sup> See (Weatherburn et al (2021)). Canfu astudiaeth arall fod cynnydd triphlyg yn y perygl o aildroseddu ymhlith rhai sydd wedi cefnu ar driniaeth am seicosis o'i gymharu â rhai nad ydynt: Hwang et al *Disengagement from mental health treatment and re-offending in those with psychosis: a multi-state model of linked data* Social Psychiatry and Psychiatric Epidemiology vol 55 (2020) 1639–1648

troseddwy'r i ffwrdd o garchar ac i gael triniaeth yn y gymuned pan fydd hynny'n briodol. Bydd y dull ataliol hwn yn rhoi gwell amddiffyniad i'r cyhoedd drwy sicrhau bod y sawl sydd angen triniaeth iechyd meddwl i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol yn cael cymorth cynnar yn y lleoliad cywir.

100. I lawer o droseddwy'r, carchar yw'r lle cywir – ond i fynd i'r afael ag aildroseddu rhaid inni sicrhau bod y gwasanaethau a'r cymorth priodol ar gael i ddiwallu eu hanghenion. Mae disgwyl i'r National Mental Health Needs Analysis, a gomisiynwyd gan NHS England a NHS Improvement gael ei gyhoeddi eleni, a dyma fydd y cam cyntaf, gan roi gwell dealltwriaeth inni o anghenion iechyd meddwl a llesiant seicolegol carcharorion yn Lloegr. Mae'n hanfodol ein bod y defnyddio hwn i sicrhau bod y ddarpariaeth mewn carchardai'n cael ei theilwra i ddiwallu'r anghenion hyn yn well, felly **byddwn yn cynorthwyo NHSE/I wrth iddynt ddiweddarau manyleb y gwasanaeth iechyd meddwl ar gyfer carchardai i'r broses o'i gyflwyno ddechrau erbyn Ebrill 2023**. Yng Nghymru, mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yn gweithio â Byrddau Iechyd Lleol a Llywodraeth Cymru i ddatblygu safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai lleol.
101. Gall rhai troseddwy'r ag anhwylder personoliaeth fel ymddygiad gwrthgymdeithasol neu anhwylder personoliaeth ffiniol, neu rai sy'n sgorio'n uchel ar y raddfa seicopathi, fod yn fwy o risg i'r cyhoedd.<sup>26</sup> Mae'r llwybr Anhwylderau Personoliaeth Troseddwy'r yn ymdrech i roi sylw i risg ochr yn ochr ag ymddygiad sy'n gysylltiedig ag anhwylder personoliaeth. Drwy sicrhau bod rhai â chyflyrau difrifol yn cael y driniaeth a'r cymorth cywir byddwn yn amddiffyn y cyhoedd yn fwy effeithiol.
102. Pan fydd gan garcharor angen iechyd meddwl difrifol i'r graddau bod hynny'n gofyn am eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, dylent gael eu trosglwyddo i ysbyty. Rydym yn benderfynol o wella a chyflymu'r broses drosglwyddo ac i wneud yn siŵr nad yw carchar yn cael ei ddefnyddio'n amhriodol. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i gyflwyno terfyn amser statudol newydd o 28 diwrnod o'r atgyfeiriad ar gyfer trosglwyddo o garchar i ysbytai iechyd meddwl, ac mae canllaw NHSE/I sy'n cynnwys yr amserlen hon eisoes yn cael ei roi ar waith.

### **Addysg a sgiliau**

103. Mae gwella addysg yn hanfodol i wella cyfraddau cyflogaeth rhai sy'n gadael carchar. Mae heriau darparu addysg dda mewn carchar yn ddigon hysbys. Mae gan y rhan fwyaf o garcharorion lefelau isel o addysg ac roedd 42% wedi cael eu gwahardd o'r ysgol. O'r carcharorion a gafodd asesiad cychwynnol rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020, roedd y rhan fwyaf ar lefel mynediad 1-3 (sy'n cyfateb i ysgol gynradd): 57% mewn Saesneg a 61% mewn mathemateg; ac roedd gan 29% anhawster/anabledd

---

<sup>26</sup> Bonta et al *A theoretically informed meta-analysis of the risk for general and violent recidivism for mentally disordered offenders* Aggression and Violent Behaviour (2014)

dysgu (LDD), er bod astudiaeth ddiweddar gan Gyd-arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol yn amcangyfrif y gallai hyn fod cyn uchod â 50%.

104. Ar hyn o bryd, mae safon y cyfleusterau addysg a'r addysgu'n anghyson ac mae Llywodraethwyr yn ei chael yn anodd cael y carcharorion cywir i'r dosbarth. Nid yw addysg carchar ychwaith wedi cyd-fynd â'r safonau cynyddol uchel o ran y sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr yn y gymuned. Er gwaethaf newidiadau diweddar, nid yw ansawdd presennol yr addysg yn ddigon da, gyda 60% o garchardai yn Lloegr yn cael graddau 'Angen Gwella' neu 'Annigonol' gan Ofsted yn ystod y pum mlynedd diwethaf.<sup>27</sup> Mae'r pandemig hefyd wedi amharu'n ddrwg ar addysg carchar ac rydym yn benderfynol o ailgodi'n gryfach.
105. I roi sylw i hyn, **rydym wedi ymrwymo yn ein maniffesto i greu Gwasanaeth Addysg Carcharorion sydd wedi'i weddnewid.** Yn sgil hyn, bydd gan addysg ddibenion a nodau clir. Byddwn yn canolbwyntio ar ddwy brif flaenoriaeth. Yn gyntaf, gwella llythrennedd a rhifedd pob carcharor. Yn ail, eu cymell i wella eu cymwysterau i gynyddu eu siawns o gael gwaith. Y nod yw bod pob carcharor yn gwella lefelau eu rhifedd a'u llythrennedd, eu hyfforddiant a'u cymwysterau yn ystod eu dedfryd, gyda chynllun personol wedi'u ddatblygu ar eu cyfer ar ôl eu derbyn i'r carchar.
106. Byddwn yn gweithio â'n darparwyr i wella'r ddarpariaeth ac ansawdd yr hyfforddiant mewn carchardai i annog gwelliannau yng ngraddau Ofsted o flwyddyn i flwyddyn, fel y byddant yn llawer nes at y rhai a gyflawnir gan Addysg Bellach yn y gymuned.
107. Bydd y Gwasanaeth Addysg Carcharorion newydd yn disgwyl bod carcharorion yn gosod eu huchelgais eu hunain ar gyfer cyflogaeth erbyn eu rhyddhau. Bydd carcharorion yn cael asesiadau Saesneg a Mathemateg a sgrinio i ganfod anghenion cymorth dysgu ychwanegol ac yn cofnodi lefel eu cymwysterau hyd yma. **Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn buddsoddi yn y platfform digidol a data sydd ei angen i ddatblygu cynlluniau dysgu personol ar gyfer carcharorion,** a fydd yn cofnodi nodau gyrfaol clir a'r cynnydd y byddwn yn ei ddisgwyl gan garcharorion tuag at eu cyflawni drwy gydol eu dedfrydau, gyda phwyslais arbennig ar rifedd, llythrennedd a chymwysterau a fydd yn gwella eu rhagolygon o gael gwaith.
108. Ar ôl asesu galluogrwydd ac anghenion carcharor yn gynnar, bydd **y Gwasanaeth Addysg Carcharorion yn integreiddio dysgu a sgiliau ar draws cyfundrefn y carchar, gan ddysgu llythrennedd a rhifedd yn well a chreu disgwyliadau cryfach a mwy pendant** y bydd carcharorion yn cael y cymwysterau ychwanegol sydd eu hangen arnynt i wella eu rhagolygon o gael gwaith. Byddwn yn meithrin cysylltiadau cryfach â chyflogwyr, yn enwedig rhai sy'n profi prinder sgiliau, a fydd yn

---

<sup>27</sup> Prison Education - Written evidence - Committees - UK Parliament

gweithio'n clos â charchardai i wella cyfleoedd am swyddi o fewn a'r tu allan i'r ystâd) a helpu i lunio'r cwricwlwm fydd ar gael.

109. I wneud hyn, **byddwn yn rhoi'r modd i Lywodraethwyr i ddarparu dysgu, hyfforddiant a sgiliau o'r safon uchaf, a byddwn yn dwyn carchardai i gyfrif am y cyfleoedd swyddi a'r canlyniadau maent yn eu cyflawni.** Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn:

- Rhoi cymorth arbenigol i Lywodraethwyr i weithio â darparwyr addysg a chyflogwyr i ddylunio cwricwlwm sy'n rhoi pwyslais ar waith. Mae hyn yn cynnwys **cyflogi Arbenigwyr Addysg, Gwaith a Sgiliau newydd** i adolygu a gwella'r addysg mewn carchardai ac ehangu dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth i gynnwys gweithdai a phlatformau digidol, **a Rheolwyr Cymorth ar gyfer carcharorion â chyflyrau fel anableddau dysgu, awtistiaeth, anafiadau a gafwyd i'r ymennydd neu ADHD** i gryfhau'r broses adnabod a'r cymorth dilynol cysylltiedig i'r rhai sydd ag anghenion dysgu, yn yr ystafell ddosbarth a'r carchar yn fwy cyffredinol;
- **Sefydlu Cronfa Arloesi Cyflogadwyedd** i alluogi Llywodraethwyr i weithio â mwy o gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant i ad-drefnu gweithdai, i ddarparu hyfforddiant sgiliau sector penodol i ddiwallu'r anghenion sy'n newid yn yr economi ac i hwyluso'r llwybr o garchar i gyflogaeth;
- **Dechrau ymgysylltu â'r farchnad gydag ystod o ddarparwyr** i annog mwy i weithio â ni i ddarparu gwasanaethau addysg, gwaith a chyflogaeth pan ddaw'r contractau cyfredol i ben;
- **Sefydlu 'Cynllun Arloesi Llythrennedd'** i herio darparwyr posibl i dreialu rhaglenni gwella llythrennedd;
- **Datblygu cynnwys digidol newydd ac ehangu'r defnydd o liniaduron diogel** fel y gall mwy o garcharorion astudio yn eu celloedd, gyda mesurau diogelu a chyfyngiadau mynediad priodol ar waith;
- **Buddsoddi mewn hyfforddiant staff** i ddatblygu diwylliant carchar sy'n gwerthfawrogi addysg a dysgu yn y carchar ac sy'n gwella ansawdd addysgu a hyfforddiant.

### **Astudiaeth achos: gwella canlyniadau cyflogaeth i rai sy'n gadael carchar drwy addysg a hyfforddiant**

Mae Willmott Dixon yn gweithio â nifer o garchardai, a lansiodd eu Building Lives Drylining Academy yn HMP Elmley yn 2019 i helpu carcharorion i fod yn barod am waith yn eu bywyd y tu allan i'r carchar. Maent wedi addasu warws y tu mewn i'r carchar fel cyfleuster hyfforddi i roi i garcharorion y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddod o hyd i waith ar ôl gadael carchar. Mae hyn yn cynnwys sgiliau leinio sych, i'w galluogi i weithio ar safleoedd adeiladu. Maent hefyd wedi dysgu sgiliau achrededig i swyddogion carchar i

gyflwyno cyrsiau chwe wythnos i garcharorion – sy'n cael effaith gynaliadwy ar gael gwaith i garcharorion a rhai sy'n gadael carchar, ac sydd ar yr un pryd yn datblygu sgiliau ein gweithlu.

## Gwaith

110. Gwyddom fod cael swydd i fynd iddi ar ôl rhyddhau yn gallu lleihau'n sylweddol y siawns o aildroseddu,<sup>28</sup> a gall cyflogwyr elwa drwy gael pobl fedrus ac ymroddgar i lenwi bylchau yn ein heconomi. Fodd bynnag, mae gwybodaeth rheolwyr mewnol yn dangos mai dim ond 14% o rai sy'n gadael carchar sydd mewn swydd chwe mis ar ôl eu rhyddhau.<sup>29</sup> Ein huchelgais yn ystod y ddwy flynedd nesaf yw newid yr agweddau, yr ymagwedd a'r dulliau ar draws yr ystâd i sicrhau newid sylfaenol yn nifer y carcharorion sy'n gweithio yn y carchar, gan alluogi mwy i weithio ar drwydded dros dro, a chynyddu'n sylweddol nifer y rhai sy'n gadael carchar sy'n sicrhau swydd drwy asesu anghenion a darparu mwy o gymorth ym mhob rhan o'r system.
111. **Rydym am greu rhagdybiaeth o blaid addasu ystâd a chyfundrefn y carchardai i hwyluso gwaith** mewn carchardai i garcharorion addas ac i fetio a rhyddhau carcharorion ar drwydded dros dro i ddechrau gweithio cyn eu bod yn gadael carchar pan fydd hynny'n ymarferol. Yn ogystal â datblygu sgiliau technegol, gall gwaith mewn carchar roi'r strwythur a'r ddisgyblaeth sydd eu hangen ar garcharorion i ddysgu bod yn gyflogeion da. Mae gan lawer o garcharorion rolau gwerthfawr eisoes yn niwydiant y carchar gan weithio mewn meysydd fel tecstilïau ac ailgylchu, ac mae carcharorion sy'n gweithio mewn ceginau hefyd yn cael eu hyfforddi gan yr elusen 'The Clink' fel y bydd ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i weithio mewn bwytai. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r dull hwn i lawer mwy o garchardai yn ystod y tair blynedd nesaf.
112. Pan yn bosibl byddwn yn agor ein drysau i fwy o gyflogwyr fel Recycling Lives, Max Spielmann a Halfords i ddod atom a chynnig profiad gwaith go iawn i garcharorion. Rydym am weld carcharorion yn mynd i'r arfer o weithio a chael ymdeimlad o foddhad wrth wneud diwrnod da o waith, lle gallant ennill cyflog a fydd yn eu helpu i brynu'r pethau sydd eu hangen arnynt yn y carchar ac i gynilo ar gyfer eu rhyddhau.
113. Gellir cynnal asesiad risg ar rai carcharorion a chaniatáu iddynt weithio yn y gymuned cyn iddynt gael eu rhyddhau ar drwydded dros dro. Pan fydd modd inni wneud hyn yn ddiogel, bydd yn gam pwysig tuag at ailsefydlu ac mae'n ennyn hyder ymhlith cyflogwyr. Mae rhai carcharorion yn gweithio ar ein prosiectau adeiladu ni. Yn Glen Parva, lle'r ydym yn adeiladu carchar newydd, mae Lendlease wedi creu 230 o

<sup>28</sup> [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/217412/impact-employment-reoffending.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/217412/impact-employment-reoffending.pdf)

<sup>29</sup> Bydd rhagor o ddata wedi'u dilysu'n cael eu cyhoeddi'n rheolaidd, gyda diweddariad cyntaf yn ddim hwyrach na Gorffennaf 2022

swyddi ac mae 21% o'r rhain wedi'u llenwi gan ROTL neu gyn-droseddwy'r gydag oddeutu 12 o ddynion ar ROTL yn gweithio ar y safle ar unrhyw adeg.

### **Astudiaeth achos: gwaith cyflogedig mewn carchardai**

Mae Redemption Roasters yn gwmni coffi sydd wedi sefydlu cyfleusterau rhostio coffi yn HMP The Mount. Maent yn rhedeg academiâu barista mewn 5 carchar arall, gan hyfforddi dynion a menywod mewn sgiliau rhostio coffi ac i weithio fel barista proffesiynol. Yma gall carcharorion ddysgu sgiliau i'w gwneud yn fwy cyflogadwy ac i gael gwaith cyflogedig mewn rhostio a phacio coffi a gwaith manwerthu. Yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig, o'r 30 o unigolion a raddiodd o'r cwrs barista gyda theilyngdod neu uwch, llwyddodd 14 i sicrhau swydd gyda Redemption Roasters. Bellach gan Redemption bellach 9 siop goffi yn Llundain a 2 weithiwr cymdeithasol llawn amser, ac maent yn canolbwyntio ar eu cenhadaeth i leihau cyfraddau aildroseddu. Mae hyn wedi arwain at lwyddiannau fel James sydd, ar ôl hyfforddiant yn HMP Aylesbury, wedi mynd ymlaen i fod yn Brif Rostiwr Coffi gyda chwmni coffi arbenigol arall.

### **Cysylltu â theuluoedd a pherthnasoedd personol cefnogol**

114. Mae tystiolaeth sy'n awgrymu bod cryfhau neu gynnal y perthnasoedd sydd gan droseddwy'r â'u ffrindiau a'u teulu, naill ai pan fyddant yn y carchar neu yn y gymuned, yn cael dylanwad positif ar y tebygrwydd o aildroseddu, a thrwy hynny atal yr un bobl rhag dychwelyd i garchar. Roedd y siawns o aildroseddu 39% yn uwch ymhlith carcharorion nad oedd wedi cael ymwelwyr o'i gymharu â'r rhai oedd wedi'u cael.<sup>30</sup> Fodd bynnag, mae data ar gyfrifoldebau gofal carcharorion yn aml yn cael ei hunan-ddatgan sy'n golygu eu bod yn aml yn annibynadwy.
115. Felly, **byddwn yn dechrau cofnodi data ar amgylchiadau teuluol a chyfrifoldebau gofal carcharorion**, ac yn eu dadansoddi i ddeall yn well beth yw amgylchiadau ac anghenion troseddwy'r. I wella ansawdd y data a gesglir ac i wella'r cymorth a ddarperir, byddwn yn ymchwilio i **gyfleoedd i rannu data rhwng sefydliadau'r Llywodraeth, i hwyluso cymorth wedi'i dargedu** ar gyfer troseddwy'r a'u teuluoedd, i atal aildroseddu a throseddu rhyng-genhedlaeth.
116. **Byddwn hefyd yn gweithio ag adrannau eraill y llywodraeth i gomisiynu ymchwil fwy diweddar i wella ein cyd-ddealltwriaeth o gyfanswm nifer y plant sy'n cael eu heffeithio gan gaethiwed rhieni a'r tebygrwydd y bydd y plant hynny'n tyfu i fod yn droseddwy'r eu hunain.**

---

<sup>30</sup> Adolygiad yr Arglwydd Farmer

## Gadael Carchar gyda Sylfaen Gadarn

117. I sicrhau bod ein buddsoddiadau drwy gydol dedfryd y carcharor yn arwain at well canlyniadau ar ôl rhyddhau, rhaid inni eu helpu i lwyddo drwy gofnodi eu haddysg a'u hyfforddiant a chydweithio'n glos â chyflogwyr i hwyluso eu llwybr i'r farchnad lafur.
118. Ar y cyfan mae carcharorion sy'n gwasanaethu dedfrydau byrion yn profi canlyniadau gwaeth na rhai ar ddedfrydau hwy; mae'r gyfradd aildroseddu (58.9%) 17.3 pwynt canran yn uwch na'r gyfradd aildroseddu gyffredinol ar gyfer yr holl unigolion a ryddheir o garchar (41.6%).<sup>31</sup> **I helpu'r boblogaeth anos i'w chyrraedd hon, bydd Swyddogaeth Dedfrydau Byr yn cael ei gyflogi ym mhob Rhanbarth Prawf erbyn Mehefin 2022**, a fydd yn cefnogi pob carcharor sy'n gwasanaethu dedfryd o 10 mis neu lai o garchar. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â gwasanaethau triniaethau fel gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol a gweithio â phartneriaid gofal iechyd, yn y carchar ac ar ôl rhyddhau. Bydd y dull ataliol hwn yn arwain at amddiffyn y cyhoedd yn well drwy leihau troseddu gan y bydd cymorth ar gael cyn bod rhai sy'n gadael carchar yn cael cyfle i lithro'n ôl a chamddefnyddio sylweddau eto.

### Cyffuriau

119. Gall gadael carchar dorri amharu ar unrhyw gynnydd tuag at wellhad ar ôl camddefnyddio cyffuriau, Ein huchelgais yw sicrhau bod pob carcharor sydd angen triniaeth ar ôl eu rhyddhau yn cael eu hatgyfeirio at ddarparwyr cymunedol a'u bod yn parhau i gael triniaeth, gan gynnwys adsefydlu cyffuriau ac alcohol sy'n seiliedig ar ymwrthod, i atal aildroseddu yn y dyfodol.
120. I sicrhau bod carcharorion yn cael eu hapwyntiad cyntaf â'r darparwr triniaethau cymunedol yn rhithiol cyn cael eu rhyddhau, **byddwn yn ehangu'r defnydd o dechnoleg telefeddyginiaeth ar gyfer trin camddefnyddio sylweddau mewn carchardai, yn amodol ar werthuso'r canlyniadau**. Byddwn hefyd yn darparu **lefelau uwch a chynyddol o driniaethau cyffuriau i rai mewn carchar ac ar brawf yng Nghymru ac yn gweithio â NHS England i annog rhai sy'n gadael carchar i gael triniaeth yn y gymuned sy'n rhoi pwyslais ar wella, yn Lloegr**.
121. Rydym yn falch bod y broses o gyflwyno RECONNECT NHS England a NHS Improvement yn parhau. Mae hwn yn wasanaeth gofal ar ôl caethiwed, sy'n helpu rhai sy'n gadael carchar yn Lloegr i barhau mewn cysylltiad â'r driniaeth gywir ar ôl ailsefydlu drwy gael eu hatgyfeirio at wasanaethau gofal cymunedol, gan gynnwys rhai ag anghenion camddefnyddio sylweddau.
122. Ar lefel leol, **byddwn yn cyflwyno Cydlynwyr Partneriaeth Iechyd a Chyfiawnder ym mhob rhanbarth prawf yn Lloegr erbyn 2024/25**, gan adeiladu ar y rolau arbenigol a dreialwyd eleni. Gwyddom fod gan lawer o droseddwyr ag anghenion

<sup>31</sup> <https://www.gov.uk/government/statistics/proven-reoffending-statistics-october-to-december-2019>

camddefnyddio sylweddau broblemiau iechyd meddwl hefyd.<sup>32</sup> Bydd y staff yn creu cysylltiadau rhwng comisiynwyr a darparwyr ar draws gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn y gymuned i sicrhau bod llwybrau eglur at driniaeth ar gael i bob troseddwr sy'n gadael carchar, gan gynnwys rhai ag anghenion sy'n cydfodoli.

## Iechyd meddwl

123. Yn rhy aml, nid oes llwybrau eglur at gymorth ar gael i sicrhau bod y sawl sy'n gadael carchar yn gallu defnyddio neu barhau i ddefnyddio triniaethau iechyd meddwl ar ôl eu rhyddhau. I rai pobl, gall hyn olygu y byddant yn dychwelyd i'r carchar. Gall unrhyw newid sydyn mewn gofal ddadwneud y cynnydd mae troseddwr wedi'i wneud tuag at iechyd gwell pan yn y carchar, felly mae parhau i gael triniaeth ar ôl rhyddhau'n hanfodol i osgoi dychwelyd i garchar.
124. I'r rhan fwyaf sy'n gadael carchar, y llwybr at ofal iechyd yn y gymuned, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, yw trwy eu Meddyg Teulu. Dyna pam yr ydym **wedi ymrwymo i helpu pawb sy'n gadael carchar i gofrestru â Meddyg Teulu cyn cael eu rhyddhau**. Mae'n hanfodol bod y gwasanaethau iawn ar gael i ddiwallu anghenion cymhleth troseddwr. **Drwy'r Rhaglen Trawsnewid Iechyd Meddwl Cymunedol, mae NHS England a NHS Improvement wedi ymrwymo i ddiwallu anghenion pobl sy'n gadael y system cyfiawnder troseddol yn well**. Bydd RECONNECT a Chydlynwyr Partneriaeth Iechyd a Chyfiawnder hefyd yn hybu mynediad gwell at ddarpariaeth iechyd meddwl cymunedol.
125. Ond rydym am fynd ymhellach a thargeddu troseddwr risg uchel â'r anghenion mwyaf cymhleth drwy **roi prawf ar fodel newydd o ddarpariaeth gwasanaeth iechyd meddwl mewn Mangreoedd Cymeradwy erbyn 2025, i ddarparu triniaeth a chymorth cyflawn a chreu llwybr clir at wasanaethau iechyd meddwl cymunedol**.
126. **Byddwn yn diweddarau'r Cytundeb Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd mewn Carchardai yn Lloegr, a fydd yn cael ei ddatblygu i gynnwys swyddogion yn y gymuned**. Fel rhan o hyn, byddwn yn cyflwyno cynllun gwaith manwl gyda blaenoriaethau a rennir i ddarparu gofal iechyd diogel, gweddus ac effeithiol i droseddwr. Gan adeiladu ar y Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd Carchardai presennol sydd ar waith yng Nghymru, sy'n cynnwys triniaeth iechyd meddwl a cham-drin sylweddau, byddwn yn agor trafodaethau â Llywodraeth Cymru i gael cytundeb cyfatebol sy'n cynnwys y gymuned.

## Gwaith a'r 'Hanfodion'

127. Er mai gadael carchar gyda swydd ac incwm cynaliadwy yw'r llwybr gorau i gefnu ar droseddu, ni fydd yn bosibl i bawb sy'n gadael carchar gael gwaith ar unwaith ar ôl

---

<sup>32</sup> Gweler PHE (2017)



eu rhyddhau, ac efallai y bydd hyd yn oed y rhai hynny sydd mewn gwaith angen cymorth ychwanegol drwy Gredyd Cynhwysol (UC). I atal rhai sy'n gadael carchar rhag llithro'n ôl i weithgarwch troseddol, mae'n hanfodol eu bod yn cael gafael ar fudd-daliadau'n brydlon pan fydd angen.

128. Mae ein hymrwymiad yn parhau i sicrhau bod carcharorion yn cael y cymorth ariannol sydd ei angen ar ôl eu rhyddhau ar unwaith. Telir y Taliad Cynhaliaeth yn uniongyrchol i rai sy'n gadael carchar i'w helpu â'u costau yn ystod eu dyddiau cyntaf ar ôl eu rhyddhau, er enghraifft, i brynu bwyd neu i deithio i apwyntiadau hanfodol, fel gofal iechyd neu dai. Ym mis Awst eleni, bu cynnydd am y tro cyntaf ers 25 mlynedd i'r Taliad Cynhaliaeth ac rydym wedi ymrwmo i sicrhau y bydd yn parhau i godi'n unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr tan 2024-25.
129. Mae'r DWP eisoes wedi gwneud newidiadau i wella mynediad at Gredyd Cynhwysol i rai sy'n gadael carchar, gan gynnwys agor llinell hawlio Credyd Cynhwysol genedlaethol sy'n sicrhau mynediad cyflym i'r system budd-daliadau ar y diwrnod rhyddhau, ac mae'n cyflawni'r ymrwymiad yn y maniffesto i gael Hyfforddwr Gwaith Carchar ym mhob carchar. Mae angen gwneud mwy yn awr i ddeall yn well y problemau a'r anawsterau mae rhai sy'n gadael carchar yn eu hwynebu wrth geisio hawlio Credyd Cynhwysol. Dyna pam y bydd yr MoJ a'r DWP yn cydweithio i roi prawf ar ddulliau gwahanol i baratoi i wneud cais am Gredyd Cynhwysol ac ymrwymiad yr hawlydd cyn eu rhyddhau mewn 15 carchar, gan ddechrau yn 2022, gyda bwriad i'w gyflwyno i'r holl ystâd erbyn 2024. Lle bydd angen ac os ydynt yn gymwys, bydd hyn yn gwella ein gallu i sicrhau bod carcharorion yn symud ymlaen i Gredyd Cynhwysol cyn gynted â phosibl, ac yn defnyddio'r sylfaen hwn i chwilio am a sicrhau gwaith. Ein nod yw galluogi'r carcharorion hynny sydd angen, i baratoi i wneud cais am Gredyd Cynhwysol ac ymrwymiad yr hawlydd pan fyddant yn dal yn y carchar, a sicrhau bod gan y carcharor fanylion adnabod dilys, fel y byddant yn gallu gwneud cais ar unwaith a derbyn Credyd Cynhwysol ymlaen llaw pan yn briodol.
130. Rydym hefyd yn derbyn bod gormod o garcharorion yn gadael carchar heb y gallu sylfaenol i weithredu yn yr economi fodern: heb gyfrif banc, manylion adnabod a CV. Felly, byddwn yn:
- **Sicrhau bod pawb sy'n gadael carchar yn cael manylion adnabod sy'n dangos eu hawl i weithio** (tystysgrif geni, trwydded yrru a/neu Hawlen Preswyllo Biometrig ar gyfer gwladolion tramor, fel bydd yn briodol);
  - **Buddsoddi mwy yn y Rhaglen Bancio bresennol i Garcharorion**, sy'n galluogi unigolion heb gyfrif banc ar y pryd i wneud cais am gyfrif banc sylfaenol pan yn y carchar, i'w ddefnyddio ar ôl eu rhyddhau;
  - **Chwilio am ffyrdd i wella'r help sydd ar gael i ysgrifennu CV;**

- **Helpu rhai sy'n gadael carchar** gyda gwaith gweinyddol ar ôl eu rhyddhau, fel trefnu apwyntiadau â'r gwasanaeth prawf a chanolfannau gwaith.

### **Astudiaeth achos: Lolfa Ymadael**

Gall gadael carchar fod yn frawychus a dryslyd, ond yn HMP Lincoln mae pob carcharor yn gadael drwy Lolfa Ymadael, sy'n cael ei rhedeg mewn partneriaeth â'r Lincolnshire Action Trust (LAT). Yn y Lolfa Ymadael, mae aelod o dîm y LAT yn cwrdd â phob carcharor a bydd yn cynnig bwyd iddynt (uwd neu dost) a diod boeth (te neu goffi), cyfle i newid eu dillad i rywbeth sy'n fwy priodol ar gyfer y tywydd, gwefru eu ffôn cyn gadael, ynghyd â'u cyfeirio at y cymorth sydd ar gael yn y gymuned a chyfle i ddechrau cais am Gredyd Cynhwysol. Mae'r tîm LAT hefyd ar gael i sgwrsio â charcharorion am eu pryderon, a chyn COVID, roedd eu teulu'n cael cyfle i ddod i mewn a chael diod boeth wrth aros i'r carcharor gael ei ryddhau.

131. Ni fydd gwella'r trefniadau addysg ynddo'i hun yn datrys y broblem o gael gwaith i garcharorion ar ôl eu rhyddhau. Bydd carchardai'n cael eu trefnu mewn ffordd sy'n galluogi ac yn cymhell canlyniadau cyflogaeth da drwy gryfhau'r cysylltiad rhwng cyflogwyr lleol ac ymgeiswyr â'r sgiliau addas yn y carchar. I gyflawni hyn byddwn, yn ystod y ddwy flynedd nesaf, yn:

- **Cyflwyno Cynghorwyr Cyflogaeth pwrpasol**, i weithio ochr yn ochr â hyfforddwyr gwaith carchar y DWP a Chynghorwyr Cymru'n Gweithio, ym mhob carchar ailsefydlu. Byddant yn datblygu strategaeth gyflogaeth leol sy'n unigryw i'w carchar yn ogystal â pharu ymgeiswyr â rolau addas ar gyfer gwaith yn y carchar, lleoliadau gwaith ar Ryddhau ar Drwydded Dros Dro a dod â swyddi ar ôl rhyddhau yn ôl i'r carchar gan Rwydwaith Dyfodol Newydd, rhwydwaith y gwasanaeth carchar o froceriaid cyflogaeth;
- **Adeiladu plattform digidol newydd i baru carcharorion â swyddi** a fydd yn rhoi i Gynghorwyr Cyflogaeth yr hyn sydd ei angen arnynt i wneud eu gwaith yn effeithiol, a gwella'r gwasanaeth a gynigir gennym i gyflogwyr;
- **Cyflwyno technoleg fideo ar gyfer cyfweiliadau â charcharorion**, gan gadw gyda'r newidiadau mewn ffyrdd o weithio o bell sydd wedi datblygu cymaint yn ystod y pandemig COVID-19;
- **Cyflwyno 'Hybiau Cyflogaeth'**, yr hyn sy'n cyfateb i 'ganolfan gwaith mewn carchar' lle bydd carcharorion yn clywed am gyfleoedd a ganfuwyd gan y Rhwydwaith Dyfodol Newydd a phartneriaid eraill, yn ogystal â rhoi cymorth i wneud ceisiadau. Byddwn yn gweithio hefyd i sicrhau bod gan garcharorion y 'trwyddedau i ymarfer' sydd eu hangen arnynt fel cardiau'r Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS) fel y byddant yn gallu ymuno â'r gweithle cyn gynted â phosibl ar ôl cael eu rhyddhau.

132. Bydd angen inni weithio â chyflogwyr er mwyn gweld cynnydd yn nifer y carcharorion sy'n symud i waith yn syth, felly byddwn yn:
- **Sefydlu Byrddau Cyflogaeth lleol** ym mhob carchar ailsefydlu, gan gynnwys gweithio ochr yn ochr â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol,<sup>33</sup> sy'n cysylltu carchardai â rhwydweithiau busnes i herio a chynghori fel y bydd carchardai'n darparu'r sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen ar gyflogwyr. Byddwn yn cydweithio'n glos â diwydiant a gwyddom fod awydd am hyn;
  - **Darparu cymorth gwell i gyflogwyr a rhai sy'n gadael carchar drwy gynnig arweiniad** a fydd yn darparu cymorth a chynghori buddiol ar gyflogi pobl ag euogfarnau. Rydym yn cydnabod ein rôl i sicrhau bod cyflogwyr yn cael yr wybodaeth gywir i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth wrth gyflogi pobl ag euogfarnau. Bydd yr arweiniad hwn yn cynnwys arferion gorau ac astudiaethau achos, a fydd yn helpu cyflogwyr i wneud asesiadau gwell ynghylch risgiau;
  - **Darparu cymorth a gwybodaeth ar ddatgelu cofnodion troseddol** yn achos rhai sydd ar fin gadael carchar a rhai yn y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys gwaith â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i roi gwybodaeth fanwl i roi'r hyder i rai sy'n gadael carchar i ymgeisio am swyddi.

#### Cwestiynau o'r Ymgynghoriad:

6. Sut allwn ni fynd ymhellach i sicrhau bod gan garcharorion y sgiliau i sicrhau cyflogaeth sefydlog ar adeg eu rhyddhau? Yn benodol, hoffem glywed gan elusennau, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant sy'n gweithio â rhai sy'n gadael carchar neu a hoffai gefnogi ein cenhadaeth i gael mwy o garcharorion i swydd. Hoffem hefyd glywed sut y gellid gwella cynlluniau sy'n oedi datgelu euogfarnau yn ystod ceisiadau am swyddi, fel 'Ban the Box', a chael cyflogwyr i'w derbyn.

7. Beth yw'r problemau a'r rhwystrau mwyaf sy'n wynebu rhai sy'n gadael carchar pan fyddant yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol? Pa effaith maent yn ei gael ar rai sy'n gadael carchar?

---

<sup>33</sup> Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (RSP) i ganfod blaenoriaethau sgiliau rhanbarthol ac is-ranbarthol. Mae RPS yn elfen hanfodol o sector sgiliau Cymru, gan ddarparu gwybodaeth am y farchnad lafur i Lywodraeth Cymru.

## Llety

133. Ar hyn o bryd mae gormod o bobl yn cael eu rhyddhau o garchar heb gartref i fynd iddo, 12,000 yn 2019/20. Mae cael rhywle diogel, sefydlog a saff i gyn-droseddwr fyw ynddo yn bwysig i amddiffyn y cyhoedd ac i sicrhau bod troseddwr yn cefnu ar droseddu. Ein gweledigaeth yw na fydd neb sy'n cael goruchwyliaeth prawf yn cael eu rhyddhau o garchar yn ddigartref.
134. Gan adeiladu ar yr 20 Arbenigwr Tai sy'n cael eu cyflogi eisoes, **byddwn yn cynyddu nifer yr Arbenigwr Tai i 48 o swyddi mewn 12 rhanbarth**. Bydd y rhain yn cael eu lleoli mewn rhanbarthau Prawf i gryfhau'r cydweithio rhwng Carchardai, Prawf ac Awdurdodau Lleol ac i wella ansawdd atgyfeiriadau a wneir o dan y Ddeddf Lleihau Digartrefedd (2017) yn Lloegr neu'r Llwybr Troseddwr yng Nghymru.
135. Gan adeiladu ar yr ymateb i'r pandemig lle mae pawb sy'n dweud eu bod yn ddigartref yn gymwys i gael llety dros dro, yng Nghymru bydd awdurdodau lleol yn datblygu cynlluniau i symud i ddull Ailgartrefu Cyflym yn ystod tymor y Llywodraeth hon. Bydd hyn yn arwain at ddatblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar drawma sy'n rhoi pwyslais ar symud pobl ymlaen i lety sefydlog cyn gynted â phosibl gyda neb yn cael eu gadael ar ôl, a bod pawb yn cael help. Bydd hyn yn gofyn am newid diwylliannol sylweddol a dull sector cyfan lle bydd yr holl bartneriaid allweddol, fel cyflogaeth ac iechyd, i gyd yn chwarae eu rhan yn y dull cynllunio ac amlddisgyblaethol.
136. Yn achos ein troseddwr sy'n fwyaf o risg, bydd Mangreoedd Cymeradwy (AP) yn darparu llety dros dro a goruchwyliaeth fanwl yn syth ar ôl eu rhyddhau o garchar. Yn 2019, ymrwymodd y Llywodraeth hon i ychwanegu 200 o welyau at yr ystâd Mangreoedd Cymeradwy; mae'r gwaith hwn yn mynd yn ei flaen yn awr a bydd wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2024. Yn ogystal â chynyddu niferoedd y gwelyau sydd ar gael mewn Mangreoedd Cymeradwy, **byddwn hefyd yn buddsoddi fel y gallwn gynnig hyd at 12 mis llawn mewn Mangreoedd Cymeradwy i bob troseddwr terfysgaeth** gyda'r lefelau uchaf o ddiogelwch a monitro Gwrth-derfysgaeth pan fydd angen.
137. Yn achos troseddwr risg isel a chanolig sydd wedi'u rhyddhau ar fechnïaeth neu Gyrrfyw Cyfyngu'r i'r Cartref, mae'r Gwasanaethau Cymorth Llety Mechnïaeth (BASS) yn trefnu llety ledled Cymru a Lloegr i helpu rhai sydd heb gyfeiriad addas ar adeg eu rhyddhau. Bydd contractau newydd yn dod i rym yn 2022, sy'n cynnwys ail-enwi BASS fel Gwasanaeth Llety Cymunedol Haen 2 (CAS2). Bydd y gwasanaeth hwn yn cynnig mwy o hyblygrwydd i ymateb i'r cynnydd yn y galw, bydd yn cynnig mwy o gymorth, a gwell gwasanaeth yn gyffredinol.

### **Astudiaeth achos: Gwasanaeth Llety Cymunedol Haen 3 (CAS3) ym Manceinion Fwyaf**

Mae 'A' yn garcharor sy'n gadael carchar gyda hanes o gamddefnyddio sylweddau, dibyniaeth ar alcohol, hen hanes o ddirywiad, ac ymddygiad treisgar tuag at staff a phreswylwyr eraill mewn llety. Cafodd 'A' gynnig lleoliad Meddiannaeth Unigol Gwasanaeth Llety Cymunedol Haen 3 (CAS3) ac mae wedi elwa ar gymorth cyflawn. Mae'r awdurdod lleol cartref wedi cytuno i helpu'r cyn-garcharor drwy gynnig cyllid Cyn-droseddwr Adran Codi'r Gwastad, Tai a Llety Cymunedol. Gyda'i gilydd, bydd yr ymyriadau hyn yn creu llwybr at lety sefydlog a pharhaol.

138. I'r rhai hynny sydd heb lety sefydlog, rydym yn cynnig llety dros dro newydd gyda chymorth am hyd at 12 wythnos ar ôl rhyddhau i gyn-garcharorion sydd mewn perygl o fod yn ddirywiad. Cafodd ei lansio i ddechrau mewn 5 rhanbarth prawf, **a byddwn yn buddsoddi fel y gall pob troseddwr sy'n gadael carchar neu sy'n symud o AP neu BASS (gwasanaeth CAS2 yn y dyfodol) fanteisio ar y ddarpariaeth newydd hon. Bydd yn cynnig llety i'r miloedd o bobl sy'n gadael carchar bob blwyddyn heb lety sefydlog** a bydd yn rhoi sylfaen iddynt i roi sylw i'r problemau eraill sy'n gallu achosi aildroseddu, fel cyflogaeth, gofal iechyd, neu gam-drin sylweddau. Mae hyn yn adeiladu ar y dysgu o'n cynllun argyfwng COVID, sydd wedi cyfrannu at ostyngiad o bron i 30% yn nifer y carcharorion a gafodd eu rhyddhau heb gartref rhwng 2019/20 a 2020/21.

### **Rhyddhau ar ddydd Gwener**

139. Gwyddom fod cael gafael ar gymorth amserol yn gallu bod yn arbennig o anodd ar ddydd Gwener, oherwydd y prinder amser cyn i wasanaethau gau am y penwythnos. Mae angen inni wneud mwy i helpu'r rhai hynny sydd ag anghenion cymhleth i gael gafael ar gymorth ar adeg eu rhyddhau, fel rhai hyn sy'n gadael carchar ac sy'n ei chael yn anodd manteisio ar ofal cymdeithasol ac i'r rhai hynny sy'n wynebu problemau ymarferol fel gorfod teithio cryn bellter i gyrraedd y gwasanaethau hyn ar amser. **Byddwn felly'n ystyried caniatáu i garcharorion sydd mewn perygl o aildroseddu gael eu rhyddhau ddiwrnod neu ddau yn gynnar yn ôl disgrisiwn y Llywodraethwr os gellir dangos y byddai eu rhyddhau ar ddydd Gwener yn effeithio'n andwyol ar drefniadau ailsefydlu'r unigolyn.**
140. I sicrhau bod y dull hwn yn cael ei ddefnyddio'n unig mewn achosion lle mae'n hanfodol i sicrhau ailsefydlu effeithiol ac i leihau'r tebygrwydd o aildroseddu, byddai angen i benderfyniadau sy'n pwysu a mesur anghenion yr unigolyn, asesu'r risg, a'r angen i gynnal dedfryd y llys, gael eu cymeradwyo gan Lywodraethwr y carchar.

### **Cwestiwn o'r Ymgynghoriad:**

8. A ddylem ni fabwysiadu ymagwedd ddeddfwriaethol, fel y disgrifir uchod, yn achos rhai sydd mewn perygl o aildroseddu a fyddai fel arall yn cael eu rhyddhau ar ddydd Gwener? Os felly, sut ddylem ni lunio ymagwedd o'r fath?

## Pasbortau Ailsefydlu

141. Drwy eu defnyddio gyda'i gilydd, bydd yr elfennau unigol a ddisgrifiwyd uchod yn galluogi rhai sy'n gadael carchar i gael y cymorth sydd ei angen arnynt i fyw bywyd heb droseddu ar ôl eu rhyddhau. O ystyried nifer y gwasanaethau sydd eu hangen yn aml ar rai sy'n gadael carchar, rydym yn bwriadu cyflwyno Pasbort Ailsefydlu, a fydd yn dod â'r wybodaeth a'r gwasanaethau allweddol i helpu rhai sy'n gadael carchar i roi sylw i'r hyn sy'n achosi aildroseddu ac sy'n helpu pontio esmwyth i'r gymuned.
142. Bydd pasbort unigolyn yn ddogfen bersonol sy'n ymdrin ag iechyd meddwl, cyffuriau, addysg, iechyd, gwaith, llety a chysylltiadau teuluol, sy'n trefnu, cynllunio a chofnodi'r wybodaeth a'r gwasanaethau y bydd eu hangen ar garcharorion, rhai sy'n gadael carchar a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio â hwy, gan ddechrau pan fyddant yn cael eu derbyn i'r carchar, gan barhau drwy'r broses o'u hailsefydlu yn y gymuned ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Byddwn yn sicrhau bod y ddogfen hon yn un ddiogel a bod gwybodaeth bersonol y carcharor yn cael ei diogelu'n briodol.
143. Rydym wedi nodi **pum egwyddor** a ddylai fod yn sail i ddatblygiad y pasbort:
  - **Eglurder ynglŷn â phwy sy'n atebol am wella canlyniadau adsefydlu ac ailsefydlu i leihau aildroseddu.** Dylai staff rheng flaen a gwahanol asiantaethau a sefydliadau ddeall y rolau y bydd angen iddynt ei chwarae yn ystod pob cam o'r broses ailsefydlu.
  - **Cymryd ymagwedd bersonol, addasu i'r heriau mae grwpiau penodol yn eu hwynebu** fel menywod a phobl hŷn sy'n gadael carchar, carcharorion ag anabledau dysgu, awtistiaeth, ADHD, y boblogaeth remand, rhai ar ddeddfrydau byr o garchar, a rhai sy'n cael eu rhyddhau ar ddydd Gwener. Bydd hyn yn cefnu ar y drefn un dull i bawb a chael dull mwy personol ac integredig sydd wedi'i seilio ar anghenion unigol y troseddwr.
  - **Hybu gwelliannau o fewn y canlyniadau sy'n flaenoriaeth, fel llety, addysg a chyflogaeth, mynediad at ofal iechyd a thriniaeth at gamddefnyddio sylweddau,** ond rhaid edrych hefyd at yr ystod ehangach o ffactorau a gwasanaethau sy'n lleihau aildroseddu. Bydd y pasbort yn cyd-fynd ag elfennau allweddol eraill o'r agenda lleihau aildroseddu, gan gynnwys Rheoli Troseddwr yn Integredig a Monitro Electronig sydd wedi'u hanelu at garfanau penodol o rai sy'n gadael carchar.

- **Gwella dilyniant prosesau presennol a gwasanaethau newydd, symleiddio'r broses casglu a rhannu gwybodaeth.** Dylai hyn gynnwys adeiladu ar y Model Rheoli Troseddwyr mewn Caethiwed (OMiC), sy'n rhoi pwyslais ar gryfhau'r cysylltiadau rhwng rheoli troseddwyr mewn caethiwed ac yn y gymuned, a phwysleisio pa mor bwysig yw hi fod carcharorion yn dilyn Cynlluniau Dedfrydu sy'n cynnwys y gweithgareddau y dylent eu cwblhau pan fyddant yn y carchar ac ar drwydded ar ôl eu rhyddhau.
- **Compact rhwng y rhai sy'n gadael carchar a chymdeithas ehangach.** Byddwn yn disgwyl y bydd carcharorion a rhai sy'n gadael carchar yn derbyn cyfrifoldeb personol am gymryd rhan mewn gweithgarwch adsefydlu a chymorth ailsefydlu ac yn gyfnewid am y cymorth gwell hwn, bydd goblygiadau pendant pan yn briodol os na fyddant yn cydymffurfio â'r amodau.

144. I roi sylw i ffactorau aildroseddu'r unigolyn ac i alluogi ailsefydlu effeithiol, **gallai'r Pasbort Ailsefydlu gynnwys yr elfennau canlynol:**

|  |  |
|--|--|
| <b>Gwella mynediad at gyflogaeth</b>                       | <ul style="list-style-type: none"> <li>• CV sy'n nodi'r cymwysterau, y sgiliau a'r profiad gwaith a gafwyd yn y carchar;</li> <li>• Llwybr gyrfa neu hyfforddiant arfaethedig, gan gynnwys hyfforddiant perthnasol a gafwyd yn y carchar, ac unrhyw hyfforddiant pellach a gafwyd yn y gymuned ar ôl rhyddhau.</li> </ul>  |
| <b>Sicrhau mynediad at lety</b>                            | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Atgyfeirio at wasanaethau adsefydlu a gomisiynir gan y gwasanaeth prawf, i helpu i gael llety;</li> <li>• Dyrannu llety dros dro perthnasol, sy'n gymesur â lefel eu risg i'r cyhoedd a hyblygrwydd ar draws Gwasanaethau Llety Cymunedol i ymateb i newidiadau yn yr angen, h.y. darpariaeth AP, BASS neu Wasanaethau Llety Cymunedol-Haen 3;</li> <li>• Manylion y cyfeiriad cyntaf ar ôl rhyddhau;</li> <li>• Crynodeb o apwyntiadau ar gyfer llety'r awdurdod lleol, gan gynnwys Dyletswydd i Atgyfeirio ac atgyfeiriadau Llwybr y Troseddwr wedi'u cwblhau.</li> </ul> |
| <b>Sicrhau bod gan rai sy'n gadael carchar yr hanfodol</b> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dogfennau prawf adnabod;</li> <li>• Cadarnhad a oes gan yr unigolyn gyfrif banc;</li> <li>• Cysylltiadau allweddol (e.e. swyddog prawf, gweithwyr cymorth);</li> <li>• Manylion amodau rhyddhau;</li> <li>• Crynodeb o bob apwyntiad ar y diwrnod rhyddhau a chynlluniau teithio;</li> <li>• Taliadau cynhaliaeth;</li> <li>• Taliad Credyd Cynhwysol ymlaen llawn, os yn gymwys ac y gwneir cais amdano.</li> </ul>  |

|  |  |
|--|--|
| <p><b>Rhoi sylw i anghenion gofal iechyd</b></p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynediad at delefeddygaeth mewn carchardai i gysylltu â darparwyr cymunedol cyn rhyddhau;</li> <li>• Manylion cyswllt ac apwyntiadau ar gyfer Meddyg Teulu, gan gynnwys cofrestru;</li> <li>• Aseiad o anghenion gofal iechyd, gan gynnwys manylion am gamddefnyddio sylweddau neu alcohol;</li> <li>• Rhestr o feddyginiaethau (gyda phresgripsiwn wedi'i gwblhau os bydd angen) a chyfarwyddiadau ar adeg rhyddhau;</li> <li>• Tagiau Monitro Alcohol pan yn briodol;</li> <li>• Cyfeirio at wasanaethau cymorth camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl.</li> </ul> |
|--|--|

### Cwestiynau o'r Ymgynghoriad:

9. A ydych chi'n cytuno â'r 'egwyddorion arweiniol' a'r canlyniadau sy'n flaenoriaeth a'r meysydd pwyslais a nodwyd gennym ar gyfer datblygu'r Pasbortau Ailsefydlu?
10. Sut allwn ni weithredu'r dull Pasbort Ailsefydlu mewn ffordd sydd fwyaf effeithiol i rai sy'n gadael carchar ac i ymarferwyr?
11. Sut ddylem ni annog carcharorion a rhai sy'n gadael carchar i gydymffurfio ag amodau a disgwyliadau yn gyfnewid am y cymorth a ddarperir, a beth ddylai'r canlyniadau fod am beidio â chydymffurfio?

## Yn y Gymuned

145. Mae lleihau troseddau sy'n cael eu cyflawni gan rai sy'n gadael carchar yn dibynnu ar ymrwymiad i reoli'r sawl sydd ar drwydded yn ofalus, yn ogystal â'r camau adsefydlu a nodwyd uchod. Cafodd strategaeth Rheoli Troseddwyr yn Integredig (IOM) wedi'i diweddarau ei lansio fis Rhagfyr 2020. Mae'r IOM yn alinio'r gwasanaeth prawf yn fwy clos â'r heddlu, ac mae'n meithrin cysylltiadau gwell â gwasanaethau cyhoeddus, mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol, i helpu troseddwyr i oresgyn y problemau cymhleth a all gyfrannu at neu waethygu eu hymddygiad troseddol, fel camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl gwael, a phroblemau â thai neu gyflogaeth.
146. Yn ganolog i'r strategaeth IOM mae atal troseddu mewn cymdogaethau, sy'n cynnwys byrgleriaeth, lladradau a dwyn, i wneud cymunedau'n fwy diogel drwy leihau aildroseddu. Mae IOM yn cryfhau goruchwyliaeth, yn cynyddu cysylltiadau â'r gwasanaeth prawf a'r heddlu, yn cymell cydymffurfiaeth a chymryd camau'n gyflym os na fydd cydymffurfiaeth.



147. Byddwn yn dangos cynnydd o ran gweithredu'r strategaeth a'i heffaith ar gyfraddau troseddu ei charfanau yn ystod y ddwy flynedd nesaf, **gyda chyllid newydd ar gyfer:**
- **Tîm canolog i ddatblygu sylfaen dystiolaeth, i ddehongli perfformiad, canfod tueddiadau a darparu cymorth ychwanegol i gynlluniau lleol os byddent yn elwa ar hynny;**
  - **Cyllid wedi'i dargedu ar gyfer cynlluniau IOM i gomisiynu ymyriadau pwrpasol ar gyfer y garfan heriol hon mewn cydweithrediad â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu;**
  - **Rolau newydd mewn timau IOM i helpu Swyddogion Prawf i ganolbwyntio ar ymyriadau ac i ymateb yn gyflym i ddiffyg cydymffurfio/torri amodau a thargedu troseddwr risg uchel 18-25 oed o dan oruchwyliaeth sy'n gyfrifol am droseddau treisgar.**
148. Yn ychwanegol at fonitro cyrffiw sydd wedi'i sefydlu'i hun, rydym wedi bod yn defnyddio monitro lleoliadau GPS ar gyfer parthau gwaharddedig/cymhwysol a monitro lleoliad yn barhaus ers 2019. Yn 2021, cyflwynwyd tagiau alcohol gennym ar gyfer llysoedd i fonitro cydymffurfiaid â'r gwaharddiad ar alcohol a osodwyd gan Ofynion Ymatal Rhag Alcohol a Monitro sy'n ddull i roi sylw uniongyrchol i droseddu sy'n cael ei gysylltu'n uniongyrchol ag alcohol.
149. **Yn ystod y tair blynedd nesaf, byddwn yn helpu i ddyblu bron nifer y bobl sy'n cael eu tagio'n electronig (EM) o tua 13,500 eleni i 25,000 erbyn 2025.** Mae gennym raglen i ehangu prosiectau sy'n defnyddio EM mewn ffordd wedi'i thargedu i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y defnydd mwyaf effeithiol o dechnolegau a charfanau gwahanol yn y dyfodol. I rai sy'n gadael carchar mae hyn yn cynnwys: troseddwr sydd wedi'u dedfrydu am droseddau meddiangar difrifol lladrata, byrgleriaeth a dwyn; monitro alcohol yn achos troseddwr lle mae camddefnyddio alcohol wedi'i gysylltu ag aildroseddu; EM er mwyn amrywio trwyddedau i annog cydymffurfiaeth ag amodau; ac EM ar gyfer cyflawnwyr Cam-drin Domestig ar drwydded i helpu i leihau aildroseddu; gwella amddiffyniad i'r cyhoedd a rhoi mwy o hyder i ddioddefwyr.
150. Er bod y pwyslais ar gryfhau a chynnal cysylltiadau rhwng troseddwr a'u teuluoedd a'u ffrindiau wedi bod yn gweithio â'r sawl sydd mewn carchardai, mae'n hanfodol bod yr 'edefyn aur' hwnnw y cyfeiriodd yr Arglwydd Farmer ato<sup>34</sup> yn cael ei mynd drwy'r giât i helpu'r rhai sydd yn y gymuned. I'r perwyl hwnnw, **rydym wedi lansio prosiect profi cysyniad 10 mlynedd o'r enw 'Grand Avenues'**, sy'n cael ei ariannu drwy Gronfa Shared Outcomes y Llywodraeth. Bydd hwn yn canolbwyntio ar gymorth wedi'i dargedu i droseddwr gwrywaidd a'u teuluoedd, mewn ardal o

---

<sup>34</sup> Adolygiad yr Arglwydd Farmer: *The Importance of Strengthening Prisoners' Family Ties to Prevent Reoffending and Reduce Intergenerational Crime* (2017)

Gaerdydd, drwy oruchwyliaeth ac ymgysylltu parhaol ar ôl iddynt gael eu rhyddhau i'r gymuned.

## **Ein Gweledigaeth 10 Mlynedd i Leihau Troseddu drwy Fynd i'r Afael ag Aildroseddu**

151. Bydd y Llywodraeth yn creu system carchardai sy'n adsefydlu troseddwr yn briodol ac yn eu paratoi ar gyfer bywyd y tu allan i furiau'r carchar. Mae troseddu'n cael effaith anghymesur ar bobl mewn cymunedau difreintiedig<sup>35</sup> felly bydd mynd i'r afael ag aildroseddu a lleihau niferoedd dioddefwyr troseddau yn helpu ein gwaith i godi'r gwastad ym mhob rhan o'r wlad. Bydd y cynllun gweithredu uchelgeisiol a ddisgrifiwyd uchod yn creu llwybr i gyflawni ein nodau tymor hir, sef:

- **Sicrhau bod carcharorion yn cael y triniaethau sydd eu hangen arnynt, pan fydd eu hangen, gan gynnwys adsefydlu sy'n seiliedig ar ymwrthod, a llunio'r cymorth cywir i sicrhau bod hyn yn parhau ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, gan weithio â'n partneriaid iechyd;**
- **Gwasanaeth Addysg Carcharorion wedi'i weddnewid gyda phwyslais ar roi'r sgiliau a'r cyfleoedd i garcharorion i gael swydd ar ôl eu rhyddhau.** Fel hyn, bydd carchardai'n cael eu defnyddio i wella rhifedd a llythrennedd pob carcharor, drwy ymwreiddio dysgu yn y carchar mewn gweithdai yn ogystal ag ystafelloedd dosbarth; a dysgu sgiliau a gwella cymwysterau pob carcharor, drwy weithio mewn partneriaeth â chyflogwyr i ddarparu'r hyfforddiant o safon uchel sydd ei angen i lenwi bylchau yn y farchnad lafur a helpu i hybu'r economi;
- Bydd graddau Ofsted yn y rhan fwyaf o'r carchardai'n cymharu'n ffafriol â'r rhai a geir mewn sefydliadau Addysg Bellach yn y gymuned;
- **Newid sylfaenol mewn troseddwr sy'n cael gwaith y tu mewn i garchardai, ar ôl eu Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro (ROTL) ac ar ôl eu rhyddhau;**
- **Bydd y rhan fwyaf o garcharorion yn gadael caethiwed ac yn mynd yn syth i swydd ar ôl eu rhyddhau o garchar;**
- **Ni fydd neb yn gadael carchar mewn perygl o fod yn ddigartref heb gael cynnig llety dros dro, a fydd yn ystyried lefel risg eu troseddu, a llwybr at gartref diogel, sefydlog a thymor hir; ac**
- **Atebolrwydd effeithiol, gan ddefnyddio DPA, annibyniaeth a enillwyd a thablau i annog arferion a pherfformiad gorau yn y blaenoriaethau a nodwyd uchod, fel cynyddu presenoldeb carcharorion mewn addysg, cynnydd mewn**

---

<sup>35</sup> Cuthbertson *Poverty and crime: why a new war on criminals would help the poor most* Civitas (2018)

Saesneg a Mathemateg, a nifer y rhai sy'n gadael carchar mewn gwaith ar ôl 6 wythnos a 6 mis ar ôl eu rhyddhau.

152. Bydd y rhaglen hon o waith mwy tymor hir yn gosod y sylfeini rydym wedi'u pennu ar gyfer y ddwy/tair blynedd nesaf i sicrhau bod carcharorion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt pan fyddant yn y carchar i fynd i'r afael â'r ffactorau sydd mor aml yn arwain at droseddu, a'r cymorth hwnnw a fydd yn eu dilyn yn ddi-dor i'r gymuned, gan sicrhau na fydd neb heb help pan fyddant yn ail-ymuno â chymdeithas.

#### Cwestiynau o'r Ymgynghoriad:

12. A ydych chi'n cytuno â'n gweledigaeth dymor hir?
13. Sut allwn ni fynd ymhellach i helpu carcharorion i gefnu ar droseddu?

## Pennod Pedwar – Ymagwedd Newydd tuag at Garchardai Menywod

Ein huchelgais dymor hir yw sicrhau ystâd i fenywod sy'n ddiogel, gweddus, teg ac wedi'u dylunio ar gyfer menywod; un sy'n hybu adsefydlu a chanlyniadau positif drwy ymateb i drawma; ac sy'n grymuso a galluogi menywod mewn caethiwed i roi sylw i achosion eu troseddau.

Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn cychwyn ar y gwaith hwn drwy:

- Cyflwyno model hyfforddi a datblygiad staff pwrpasol yng ngharchardai menywod;
- Cynyddu'r ddarpariaeth agored yn yr ystâd menywod;
- Darparu cymorth priodol i fenywod beichiog neu rai â phlant ifanc iawn.

153. Mae anghenion a heriau menywod sydd mewn carchar yn rhai gwahanol i ddynion: mae cyfraddau hunan-niweidio yn yr ystâd menywod bron i saith gwaith yn uwch nag yn yr ystâd dynion<sup>36,37</sup>, ac mae menywod yn dueddol o fod yn gwasanaethu dedfrydau byrrach am droseddau llai difrifol.<sup>50</sup> Gwyddom fod gan fenywod sy'n rhan

<sup>36</sup> *Safety in custody: quarterly update to June 2021* - GOV.UK ([www.gov.uk](http://www.gov.uk))

<sup>37</sup> % o fenywod a ddedfrydwyd i 6 mis neu lai o garchar. Cafodd 77% o fenywod a ddedfrydwyd i garchar ddedfryd o 12 mis neu lai. Yn 2019, roedd 80% o droseddwyd benywaidd a aeth i garchar yn gwasanaethu dedfryd o 12 mis neu lai. Yn 2019, cafodd 2,550 o fenywod ddedfrydau o garchar am droseddau lladrata, sy'n cyfrif am 43% o'r holl ddedfrydau. Ministry of Justice *Statistics on Women and the Criminal Justice System* (2020)

o'r system cyfiawnder troseddol anghenion cymhleth yn aml: mae llawer wedi dioddef cam-drin domestig ac wedi dioddef trawma a phroblemau iechyd meddwl.<sup>38</sup> Mae trawma'n aml wrth wraidd problemau iechyd meddwl a cham-drin sylweddau menywod, ac mae'n aml yn arwain at ymddygiad troseddol. Bydd llawer o'r camau a ddisgrifir yn y Papur Gwyn, fel gweithredu ar hunan-niweidio, cyffuriau, cyflogaeth a thai, o fudd i garcharorion benywaidd yn ogystal â rhai gwrywaidd – ac yn fwy felly mewn rhai achosion – ond rhaid iddynt gael eu teilwra i roi sylw i anghenion penodol menywod.

154. Ein prif uchelgais ar gyfer yr ystâd menywod, felly, **yw un sy'n seiliedig ar drawma ac sy'n ymateb i drawma**; mae hyn yn golygu ein bod yn deall beth yw trawma a sut mae'n effeithio ar unigolion, ac yna dylunio ein gwasanaethau, ein hadeiladau a'n systemau mewn ffyrdd sy'n lleihau'r perygl o effeithiau ail-fyw trawma a gweithio i hybu gwellhad. Gwyddom fod angen i fenywod mewn carchar roi sylw i'w trawma a'i effeithiau os ydym am fanteisio ar wasanaethau adsefydlu i wyrdroi eu bywydau. Credwn fod yr ymagwedd newydd hon at garcharu menywod yn un a all gynhyrchu canlyniadau, a bydd yr holl gynlluniau ar gyfer menywod yn y papur hwn yn dilyn yr egwyddor hon.

---

## Ymagwedd Newydd at Gaethiwed Menywod

155. Mae menywod yn cyfrif am 4% o boblogaeth ein carchardai,<sup>39</sup> ac er ein bod eisiau lleihau nifer y menywod mewn carchar, rhaid inni hefyd gael digon o lefydd ar gyfer y menywod hynny y mae caethiwed yn fwy priodol iddynt. Mae'r rhan fwyaf o'r menywod sydd wedi'u carcharu ar hyn o bryd yn cael eu cadw mewn cyfleusterau a adeiladwyd yn wreiddiol fel carchardai i ddynion, neu ganolfannau ieuencid neu fewnfudo – amgylchedd ffisegol sydd wedi arwain at ganlyniadau gwael i fenywod a hynny ar gost sylweddol i gymdeithas.
156. **Felly cyhoeddwyd cynlluniau gennym yn ddiweddar i ddatblygu cyfleusterau newydd ar gyfer yr ystâd menywod**, drwy gyfuniad o lefydd agored a chaeedig. Rydym yn dylunio llety newydd sy'n ddiogel, saff, seiliedig ar drawma ac yn benodol i fenywod, gan fanteisio ar dystiolaeth a gasglwyd gan fenywod sydd wedi bod mewn carchar i gynllunio'r llefydd newydd hyn. Drwy ymestyn y ddarpariaeth agored i safleoedd menywod sydd heb ddarpariaeth o'r fath ar hyn o bryd, byddwn yn galluogi

---

<sup>38</sup> O'r menywod a aseswyd ag OASys, dywedodd 67% o'r rhai a oedd mewn carchar neu a oedd yn cael eu rheoli yn y gymuned eu bod wedi dioddef trais domestig: NOMS *Better Outcomes for Women Offenders* (2015)

<sup>39</sup> Ministry of Justice *Prison Population: Offender Management Statistics Quarterly* April – June 2021 (2021) <sup>53</sup> Prison Reform Trust *Counted Out: Black, Asian and minority ethnic women in the criminal justice system* (2017)

mwy o fenywod o gael eu cadw ar y lefel ddiogelwch gywir a gwella mynediad i gyfleoedd ailsefydlu a Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro.

## Lleoli Carfanau Gwahanol o Fenywod

157. Mi all ac mae'n rhaid i'r gwasanaeth carchardai wneud mwy i ferched deimlo eu bod yn cael eu parchu a'u helpu drwy gydol eu caethiwed, gan gydnabod, er enghraifft, y bydd gan fenywod o gefndiroedd lleiafrif ethnig brofiadau gwahanol o garchar a byddant yn aml yn wynebu stigma difrifol yn eu cymunedau eu hunain.<sup>53</sup> Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, **byddwn yn datblygu ac yn rhedeg hyfforddiant gorfodol i staff mewn carchardai menywod i roi sylw i anghenion amrywiol yr holl fenywod yn eu gofal.** Bydd yr hyfforddiant hwn yn rhoi gwell gwybodaeth i'n staff am effeithiau diwylliant, ffydd a chynnal cysylltiadau teuluol, gan roi hwb i'w hyder i helpu'r holl droseddwy'r yn eu gofal.

## Gwella Diogelwch a Lleihad Cydraddau Hunan-niweidio

158. Mae cyfraddau hunan-niweidio mewn carchardai menywod yn anghymesur o uchel; ar hyn o bryd mae bron saith gwaith yn uwch na'r cyfraddau yn yr ystâd dynion.<sup>40</sup> Gwyddom fod cysylltiadau pendant rhwng trawma, iechyd meddwl a llesiant a bod anghenion camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl sy'n cyd-fodoli yn aml yn gallu bod wrth wraidd ymddygiad troseddol menywod. Dyna pam yr ydym yn rhoi blaenoriaeth i gynlluniau sy'n rhoi sylw i drawma a hunan-niweidio, sy'n lleihau gorbryder ac sy'n dod â menywod yn nes at eu plant. Bydd hyn yn cynnwys **ein hymrwymiad i sicrhau recriwtio a hyfforddiant arbenigol a fydd yn gwneud yn siŵr bod staff sy'n gweithio â charcharorion benywaidd yn cael eu dethol a'u hyfforddi i fod yn fwy effeithiol i helpu menywod sy'n hunan-niweidio a rhai sydd wedi profi trais domestig a cham-drin rhywiol.**

## Cynorthwyo Menywod Beichiog mewn Carchardai

159. Pan fydd menywod beichiog neu rai â phlant ifanc iawn yn cael dedfryd o garchar, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol

---

<sup>40</sup> Ministry of Justice *Safety in Custody Statistics Bulletin*

(DHSC), NHS England a NHS Improvement (NHSE/I) a'n partneriaid i barhau i wella'r cymorth sydd ar gael iddynt.

160. Mae ein fframwaith polisi cysylltiedig newydd, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021, yn cynnwys gofynion newydd ar gyfer carchardai, fel darparu cynllun gofal unigol amlddisgyblaethol i bob menyw feichiog a mam.<sup>41</sup> Mae'r fframwaith polisi hefyd yn cynnwys canllawiau newydd ar helpu menywod nad ydynt yn fodlon cael help, canllawiau ar arwyddion beichiogrwydd, a beth i'w wneud os bydd carcharor yn esgor yn annisgwyl, a chanllawiau sy'n amlygu risgiau iechyd meddwl cynenedigol ac amenedigol a sut y dylid atgyfeirio'r rhain at wasanaethau gofal iechyd.
161. Rydym hefyd wedi cyflwyno rôl Swyddog Cyswllt Beichiogrwydd a Mam a Baban ym mhob carchar menywod. Mae naw Swyddog Cyswllt wedi'u recriwtio a bydd y swyddi sy'n weddill wedi'u llenwi erbyn Ionawr 2022. Mae MoJ, HMPPS a NHSE/I wedi cyd-gomisiynu Grŵp Cenedlaethol Adolygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai Menywod gyda'r nod o wella canlyniadau iechyd a llesiant i fenywod mewn carchardai. Mae is-grŵp Gwasanaethau Amenedigol yn cyfrannu at yr adolygiad, ac mae'n cyflwyno ystod o gynhyrchion sydd â'r nod o wella canlyniadau i fenywod beichiog mewn carchardai, gan gynnwys datblygu llwybr gofal iechyd amenedigol, a datblygu manyleb gwasanaeth mamolaeth ac ôl-enedigol cenedlaethol ar gyfer comisiynwyr iechyd. Bydd y Grŵp yn cyflwyno'i argymhellion yn ystod Gwanwyn 2022.

## Ein Gweledigaeth 10 Mlynedd ar gyfer Carchardai Menywod

162. Bydd ein gwaith yn ystod y ddwy flynedd nesaf yn cyfrannu at ein huchelgeisiau tymor hir:

- **Byddwn yn ymdrechu i sicrhau gofod ychwanegol yn yr ystâd menywod bresennol ar gyfer cyfweiliadau, cyfarfodydd unigol â staff, gwaith therapiwtig, a gweithgarwch buddiol.** Ar hyn o bryd, dim ond un o bob tri carchar menywod sydd â darpariaeth ddigonol ar gyfer gofod o'r fath, sy'n peryglu ein gallu i ddarparu gwasanaethau a gwaith adsefydlu allweddol. Bydd darparu gofod preifat digonol i fenywod i siarad â gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â'u gofal, a gofod ar gyfer gwaith grŵp yn cael effaith uniongyrchol ar eu gallu i ymwneud â'r gwasanaethau sy'n angenrheidiol ar gyfer eu hadsefydlu;
- **Ein huchelgais fwy tymor hir ar gyfer yr ystâd yw cyflwyno amgylcheddau llai, sy'n ymateb i drawma mewn carchardai ar gyfer menywod ar ddedfrydau byr** sydd wedi'u cynllunio i sefydlogi menywod â phroblemau cam-drin sylweddau ac anghenion cymhleth eraill. Os yn llwyddiannus, byddai'r rhain yn ein galluogi i leihau maint carchardai menywod yn raddol a chreu ystâd sy'n

<sup>41</sup> *Pregnancy, MBUs and maternal separation in women's prisons Policy Framework* - GOV.UK ([www.gov.uk](http://www.gov.uk))

cynnwys amgylcheddau caeth sy'n adsefydlu sydd wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ac sy'n cadw menywod yn nes at eu cartrefi - lleihau aildroseddu a lleihau cyfanswm cost troseddu menywod i gymdeithas;

- Mae'r Strategaeth Troseddwy'r Benywaidd yn cydnabod bod gan droseddwy'r benywod wendidau penodol, ac mae gan lawer anghenion cymhleth hefyd. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y menywod hynny sydd â phlant dibynnol neu fabanod ac sydd angen eu cartrefu, menywod sy'n gwasanaethu dedfrydau byr mynych ac sydd â chyfraddau uchel o aildroseddu a rhai ag anghenion camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl. Mae nifer sylweddol o fenywod hefyd wedi dioddef camdriniaeth: er mwyn sicrhau eu diogelwch, rhaid inni ddarparu llety sydd wedi'i leoli'n ddigon pell oddi wrth gyflawnwyr y gamdriniaeth. **Byddwn yn ystyried y ffactorau hyn wrth ddylunio llety sy'n ymateb i drama a fydd yn rhoi i'r menywod hyn y siawns gorau o ailsefydlu yn y gymuned ar ôl iddynt gael eu rhyddhau;**
- **Rydym yn bwriadu cyflwyno unedau teulu ym mhob carchar menywod:** unedau hunangynhaliol lle gall menywod, yn dilyn asesiadau risg trylwyr, gael ymweliadau estynedig neu arosiadau dros nos gyda'u plant. Yn ogystal â gwella cysylltiadau â theuluoedd yn y carchar, byddwn hefyd yn ystyried mwy o hyblygrwydd i droseddwy'r benywaidd i dreulio amser gyda'u plant yn y gymuned, i baratoi ar gyfer eu rhyddhau;
- **Rydym am ehangu'r defnydd o Unedau Mamau a Babanod** ar gyfer menywod beichiog a rhai â phlant o dan 18 mis oed, gan alluogi menywod sy'n treulio dedfrydau o garchar i gadw mewn cysylltiad â'u plant, pan yn briodol;
- Ni fydd yn bosibl nac yn briodol bob amser i fabanod a phlant fyw gyda'u mamau yn y carchar, a gwyddom y bydd rhai mamau'n poeni'n fawr am lesiant eu plant. **Ein huchelgais yw treialu, cyn gynted â phosibl, cyflwyno gweithwyr cymdeithasol ar safleoedd yr ystâd fenywaidd** i helpu menywod yn ein gofal yn well a datblygu sylfaen dystiolaeth i gyflwyno hyn ar draws yr ystâd gyfan;
- Rydym hefyd am sicrhau ein bod yn darparu gofal a gwasanaethau wedi'u teilwra ac oedran benodol i fenywod ifanc mewn carchar. Mae menywod o dan 25 oed yn cyfrif am 10% o'r menywod mewn carchar<sup>42</sup> ac er bod ganddynt rai o'r un anghenion â menywod hŷn, maent yn fwy tebygol o fod wedi profi hanes trawmatig gan gynnwys cyfnod mewn gofal, digartrefedd a bod yn famau'n ifanc iawn,<sup>58</sup> maent yn fwy tebygol o hunan-niweidio nag unrhyw grŵp arall o fenywod yn ein gofal ac maent wedi'u gorgynrychioli o ran ymosodiadau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.<sup>43</sup> **Rydym felly'n bwriadu gweithio â phartneriaid yn y**

<sup>42</sup> Ministry of Justice *Prison Population: Offender Management Statistics Quarterly* April – June 2021 (2021) <sup>58</sup> House of Commons Justice Committee *The treatment of young adults in the Criminal Justice System: Seventh Report of Session 2016–17* (2016)

<sup>43</sup> Liebling *Prison Suicide and Prison Coping* in Tonry and Petersilia (eds) *Prisons* 283-360 (1999)

**system cyfiawnder troseddol i gynhyrchu Strategaeth Menywod Ifanc**, sy'n dwyn ynghyd arferion gorau a thystiolaeth i helpu menywod ifanc a darparu'r gwasanaethau priodol ym mhob cam o'u siwrnai drwy'r system cyfiawnder troseddol;

- Mae menywod ar remand yn fwy tebygol o fod ag anhwylderau personoliaeth ac o fod wedi cael cysylltiad blaenorol â gwasanaethau iechyd meddwl na charcharorion wedi'u dedfrydu.<sup>44</sup> Mae llawer o fenywod yn profi straen a phryder mawr wrth aros am ganlyniad eu treial, gyda lleiafrif yn unig o fenywod ym mynd ymlaen i gael dedfryd o garchar. Bob blwyddyn, mae tua hanner y menywod sy'n dod i garchar yn gwneud hynny ar remand ac mae tua dau draean o'r rhai sydd mewn carchar ar remand gan Lysoedd Ynadon yn cael eu dyfarnu'n ddiuog neu'n cael cosb yn y gymuned. Mae ein huchelgais ar gyfer y garfan hon felly'n canolbwyntio ar leihau nifer y menywod sy'n cael eu cadw mewn carchar ar remand **drwy alluogi menywod i gael mechnïaeth**. Rydym wedi lansio prosiect Gwasanaeth Gwybodaeth am Fechnïaeth mewn sawl llys a charchar yng Nghymru a Lloegr ac rydym yn disgwyl y bydd y data a'r canfyddiadau a geir drwy'r prosiect yn llywio penderfyniadau yn y dyfodol ar ddatblygu Gwasanaeth Gwybodaeth am Fechnïaeth pwrpasol a rhagweithiol, i leihau carcharu diangen ar remand.

#### Cwestiynau o'r Ymgynghoriad:

14. A ydych chi'n cytuno â'n gweledigaeth dymor hir ar gyfer carchardai menywod?
15. Beth yn fwy allwn ni ei wneud i helpu menywod mewn carchardai, gyda chyfeiriad penodol at ddiwallu anghenion charcharorion benywaidd â nodweddion gwarchoddedig?

---

## Pennod Pump – Ein Pobl

Rydym wedi ymrwmo i gefnogi ein staff, a rhoi'r hyn sydd ei angen arnynt i helpu charcharorion i wyrdroi eu bywydau; a gwrando ar ein staff i ddeall sut y gallwn wella eu llesiant a sicrhau gweithleoedd mwy diogel a boddhaus iddynt lle maent yn teimlo eu bod

---

<sup>44</sup> HM Inspectorate of Prisons *Women in prison: A literature review* (2005)



yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. I wneud hyn, rydym wedi ymrwymo, yn ystod y ddwy flynedd nesaf, i:

- Lansio ymgyrch recriwtio fawr am hyd at 5,000 o swyddogion carchar ychwanegol mewn carchardai preifat a chyhoeddus erbyn canol y 2020au a chyflwyno fframwaith cadw a fydd yn helpu llywodraethwyr i ddeall a mynd i'r afael â phroblemau lleol a galluogi cymorth sydd wedi'i dargedu'n genedlaethol;
- Gwella sgiliau proffesiynol: gwella hyfforddiant, goruchwyliaeth a chymwysterau, a chynllun carlam newydd ar draws HMPPS;
- Rhoi prawf at fenter arweinyddiaeth uwch drwy beilot rhanbarthol; paratoi staff yn well i symud i rolau arwain, ac edrych ar ffyrdd newydd o gyflwyno hyfforddiant i dimau arweinyddiaeth cyfan;
- Parhau i ymwreiddio'r model Rheoli Troseddwyr mewn Caethiwed ar draws yr ystâd;
- Cyflwyno hyfforddiant ac arweiniad arbenigol i alluogi ein staff i helpu carcharorion ag anghenion penodol;
- Cynyddu'r defnydd o dechnoleg i godi lefelau cynhyrchiant y gweithlu a gwella galluedd digidol fel y bydd amser swyddogion carchardai'n cael ei dreulio'n gwneud gwaith buddiol;

Bydd yr ymrwymadau hyn yn gosod y sylfeini ar gyfer ein gweledigaeth 10 mlynedd: byddwn yn cadw ein staff gorau, yn cefnogi'r rhai sy'n rhagori, yn ymwreiddio diwylliant arweinyddiaeth ym mhob rhan o'r gwasanaeth, ac yn rhoi i'n staff yr hyfforddiant a'r modd i greu cyfundrefn sydd wedi'i theilwra ar gyfer y carcharorion maent yn gweithio â hwy.

163. Mae carchardai'n fwy nag adeiladau; maent hefyd yn cynnwys y bobl sy'n gweithio ynddynt. Ein gweithlu, sy'n rhyngweithio â charcharorion o ddydd i ddydd, sydd â'r potensial mwyaf i wneud carchardai'n llefydd diogel, saff a gweddus, ac yn llefydd sy'n helpu carcharorion i weddnewid eu bywydau. I wneud hyn, rhaid iddynt gael yr amser, y sgiliau a'r gefnogaeth i gael effaith barhaol ar y bobl yn eu gofal. Mae arnynt hefyd angen gweledigaeth strategol sy'n cynnwys disgwyliadau clir, sy'n cyfrannu at ddiwylliant perfformiad uchel sydd wedi'i gysylltu â'r DPA sydd wedi'u cyflwyno gan arweinyddion, ac y bydd yr holl staff yn teimlo sy'n berthnasol i ddatblygiad eu gyrfa.
164. Bydd ein pobl yn hanfodol i gyflawni'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn. Ers 2016, rydym wedi cynyddu nifer y swyddogion carchar i fwy na 22,000;<sup>45</sup> rydym wedi gwella ein trefn arweinyddiaeth drwy lansio'r rhaglen Unlocked i raddedigion, ac mae dros 500 o raddedigion wedi astudio drwyddi ac wedi gweithio ar y rheng flaen i fod

<sup>45</sup> HMPPS *Workforce Quarterly* (2021)

yn rai o arweinyddion neilltuol y dyfodol;<sup>46</sup> ac rydym wedi lansio ein cynlluniau datblygiad cyflym – Spark, Catalyst ac Ignite – i ddatblygu talentau staff ymhob rhan o'r gwasanaeth carchardai.

165. Rydym am adeiladu ar y cyflawniadau hyn a chyflwyno cynigion uchelgeisiol eraill ar gyfer twf ein gweithlu a sut y byddwn yn eu cynorthwyo wrth inni ehangu'r ystâd.

## Recriwtio a Chadw

166. Mi fydd angen inni recriwtio staff i ehangu ein hystâd a bod yn ymatebol i ofynion y system cyfiawnder troseddol, yn ogystal â helpu ein gweithlu i reoli'r trawsnewidiad hwnnw. **Bydd hyn yn gofyn am hyd at 5,000 o swyddogion carchar ychwanegol** yn y carchardai cyhoeddus a phreifat, yn ddibynnol ar ddyluniad yr adeiladu, proffiliau troseddwr a gofynion y gyfundrefn. Rydym am ddefnyddio'r cyfle hwn i gyfuno staff newydd eu recriwtio sy'n cael pob cefnogaeth gyda swyddogion profiadol i osod sylfeini cadarn ar gyfer y dyfodol.
167. **Byddwn yn lansio ymgyrch recriwtio fawr**, gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn sgil ein hymgyrch recriwtio fawr ddiwethaf, sydd wedi arwain at gynnydd o fwy na 4,000 o swyddogion carchar ers diwedd mis Hydref 2016,<sup>47</sup> a thrwy'r dulliau newydd o weithio a fabwysiadwyd gennym yn ystod y pandemig. Oherwydd y niferoedd rydym am eu recriwtio, bydd y diwygiadau a ddisgrifir yn y Papur Gwyn hwn, fel proffesiynoldeb i fagu hyder y gweithlu, yn hanfodol i helpu'r staff newydd pan fyddant yn ymuno â'r gwasanaeth carchardai.
168. I sicrhau bod gan staff y sgiliau i ddiwallu anghenion yr holl garcharorion, ac i deimlo eu bod wedi'u grymuso i wneud hynny, **rydym yn cynnig dull mwy pwrpasol i recriwtio, cadw a hyfforddi'r rhai a fydd yn gweithio â charfanau penodol yn yr ystadau dynion a menywod**. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn denu pobl â'r galluoedd, yr ymddygiadau a'r cryfderau priodol i weithio â'r carfanau hynny ag anghenion penodol. Byddwn yn parhau i sicrhau bod gan staff yr un sgiliau cyffredinol drwy wneud yn siŵr bod yr holl swyddogion yn cael yr un hyfforddiant sylfaenol fel y gallant weithio ar draws yr ystâd.
169. Mae cyfradd adael o 11.1% yn y 12 mis hyd 30 Medi 2021<sup>48</sup> yn dangos bod mwy o staff yn gadael y gwasanaeth nag yn y flwyddyn flaenorol. Yn hanesyddol, mae cyfraddau gadael swyddogion – yn enwedig yn eu blynyddoedd cynnar – wedi bod yn rhy uchel. Yn ogystal ag achosi lefel trosiant annerbyniol yn y system, mae

<sup>46</sup> Unlocked Graduates ([unlockedgrads.org.uk](http://unlockedgrads.org.uk))

<sup>47</sup> HMPPS *Workforce Quarterly*: September 2021

<sup>48</sup> For Band 3–5 Officers HMPPS *Workforce Quarterly*: September 2021

adborth gan Lywodraethwyr yn dangos bod y lefelau gadael uchel yn gwneud i staff newydd deimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi, sy'n cyfrannu at gylch dieflig o anfonlonrwydd ymhlith staff a lefelau cadw isel.<sup>49</sup> **Byddwn felly yn cyflwyno fframwaith cadw** a fydd yn rhaglen waith sy'n dadansoddi data o arolygon ac yn edrych ar astudiaethau achos i ddeall pam mae swyddogion yn gadael, ac yn gweithredu ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i wella lefelau cadw. Nod hyn yw helpu llywodraethwyr i fynd i'r afael â materion lleol o fewn eu rheolaeth ac i roi cymorth wedi'i dargedu'n genedlaethol ar gyfer ystod o faterion gan gynnwys datblygiad gyrfaoedd, llesiant ac arweinyddiaeth.

170. Drwy gyfweiliadau ymadael â staff, gwyddom fod angen inni foderneiddio ein contractau cyflogaeth i alluogi ystod ehangach o batrymau gweithio hyblyg ac ystyriol o deuluoedd, ac felly rydym yn ystyried sut y gallwn wneud hyn. Gwyddom hefyd fod gweithio hyblyg yn debygol o gynyddu ein sylfaen recriwtio, gwella lefelau cadw a'n galluogi i gynnal y cyfundrefnau rydym yn ymdrechu i'w rhedeg yn fwy effeithlon. Bydd hefyd yn ein helpu i gefnogi ein gweithlu drwy gynnig contractau sy'n cyd-fynd â'u hanghenion personol, sy'n lleihau'r tebygrwydd o orweithio.

## Proffesiynoldeb a Gwella Galluoedd Staff

171. Yn achos swyddogion carchar profiadol, sef asgwrn cefn y gwasanaeth carchardai, gwyddom fod y gallu i barhau i ddysgu, datblygu a gwthio'u hunain yn allweddol. Oherwydd hyn, **byddwn yn treialu goruchwyliaeth ar gyfer staff gweithredol**. Mae hyn yn golygu bod swyddogion profiadol yn cael sgysiau 1 i 1 misol ag aelodau iau o'r staff i rannu gwybodaeth ac arbenigedd, i ennyn hyder a chynnig arweiniad a chefnogaeth.
172. Bydd cyfleoedd hyfforddi newydd hefyd yn helpu i wella proffesiynoldeb ein gweithlu ac i wella safon y gofal y gallwn ei gynnig i garcharorion. Elfen bwysig o hyn fydd **datblygu cyfres o fodiwlau dysgu i gyd-fynd ag anghenion poblogaeth amrywiaeth eich carchardai**, gan gynnwys:
- **Hyfforddi staff ar ofynion addysg a sgiliau i wella lefelau llythrennedd a rhifedd carcharorion ac i'w paratoi ar gyfer y gweithle;**
  - **Hyfforddi staff ar addasu cyfundrefn y carchar i alluogi cyflogwyr i gael presenoldeb yn y carchar i gyflogi carcharorion;**
  - **Modiwlau dysgu iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion**, sy'n ategu ein strategaeth Troseddwyr Hŷn a gaiff ei chyhoeddi yn 2022. Bydd yr hyfforddiant yn

---

<sup>49</sup> Mae'r effaith ar forâl wedi'i amlygu hefyd yn HMPPS *Submission to the Prison Service Pay Review Body* (2021) p.33

dysgu staff i adnabod ystod o gyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran fel dementia, ond hefyd cyflyrau eraill fel anawsterau ac anableddau dysgu;

- **Pecynnau hyfforddi ar iechyd meddwl a cham-drin sylweddau:** bydd y rhain yn galluogi holl staff carchardai a phrawf i ddeall sut y gall anghenion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau'r rhai sydd yn ein gofal effeithio ar eu hymddygiad a sut i liniaru'r effeithiau hynny;
- **Byddwn yn datblygu pecyn cymorth hyfforddi cenedlaethol ar gyfer staff rheng flaen sy'n gweithio â charcharorion ag anableddau dysgu, awtistiaeth,** a chyflyrau eraill. Caiff hwn ei ddatblygu yn sgil prif canfyddiadau 'Neurodiversity in the Criminal Justice System: A review of evidence';
- Gall carcharorion gynnig yr amgylchedd cywir i droseddwyr ag anghenion iechyd i symud ymlaen at adferiad, mewn rhai achosion dyma fydd y eu cyfle cyntaf i fanteisio ar wasanaethau iechyd. Rhaid inni sicrhau bod pob carcharor yn gallu gwneud y defnydd gorau o'r cyfle hwn ac **un o'r ffyrdd o wneud hyn fydd drwy wella hyfforddiant i'n staff i adnabod anghenion iechyd ac i gael gafael ar y cymorth cywir.**

## Datblygu Rheolwyr ac Arweinyddion

173. Mae Llywodraethwyr yn allweddol i ffurfio diwylliant a chyfeiriad carchar ac mae'n glod i'r bobl wrth y llyw yn ein carchardai bod sefydlogrwydd wedi'i gynnal drwy gydol y pandemig COVID-19 a bod arloesi'n bosibl.
174. Rydym am symud at system lle mae disgwyliadau ein Llywodraethwyr yn glir a lle mae'r Llywodraethwyr gorau'n cael y rhyddid i arloesi a gweithio'n annibynnol. Edrychir yn fwy manwl ar hyn ym Mhennod 6, ond bydd yn golygu bod perfformiad Llywodraethwyr yn cael ei fesur yn erbyn y canlyniadau maent yn eu cyflawni drwy system o DPA. Bydd hyn yn ategu adolygiadau perfformiad, gan sicrhau cysylltiad pendant rhwng perfformiad a datblygiad gyrfa. Rhan o'r fargen newydd hon fydd sicrhau bod Llywodraethwyr yn cael y datblygiad a'r cyfleoedd gyrfaol cywir i wneud cynnydd ac i weithredu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ymestyn annibyniaeth dros sut maent yn cyflawni. Bydd hyn yn cyd-fynd â chyfarfod Adolygiad Perfformiad newydd y Gweinidog i sicrhau y cyflawnir yn erbyn ein blaenoriaethau, a fydd yn galluogi'r system i ddatblygu arweinyddion heddiw a'r dyfodol gyda phwyslais cryf ar hybu'r diwylliant a'r ymddygiadau cywir.
175. Fodd bynnag, nid y Llywodraethwyr yn unig sy'n gyfrifol am gyflawni'r canlyniadau a bennir gennym mewn carchardai. Mae pob swyddog sydd â chyfrifoldeb am arwain, arbenigedd neu reoli yn hanfodol i lwyddiant carchar. Bydd arweinyddion yn cyrraedd ac yn gadael – boed ar lefel rheolwyr caethiwed, neu lefel Llywodraethwr arweiniol – sy'n golygu y bydd staff yn cael llawer o reolwyr llinell yn eu blynyddoedd cyntaf a bod momentwm positif yn cael ei golli.

176. Rydym am weld arweinyddion yn aros yn neu swyddi i weld newid yn cael ei fabwysiadu ac i wneud cynnydd, a hefyd i sicrhau pan fydd arweinyddion yn symud ymlaen, nad yw cynnydd yn cael ei ddadwneud. I wneud hyn, **byddwn yn annog llwybrau cynnydd mwy eglur i arweinyddion drwy'r system, a chynllunio ar gyfer olyniaeth** ar gyfer rolau arweinyddiaeth sy'n golygu pan fydd Llywodraethwr yn gadael carchar bydd trosglwyddiad effeithiol a bydd y llwyddiant yn parhau. Bydd hyn yn cynnwys **sefydlu Cyngor Gyrfaoedd**, i ddod ag uwch arweinyddion at ei gilydd i ganfod cyfleoedd ar gyfer arweinyddion mwyaf talentog y dyfodol mewn rolau sy'n cyfateb i'w hanghenion datblygu hwy a'n busnes ni.
177. Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi yn natblygiad ein swyddogion carchar ac felly **byddwn yn helpu Llywodraethwyr i dreialu modelau ymarfer myfyriol a goruchwyllo** fel grwpiau cymorth gan gymheiriaid. Bydd datblygu diwylliant agored lle gall staff ddysgu drwy brofiadau eu cydweithwyr yn helpu i wneud y gorau o fentrau cyfredol fel y model Rheoli Troseddwyr mewn Caethiwed (OMiC), sy'n dwyn ynghyd sgiliau staff carchardai a phrawf i helpu troseddwyr ar eu taith at adsefydlu, mentrau diogelwch a'r cod arweinyddiaeth. Bydd hyn yn tynnu sylw at y safonau – gan gynnwys ymwybyddiaeth ac uniondeb personol - y byddwn yn disgwyl i'n harweinyddion eu dangos bob dydd.
178. Hoffem hefyd gynyddu niferoedd y staff carchardai a phrawf sy'n gweithio o fewn amgylcheddau ei gilydd, i rannu syniadau a gwybodaeth o fewn y system cyfiawnder troseddol a chynnig cyfleoedd datblygu newydd i staff. **Byddwn felly'n lansio cynllun carlam traws HMPPS gyda disgwyl i'r garfan gyntaf gychwyn ym mis Medi 2022.** Mae'r cynllun yn gobeithio denu unigolion profiadol o sectorau eraill sy'n dangos y potensial i ddatblygu'n gyflym i rolau gweithredol uwch gyda'r HMPPS. Bydd y rhai y byddwn yn eu recriwtio'n treulio amser ym mhob rhan o HMPPS – carchardai, prawf a chyfiawnder ieuencid – cyn arbenigo mewn maes penodol a datblygu ar gyfer rôl arweinydd canol.
179. I brofi ac arddangos effaith ein huchelgais a'r portffolio llawn o raglenni arweinyddiaeth sy'n sail iddo, **byddwn yn lansio peilot o'n cynigion arweinyddiaeth mewn un rhanbarth.** Bydd y peilot yn dod ag arweinyddion at ei gilydd o'r gwasanaethau carchardai a phrawf, ac arweinyddion cymunedol, i gydweithio ac i fyfyrrio ar eu rôl fel arweinyddion.
180. Mae'r cyfraddau gadael yn llawer uwch yn achos swyddogion carchar ar y lefelau is o'i gymharu â swyddogion uwch,<sup>50</sup> ac felly bydd canolbwyntio ar ansawdd

---

<sup>50</sup> HMPPS *Workforce Quarterly*: September 2021

arweinyddiaeth is-reolwyr yn un o'n blaenoriaethau. **Bydd y peilot, felly, yn cynnwys cymorth wedi'u dargedu ar gyfer is-reolwyr a rheolwyr canol.**

---

## Galluogi ein Gweithlu i wneud i Garcharorion Gefnu ar Droseddu

181. Mae angen cymorth ac arweiniad ar garcharorion i wneud dewisiadau gwell ac i baratoi at fywyd heb droseddu ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Gwyddom fod Llywodraethwyr ac arweinyddion yn hanfodol i sefydlu diwylliant sy'n helpu troseddwyr i gefnu ar droseddu'n rhan o ddull gweithio'r holl staff. Dyna pam y bydd y DPA sy'n cael eu pennu a'r matricesau a ddefnyddir i'w mesur yn llywio, yn monitro, ac yn hybu'r diwylliant hwn.
182. Diben rôl gweithwyr allweddol yw datblygu perthnasoedd positif rhwng staff a charcharorion, meithrin ymddygiad positif ac ennyn ymddiriedaeth, hyder, gobraith ac ymrwymiad i newid ar ran y carcharor. Bydd carcharorion yn cael eu herio a'u helpu i gefnu ar drais ac aildroseddu. I helpu carcharorion yn y ffordd orau, byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod ein gweithwyr allweddol yn amrywiol o ran ethnigrwydd a phrofiad.
183. Mae OMiC bellach wedi'i gyflwyno yn ystâd gaeedig y dynion ac rydym yn parhau i helpu carchardai i ddatblygu ac ymwreiddio'r model yn ystâd agored y dynion, lle mae paratodau ar gyfer rhyddhau'n allweddol, ac yn ystâd y menywod. **Rydym yn bwriadu cyflwyno cyfres o fesurau perfformiad ar gyfer gwaith allweddol a rheoli achosion, gan gynnwys mesurau ansawdd**, a fydd yn annog gwelliannau yn y rhyngweithio rhwng staff a charcharorion ac a fydd, o ganlyniad, yn gwella perthnasoedd.
184. Rydym am sicrhau bod amser sy'n cael ei dreulio ar OMiC yn fuddiol drwy alluogi carcharorion i edrych ar eu hymddygiad troseddol, i wneud cynnydd drwy eu cynlluniau dedfrydu ac ail setlo yn eu cymunedau ar ôl cael eu rhyddhau.
185. Byddwn yn parhau i ymwreiddio ac ehangu'r dull Rheoli Risg Trawma (TRiM) gan gynnig strwythur cymorth gan gymheiriaid i'n staff. Mae lleoliad galwedigaethol carchar yn cynyddu amlygiad staff i ddigwyddiadau a all fod yn drawmatig. Mae'r TRiM fel model cymorth wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus eisoes gan y fyddin a'r llynges.

## Ein Gweledigaeth 10 Mlynedd ar gyfer ein Gweithlu

186. Bydd y gwaith a ddisgrifir gennym uchod yn sylfaen hanfodol i gyflawni'r nodau tymor hir uchelgeisiol ar gyfer y bobl sy'n gweithio yn ein carchardai ac i drawsnewid rôl swyddogion carchar. Ein nod yw galluogi pawb i wneud eu gorau, meithrin amrywiaeth a chynhwysiant ar bob lefel o'r uwch arweinyddiaeth wrth inni ddatblygu ac ehangu ein gweithlu.
187. **Byddwn yn gwneud yn siŵr bod gan Lywodraethwyr yr adnoddau i arwain a chynorthwyo eu staff i wella perfformiad yn eu carchardai.** Caiff hyn ei fesur a'i fonitro drwy set o DPA trylwyr a thrwy gyfleoedd dwyn i gyfrif, fel cyfarfodydd adolygu perfformiad newydd y Gweinidog a ddisgrifiwyd uchod. Fel y dangosir yn y bennod nesaf, byddwn yn cefnogi ein llywodraethwyr sy'n perfformio orau drwy 'annibyniaeth a enillir' ychwanegol i ffurfio'r pwerau a'r rhyddid sydd ganddynt i gyflawni'r amcanion strategol a ddisgrifir yn y Papur Gwyn hwn yn eu carchardai, a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i weithredu'r pwerau hyn.
188. **Byddwn yn cynyddu gweithlu'r carchardai, yn rhoi sylw i'r rhesymau dros adael ac yn gwella galluoedd staff.** Bydd hyn yn cael ei ategu gan ymrwymiad i rannu dysgu ac arferion da ar draws yr ystâd ac ystyried sut y gallwn reoli adnoddau mewn ffordd fwy hyblyg. Bydd y pwyslais ar sicrhau darpariaeth optimaidd mewn carchardai, sicrhau bod materion allweddol fel diogelwch, galluoedd diogelu, OMiC a digidol yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn ein modelau staffio fel y bydd carchardai'n cael yr adnoddau i sicrhau'r rheolaeth a'r drefn sydd eu hangen i gael amgylchedd sefydlog yn y carchardai.
189. **Bydd ein cynlluniau'n moderneiddio ein cynnig cyflogaeth er mwyn llwyddo i ddenu, cadw a chefnogi gweithlu amrywiol a chynhwysol** sy'n allweddol i sefydlogrwydd ac i gyflawni canlyniadau gwell mewn carchardai. Bydd hyn yn golygu y bydd staff yn gallu dod o hyd i gynnig cyflogaeth sy'n diwallu eu hanghenion personol yn ogystal â'u datblygiad proffesiynol. Bydd cyfleoedd i ddysgu'n cael eu hybu drwy ddigido amserlen glir o ddatblygiad proffesiynol parhaus, sy'n golygu bod dysgu'n hyblyg ac yn cyd-fynd ag anghenion y dysgwyr. Byddwn yn cynnig gyrfaoedd ar draws HMPPS sy'n datblygu ein pobl gan gynnwys cyflwyno rolau arbenigol newydd i ddiwallu anghenion poblogaeth gymhleth ein carchardai, lle mae dysgu'n ffactor sy'n helpu i gadw cyflogaeth ac i greu ymgysylltiad parhaus.
190. **Bydd cynyddu cynhyrchiant y gweithlu drwy barhau i gyflwyno'r Rhaglen Trawsnewid Technoleg Carchardai'n gosod y sylfeini ar gyfer rhaglenni'r dyfodol.** Bydd parhau â'r rhaglen hon i foderneiddio cyfrifiaduron bwrdd gwaith, dyfeisiadau a meddalwedd o fudd i'r bobl sy'n gweithio yn ein carchardai. Bydd uwchraddio'r cyfarpar hwn yn arwain at gynyddu cynhyrchiant a lleihau'r amser sy'n cael ei wastraffu pan fydd defnyddwyr yn aros i systemau gychwyn, ymateb neu weithio i ddatrys problemau. Bydd technoleg fodern yn gyflymach i'w defnyddio, sy'n golygu y gall staff ail-fuddsoddi'r amser hwnnw i feithrin perthnasoedd gwell â

charcharorion. Bydd y gwasanaeth yn galluogi rhaglenni'r dyfodol, fel y posibilrwydd o ddefnyddio dyfeisiadau llaw ar gyfer staff charchardai neu edrych ar dechnoleg Teams.

191. **Bydd ymwreiddio model goruchwyllo ar gyfer staff rheng flaen, a chyfleoedd strwythuredig i fyfyrion** yn chwarae rôl allweddol drwy annog agwedd agored a dysgu i bawb. Gwyddom fod swydd swyddog carchar yn golygu gweithio â rhai o'r unigolion mwyaf heriol mewn cymdeithas – dyna pam y byddwn hefyd yn chwilio am ffyrdd newydd o sicrhau bod ein staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn hyderus ac yn meddu ar y gallu i wneud eu gwaith o ddydd i ddydd, a bod eu hymroddiad a'u gwaith caled yn cael eu cydnabod. Gan gydnabod bod llawer o'r gwaith hanfodol sy'n cael ei wneud mewn carchardai'n gudd, byddwn yn gweithio i sicrhau bod rôl swyddog carchar yn un sy'n cael ei deall a'i gwerthfawrogi gan gymdeithas yn yr un ffordd ag y mae rolau'r heddlu a rolau rheng flaen craidd eraill, gan godi proffil tymor hir carchardai a'u rôl yn y system cyfiawnder troseddol.

#### **Cwestiynau o'r Ymgynghoriad:**

16. A oes meysydd penodol o hyfforddiant yr ydych yn credu y dylid eu cynnig i swyddogion carchar nad ydym yn eu cynnig eisoes?
17. A ydych chi'n cytuno y byddai hyfforddiant recriwtio mwy pwrpasol yn galluogi swyddogion carchar i ddiwallu anghenion carcharorion yn well? Pa garfanau eraill ddylem ni fod yn canolbwyntio arnynt a sut allwn ni wneud hyn mewn ffordd sy'n hybu cyfle cyfartal i droseddwyr â nodweddion gwarchoddedig?



## **Pennod Chwech – Cyflawni Canlyniadau Gwell mewn Carchardai**

Rydym am gyflwyno 'Bargen Newydd' i Lywodraethwyr sy'n seiliedig ar ddisgwyliadau ac atebolrwydd pendant, ond gyda mwy o ryddid ac annibyniaeth i benderfynu sut fydd ein hamcanion strategol yn cael eu cyflawni'n ymarferol yn ein carchardai. I gyflawni hyn, byddwn yn:

- Gosod disgwyliadau pendant ar Lywodraethwyr drwy DPA, mesurau canlyniadau a thargedau tryloyw a mesuradwy i bob carchar a'u timau; bydd hyn yn cynnwys pwyslais ar leihau aildroseddu, gwella diogelwch a sicrwydd; cael carcharorion i gefnu ar gyffuriau a gwella sgiliau sylfaenol fel rhifedd a llythrennedd;
- Gwella tryloywder drwy gyhoeddi gwybodaeth ar lefel carchar, mesur perfformiad yn erbyn DPA, sy'n dangos sut mae Llywodraethwyr yn cyflawni'r blaenoriaethau a bennwyd gennym, a chymharu perfformiad carchardai ar draws yr ystâd mewn tablau, i helpu i ledaenu arferion gorau;
- Grymuso ein harweinyddion gweithredol, gydag annibyniaeth a enillir ar gyfer ein perfformwyr gorau yn y meysydd lle mae angen arloesi a chyflawni yn erbyn eu DPA;
- Sicrhau aliniad gwell rhwng Carchardai a Phrawf i reoli dedfrydau'n well o'u dechrau i'w diwedd;
- Creu fframwaith annibyniaeth parhaol i alluogi Llywodraethwyr i barhau i arloesi, lledaenu arferion gorau ar draws y system carchardai, gyda disgwyliadau ac atebolrwydd pendant i gyflawni;
- Parhau â diwygiadau deddfwriaethol i gael Cyrff Hyd Braich sydd â'r fframwaith deddfwriaethol sydd ei angen i sicrhau craffu mwy effeithiol.

192. Rydym wedi ymrwmo i rymuso ein harweinyddion gweithredol, gan sicrhau bod ganddynt y rheolaeth a'r awdurdod i benderfynu'n well sut maent yn rhedeg eu carchardai. Mae ein cynlluniau ar gyfer diwygio'n seiliedig ar ymddiried mewn Llywodraethwyr i gyflawni, a chan gydnabod mai hwy sydd yn y sefyllfa orau i annog newid effeithiol yn eu sefydliadau i wella canlyniadau i garcharorion.
193. Wrth inni wella o'r pandemig, rydym yn cydnabod maint yr her sy'n ein hwynebu mewn carchardai, ond mae gennym yr uchelgais hefyd i adeiladu ar ein dysgu wrth inni ailgodi'n gryfach. Byddwn yn manteisio ar hyn i sicrhau gwelliannau mewn meysydd blaenoriaeth fel gwarchod diogelwch a sefydlogrwydd sefydliadau, gan

gynnwys atal cyffuriau ac arfau, ehangu'r hyfforddiant mewn sgiliau sydd ar gael, mewn gwaith ac addysg mewn carchardai, rhoi sylw i gamddefnyddio sylweddau ymhlith carcharorion, a chryfhau'r llwybr i'r gymuned i droseddwr drwy wella mynediad at lety ac adnewyddu cysylltiadau teuluol.

194. Gwneir hyn drwy Fargen Newydd â Llywodraethwyr gyda phwyslais ar sicrhau bod disgwyliadau pendant ar eu cyfer drwy DPA a thargedau i gyflawni sy'n fesuradwy, yn dryloyw ac sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau. Bydd y DPA a bennir gennym ar gyfer Llywodraethwyr a sut maent yn perfformio yn eu herbyn yn cael eu cysylltu â'r cymorth hyfforddi a gânt fel rhan o ddatblygiad eu gyrfa, eu harfarniadau a chynnydd gyrfaol.
195. Wrth ddatblygu'r fframwaith DPA ymhellach, bydd pwyslais ein matricesau yn fwyaf penodol ar:
- Dim goddefgarwch i gyffuriau, arfau ac agweddau eraill ar ddiogelwch fel lleihau marwolaethau a hunan-niweidio;
  - Adsefydlu i ddefnyddwyr cyffuriau gyda phwyslais ar symud ymlaen i wellhad ystyrllon, drwy ymwrthod;
  - Hyfforddiant addysgol gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a sgiliau ar gyfer gweithio;
  - Cryfhau ailsefydlu drwy ganlyniadau llety a chysylltiadau teuluol.
196. Rydym yn credu'n gryf y dylai Llywodraethwyr fod yn ganolog i'r broses hon ac y byddwn yn helpu i gyflawni drwy eu grymuso ymhellach a rhoi iddynt yr adnoddau sydd eu hangen i arloesi'n lleol ac i annog newid effeithiol. Mi wnawn hyn drwy roi mwy o annibyniaeth i'r llywodraethwyr sy'n perfformio orau i gyflawni yn erbyn y targedau hyn.

## **Pennu Disgwyliadau Pendant a Chyfeiriad er mwyn Cyflawni**

197. Byddwn yn gweithio ag arweinyddion yn yr ystâd carchardai i fod yn eglur ynglŷn â'n disgwyliadau a'r hyn y byddant yn atebol am ei gyflawni. **Byddwn yn pennu ac yn cyhoeddi targedau ar lefel carchardai unigol yn erbyn fframwaith perfformiad tryloyw.** Bydd hyn yn cael ei lunio, a'i osod yn erbyn ein prif amcanion ar gyfer y system carchardai; cyfundrefnau diogel a sefydlog heb ddim goddefgarwch tuag at gyffuriau ac arfau; darparu gwaith, sgiliau ac addysg i garcharorion; helpu troseddwr i gefnu ar eu dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol; a helpu carcharorion yn ôl i'r gymuned drwy lety a chysylltiadau teuluol.
198. **I sicrhau mwy o dryloywder, byddwn yn datblygu a chyhoeddi data lefel carchar newydd sy'n dangos cynnydd yn erbyn y gwelliannau'r ydym am eu gweld ar draws y system.** Byddwn hefyd yn cryfhau atebolrwydd lleol, caniatáu i'r

cyhoedd i weld y canlyniadau mae eu carchar lleol yn eu cyflawni, a'r rôl mae carchardai yn ei chwarae bob dydd i gadw'r cyhoedd yn ddiogel.

## **Cryfhau Annibyniaeth a Rhoi'r Rhyddid sydd ei Angen ar Arweinyddion Gweithredol**

199. **Byddwn yn rhoi fframwaith clir a pharhaol i Lywodraethwyr sy'n datgan yn glir pa rhyddid sydd ganddynt a sut y gellir eu hehangu.**
200. Yma rydym yn disgrifio'r dull y byddwn yn ei fabwysiadu yn ystod y ddwy flynedd nesaf, gan gyflwyno newid fesul cam, mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio'n ofalus. Ym mlwyddyn un, byddwn yn:
- Ailddatgan y rhyddid a'r grym sydd gan Lywodraethwyr eisoes drwy ddatganiad polisi clir. Bydd hwn yn sicrhau nid yn unig bod gan Lywodraethwyr y rhyddid sydd ei angen arnynt i gyflawni, ond hefyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso i weithredu'r pwerau hynny, i arloesi a gwella'r gwasanaeth;
  - Cynnal adolygiad o bwerau presennol, eu categorio'n ôl lefel yr annibyniaeth sydd ar gael i sicrhau bod arweinyddion gweithredol yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt, ond eu bod yn deall hefyd pa bwerau lleol sydd ganddynt i arloesi. Bydd hyn yn sicrhau bod y model grymuso'n un dynamig a'i fod yn gallu ymateb i arferion gorau, yn ogystal â heriau a blaenoriaethau'r dyfodol;
  - Parhau i rymuso llywodraethwyr drwy'r Rhaglen Dylunio Cyfundrefn y Dyfodol i lunio cyfundrefnau sy'n gweithio i'w carchardai a'u poblogaethau, darparu gweithgarwch mwy ystyrion yn unol â blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer y system carchardai. Bydd hefyd yn galluogi Llywodraethwyr i fyfyrion ar yr hyn a ddysgwyd yn sgil COVID-19 a darparu gwasanaethau'n wahanol, gan gynnwys gweithgareddau i grwpiau llai, darparu gwasanaethau mewn celloedd a mwy o weithgarwch ar yr adain, gwella diogelwch a sefydlogrwydd mewn carchardai;
  - Gweithio i ymgorffori'r cynllun Polisi Cymhellion wedi'i ddiweddarau, sy'n gwobrwyo carcharorion am ymddygiad da ac sy'n eu cymhell i gydymffurfio â'r gyfundrefn a gweithgarwch adsefydlu. Bydd hyn yn rhoi annibyniaeth i Lywodraethwyr i greu cynllun gwobrwyo a fydd yn gweithio orau i boblogaeth eu carchar;
  - Gweithredu mesur perfformiad carchar newydd sy'n cofnodi ystod lawn o weithgarwch sydd ar gael mewn carchardai. Bydd y mesurau hyn yn rhoi mwy o eglurder i Lywodraethwyr ar ble i ganolbwyntio i sicrhau bod y gweithgareddau sydd ar gael yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i ddiwylliant diogelwch ac adsefydlu eu carchardai.
201. Mae ein diwygiadau ym mlwyddyn un yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn gweithredu fel un system ar draws Carchardai a Phrawf, gyda chanlyniadau a matricesau cyflawni a rennir sydd wedi'u datgan yn glir, sy'n gwella aliniad â

phartneriaid cyfiawnder troseddol ar lefel leol a rheoli dedfrydau'n well o'u dechrau i'w diwedd.

202. Gan adeiladu ar hyn, ym mlwyddyn dau, byddwn yn:

- Cyflwyno 'annibyniaeth a enillir' ar gyfer y Llywodraethwyr sy'n perfformio orau a fydd yn grymuso ein harweinyddion gweithredol i gael mwy o hyblygrwydd i symud i ffwrdd oddi wrth bolisiâu sy'n cael eu pennu'n genedlaethol. Po fwyaf llwyddiannus fydd Llywodraethwyr yn perfformio yn erbyn DPA, ac yn dangos bod hyn yn eu helpu i gyflawni canlyniadau po fwyaf o annibyniaeth y gallant ei gael i barhau i hybu arloesi. Bydd hyn yn cael ei arwain yn lleol, gyda Llywodraethwyr yn dweud lle gallai mwy o annibyniaeth eu helpu i gyflawni canlyniadau gwell - er enghraifft, gallai hyn gynnwys mwy i ryddid i wyro oddi wrth gyfarwyddiadau a fframweithiau polisi'r gwasanaeth carchardai, Bydd hyn yn eu galluogi i arloesi'n lleol, ond gan ddal i weithredu o fewn fframwaith clir o DPA a mesurau canlyniadau sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Llywodraeth. Bydd hon yn broses hyblyg gyda thybiaeth o gymeradwyaeth o fewn cyfyngiadau rheolau ehangach y sector cyhoeddus a heb danseilio uniondeb ehangach y system carchardai;
- Parhau i adolygu, o leiaf unwaith y flwyddyn, sut mae annibyniaeth a enillir yn cael ei ddyrannu. Byddwn yn sicrhau bod annibyniaeth ychwanegol yn arwain at ganlyniadau gwell, ac os nad yw Llywodraethwyr yn perfformio'n dda yn erbyn DPA, gall annibyniaeth a enillwyd gael ei gymryd yn ôl. Bydd hyn yn sicrhau bod y pwerau a roddir i Lywodraethwyr wedi'u cysylltu â chyflawni canlyniadau gwell i garcharorion ac i'r cyhoedd;
- Parhau i fonitro effaith arloesi lleol a lle mae'r arloesi wedi gwella canlyniadau. Lle maent wedi eu gwella, byddwn yn rhannu ac yn ehangu rhyddid ac arferion gorau ar draws y system carchardai, gan hybu gwelliannau parhaus a meithrin a gwobrwyo arloesi. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gwella'r ddarpariaeth yn parhaus yn erbyn DPA ar draws yr ystâd, gan gyflawni canlyniadau gwell i garcharorion a chadw'r cyhoedd yn ddiogel;
- Ymestyn y model annibyniaeth a enillir i gyfarwyddwyr grwpiau ar lefel ranbarthol, a grwpiau o Lywodraethwyr.

### **Cwestiwn o'r Ymgynghoriad:**

18. A oes unrhyw feysydd lle dylem ymestyn annibyniaeth i bob Llywodraethwr i helpu i sicrhau canlyniadau gwell?

## Sicrhau Atebolrwydd Clir am Gyflawni

203. Byddwn yn grymuso ein harweinyddion i arloesi'n lleol drwy'r model annibyniaeth a enillir, ond byddwn yn sicrhau hefyd ein bod yn mesur yr hyn sy'n gweithio yn system ac yn dwyn Llywodraethwyr i gyfrif am gyflawni yn ei erbyn. Bydd DPA yn gosod disgwyliadau pendant ar gyfer cyflawni, a bydd Llywodraethwyr yn cael eu dwyn i gyfrif fel rhan o'u hadolygiadau perfformiad, gan sicrhau cysylltiad cryfach rhwng cynnydd gyrfaol a'n DPA.
204. Bydd ein contract cyflawni â Llywodraethwyr ac arweinyddion gweithredol yn cael ei ategu gan ein DPA, mesurau canlyniadau a thargedau cyflawni newydd, a fydd yn rhoi eglurder llawn a thargedau clir y bydd Llywodraethwyr yn cael pob cymorth i'w cyflawni.
- Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi a'u pwysoli i garchardai ar sail ei hamgylchiadau unigol, i adlewyrchu'r heriau lleol a'r poblogaethau gwahanol sy'n cael eu rheoli gan ein Llywodraethwyr, ac sy'n adlewyrchu ein huchelgais a'n blaenoriaethau ar gyfer y system carchardai.
205. Byddwn yn cyhoeddi dangosfwrdd perfformiad carchardai newydd a fydd yn cofnodi cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau a'n dangosyddion perfformiad allweddol ein hunain. Bydd y dangosfwrdd yn cael ei bwysoli i'n blaenoriaethau: diogelwch a sefydlogrwydd, dim goddefgarwch tuag at gyffuriau ac eitemau anghyfreithlon; gan sicrhau bod carcharorion yn cael yr hyfforddiant, sgiliau a'r triniaethau cywir fel y bydd ganddynt y siawns orau o ymuno â'r farchnad waith; a chael llety ar adeg eu rhyddhau. Bydd y dangosfwrdd yn hybu tryloywder ac atebolrwydd a bydd yn caniatáu i'r cyhoedd a rhanddeiliaid weld sut mae'r system a'r Llywodraethwyr yn perfformio gyda'r nod o wella canlyniadau i droseddwy.
206. **Byddwn hefyd yn cyhoeddi tablau clir**, a fydd yn helpu carcharorion a'r cyhoedd i ddeall a meincnodi perfformiad a gwelliannau ar draws yr ystâd. Bydd y rhain, am y tro cyntaf, yn galluogi dealltwriaeth o sut mae ein carchardai'n perfformio yn erbyn blaenoriaethau newydd y llywodraeth mewn perthynas â'i gilydd ar draws y system ac yn ein galluogi i ddeall yr effaith mae Llywodraethwyr yn ei chael o ran gwella perfformiad.
207. Yn olaf, yn ogystal â sicrhau mwy o dryloywder i'r cyhoedd, byddwn yn cyflwyno goruchwyliaeth gryfach gan y Gweinidog ar sut mae carchardai'n perfformio yn erbyn eu targedau cyflawni. **Byddwn yn sefydlu bwrdd perfformiad Gweinidogol newydd** a fydd yn golygu y bydd uwch arweinyddion rheng flaen yn atebol yn uniongyrchol i Weinidogion. Bydd hyn hefyd yn galluogi Gweinidogion i gysylltu'n uniongyrchol â Gweinidogion i sicrhau ein bod yn parhau i'w cynorthwyo i gyflawni, ac rydym yn parhau i'w grymuso ar draws y system, gan ymateb i anghenion ein harweinyddion gweithredol.

## Adolygiad o'r Ddeddfwriaeth a'r Cefndir Craffu Ehangach

208. Mae craffu annibynnol yn rhan hanfodol o gynnal tryloywder a gwella safonau ac atebolrwydd, yn ogystal â chydabod arferion gorau. Yn 2020, buom yn ymgynghori ar argymhellion Papur Gwyn Diogelwch Carchardai a'u Diwygio 2016 i gryfhau rôl Ombwdsmon y Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf (PPO) ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMIP) a hefyd cryfhau pwerau ymchwilio'r PPO, Arolygiaeth Carchardai EM (HMIP) ac Arolygiaeth Prawf EM, y Byrddau Monitro Annibynnol (IMB) a'r Arsylywyr Lleyg (LO). I sicrhau bod gan y cyrff hyn y gallu i graffu ymhellach ar ein carchardai, y gwasanaeth prawf a hebrwng carcharorion a gwasanaethau caethiwed, **rydym yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i:**
- Cydnabod y PPO ac Arolygiaeth Prawf EM, a'u cylchoedd gwaith penodol, mewn deddfwriaeth fel y bwriadwyd ym Mil Carchardai a Llysoedd 2017;
  - Cadarnhau pwerau presennol (i gael gfael ar bobl, lleoedd a dogfennau) y PPO, Arolygiaeth Carchardai EM ac Arolygiaeth Prawf EM mewn deddfwriaeth;
  - Cydnabod cyfrifoldeb Arolygiaeth Prawf EM am arolygu Timau troseddu Ieuencid (YOT) mewn deddfwriaeth; a
  - Cyfuno Bwrdd Rheoli IMB a Chyngor Cenedlaethol yr Arsylywyr Lleyg mewn un Bwrdd o dan un Cadeirydd, gyda'r ddau i'w cydnabod mewn deddfwriaeth.
209. Bydd y deddfwriaeth hon yn gam cyntaf mewn adolygiad cynhwysfawr o graffu ar garchardai a chadw. Rydym yn ymwybodol bod y system bresennol, er yn hanfodol i sicrhau safonau uchel ac atebolrwydd, wedi datblygu dros amser. **Byddwn felly'n ystyried sut y gellir ei mireinio a'i diwygio ymhellach** i gael gwell canlyniadau, i wella atebolrwydd a thryloywder yn y tymor hir.
210. Bydd ein diwygiadau'n creu system eglur a thryloyw o dargedau, DPA a mesurau canlyniadau fel y bydd ein harweinyddion gweithredol yn deall yr angen i gyflawni a sut y byddant yn cael eu dwyn i gyfrif. Bydd hyn hefyd yn galluogi'r cyhoedd i weld a deall yn well sut mae carchardai'n perfformio i adsefydlu troseddwy'r a'u cadw'n ddiogel, dwyn y system i gyfrif drwy ddata a thablau eglur a gyhoeddir.
211. Ond mae'r diwygiadau hyn hefyd yn cadarnhau ein hymrwymiad i rymuso ein harweinyddion gweithredol, rhoi fframwaith clir a pharhaol ar waith i ymestyn annibyniaeth a galluogi'r arweinyddion gorau a mwyaf disglair yn y system carchardai i gael y rhyddid i arloesi a gwella eu perfformiad. Mae ein harweinyddion gweithredol yn parhau i fod sail i gyflawniadau'r system carchardai, a thrwy'r diwygiadau hyn byddwn yn parhau i'w hannog a'u galluogi i wneud y newidiadau hanfodol yr ydym am eu gweld i drawsnewid bywydau troseddwy'r ac i gadw'r cyhoedd yn ddiogel.

### Cwestiwn o'r Ymgynghoriad:

## 19. Sut allwn ni gryfhau craffu annibynnol carcharorion ymhellach yn y dyfodol?

# Holiadur

Mae'r papur hwn yn cynnwys nifer o gwestiynau i ymgynghori arnynt ar gynnwys a gweithredu rhai o'n cynigon ar gyfer carchardai. Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu at y sawl sydd â diddordeb ac arbenigedd yn ein carchardai yng Nghymru a Lloegr.

Byddem yn croesawu ymateb i'r cwestiynau canlynol.

### **Pennod Un – Llwybr i Adeiladu Ystâd Carchardai'r Dyfodol**

1. A ydych chi'n cytuno mai dyma'r uchelgeisiau tymor hir priodol ar gyfer yr ystâd carchardai?

### **Pennod Dau – Mynd i'r Afael â Thrais a Lleihau Niwed**

2. A ydych chi'n cytuno mai'r rhain yw'r egwyddorion arweiniol a ddylai fod yn sail i ddylunio cyfundrefn y dyfodol?
3. Sut ddylem ni ddatblygu fframweithiau canlyniadau i sicrhau bod ein huchelgais ar gyfer Dyluniad Cyfundrefn y Dyfodol yn cael ei gwireddu?
4. A ydych chi'n cytuno â'n blaenoriaethau tymor hir i wneud carchardai'n fwy diogel?
5. Sut allwn ni fynd ymhellach?

### **Pennod Tri - Rôl Carchardai a Phrawf i Leihau Troseddu ac Amddiffyn y Cyhoedd**

6. Sut allwn ni fynd ymhellach i sicrhau bod gan garcharorion y sgiliau i sicrhau cyflogaeth sefydlog ar adeg eu rhyddhau? Yn benodol, hoffem glywed gan elusennau, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant sy'n gweithio â rhai sy'n gadael carchar neu a hoffai gefnogi ein cenhadaeth i gael mwy o garcharorion i swydd. Hoffem hefyd glywed sut y gellid gwella cynlluniau sy'n oedi datgelu euogfarnau yn ystod ceisiadau am swyddi, fel 'Ban the Box', a chael cyflogwyr i'w derbyn.
7. Beth yw'r problemau a'r rhwystrau mwyaf sy'n wynebu rhai sy'n gadael carchar pan fyddant yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol? Pa effaith maent yn ei gael ar rai sy'n gadael carchar?
8. A ddylem ni fabwysiadu ymagwedd ddeddfwriaethol, fel y disgrifir uchod, yn achos rhai sydd mewn perygl o aildroseddu a fyddai fel arall yn cael eu rhyddhau ar ddydd Gwener? Os felly, sut ddylem ni lunio ymagwedd o'r fath?

9. A ydych chi'n cytuno â'r 'egwyddorion arweiniol' a'r canlyniadau sy'n flaenoriaeth a'r meysydd pwyslais a nodwyd gennym ar gyfer datblygu'r Pasbortau Ailsefydlu?
10. Sut allwn ni weithredu'r dull Pasbort Ailsefydlu mewn ffordd sydd fwyaf effeithiol i rai sy'n gadael carchar ac i ymarferwyr?
11. Sut ddylem ni annog carcharorion a rhai sy'n gadael carchar i gydymffurfio ag amodau a disgwyliadau yn gyfnewid am y cymorth a ddarperir, a beth ddylai'r canlyniadau fod am beidio â chydymffurfio?
12. A ydych chi'n cytuno a'n gweledigaeth dymor hir?
13. Sut allwn ni fynd ymhellach i helpu carcharorion i gefnu ar droseddu?

### **Pennod Pedwar – Ymagwedd Newydd tuag at Garchardai Menywod**

14. A ydych chi'n cytuno a'n gweledigaeth dymor hir ar gyfer carcharorion menywod?
15. Beth yn fwy allwn ni ei wneud i helpu menywod mewn carchardai, gyda chyfeiriad penodol at ddiwallu anghenion carcharorion benywaidd â nodweddion gwarchoddedig?

### **Pennod Pump – Ein Pobl**

16. A oes meysydd penodol o hyfforddiant yr ydych yn credu y dylid eu cynnig i swyddogion carchar nad ydym yn eu cynnig eisoes?
17. A ydych chi'n cytuno y byddai hyfforddiant recriwtio mwy pwrpasol yn galluogi swyddogion carchar i ddiwallu anghenion carcharorion yn well? Pa garfanau eraill ddylem ni fod yn canolbwyntio arnynt a sut allwn ni wneud hyn mewn ffordd sy'n hybu cyfle cyfartal i droseddwr â nodweddion gwarchoddedig?

### **Pennod Chwech - Cyflawni Canlyniadau Gwell mewn Carchardai**

18. A oes unrhyw feysydd lle dylem ymestyn annibyniaeth i bob Llywodraethwr i helpu i sicrhau canlyniadau gwell?
19. Sut allwn ni gryfhau craffu annibynnol carcharorion ymhellach yn y dyfodol?

## **Sut i ymateb**

Anfonwch eich ymateb erbyn 04/02/22 i:

**Prisons Strategy White Paper Team**  
Ministry of Justice  
Future Prison Policy



Floor 7  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ

**E-bost:** prisonswhitepaper@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

## Ymateb y Llywodraeth

Bydd y Llywodraeth yn ymateb i'r ymgynghoriad fis Ebrill 2022.

## Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

## Cyfrinachedd

Drwy ymateb i'r ymgynghoriad hwn, rydych yn cydnabod y bydd eich ymateb, yn ogystal â'ch enw/hunaniaeth gorfforaethol yn cael eu cyhoeddi pan fydd yr Adran yn cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yw'r rhain yn bennaf).

Mae'r llywodraeth yn credu ei bod hi'n bwysig, er mwyn tryloywder, fod y cyhoedd yn gallu gweld pwy sydd wedi ymateb i ymgynghoriadau'r Llywodraeth a beth yw eu safbwyntiau. Hefyd, mae'n bosibl y bydd yr Adran yn dewis peidio â thynnu eich enw/manylion oddi ar eich ymateb yn nes ymlaen, er enghraifft, os byddwch chi'n newid eich meddwl neu'n ceisio cael eich 'anghofio' o dan ddeddfwriaeth diogelu data, os yw'r Adran yn credu y dylai'r manylion hynny fod ar gael yn gyhoeddus er budd y cyhoedd. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw/hunaniaeth gorfforaethol fod ar gael yn gyhoeddus fel hyn, fe'ch cynghorir i ymateb yn ddiennw (er enghraifft, fel 'perchennog busnes lleol' neu 'aelod o'r cyhoedd'). Neu, gallech ddewis peidio ag ymateb.

**Diolch am gymryd rhan yn yr ymarferiad ymgynghori.**



E02699891

978-1-5286-3095-5